Gwasanaeth Erlyn y Goron

Yn Darparu Cyfiawnder

CPS

# Adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched

2017–18

YN CYNNWYS DATA AR DDYNION A BECHGYN

# Cynnwys

**Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus** **1–2**

**Adroddiad trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)** **3**

- Is-set VAWG 4
- Cam-drin domestig 5
- Stelcio neu aflonyddu 7
- Treisio 8
- Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 12
- Trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir, priodas dan orfod, ac anffurfio organau cenhedlu benywod 13
- Cam-drin plant 16
- Masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern 18
- Puteindra 19
- Pornograffi ac anweddustra 19

**Adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)** **A1–A56**

Mae'r adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched yn rhoi dadansoddiad data manwl ynghylch pob elfen o'r VAWG.

**Atodiad 1 Erlyniadau yn ôl Ardaloedd** **B1–B8**

Mae Atodiad 1 yn cyflwyno data manwl yn ôl Ardal GEG ac ardaloedd lluoedd yr heddlu ar drais yn y cartref, treisio a throseddau rhywiol.

**Atodiad 2 Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder** **B9–B12**

Mae Atodiad 2 yn cyflwyno data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ynghylch stelcio, aflonyddu, gorchmynion atal ac Ystadegau Cenedlaethol am Dreisio er mwyn rhoi data'r GEG mewn cyd-destun.

**Geirfa** **B13–B22**

Mae'r Eirfa'n rhoi diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r acronymau.

# Rhagair gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Yn 2017-18, adeiladom ar y cynnydd a wnaethpwyd gennym wrth fynd i'r afael â throseddau trais yn erbyn menywod a merched (VAWG), yn ogystal â'r rhai hynny yn erbyn dynion a bechgyn, tra'n gwneud newidiadau lle bo angen. Rydym wedi rhoi mesurau newydd ar waith i fynd i'r afael â'r heriau arwyddocaol o erlyn y troseddau hyn, ac rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cyflawni cyfiawnder ym mhob achos. Rydym yn gweithio hyd yn oed yn agosach gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol, ein rhanddeiliaid a grwpiau dioddefwyr i wella ein hymateb i'r achosion hyn a sicrhau bod pawb yn derbyn gwasanaeth cydgysylltiedig ac effeithiol.

Mae'r cydweithio hyn o fudd mawr. Mae'r gostyngiad mewn atgyfeiriadau cam-drin domestig a oedd wedi dod i'r amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dod i ben, gydag atgyfeiriadau'n fwy neu lai'n gyson eleni. Gan ddefnyddio canllawiau 'datrys problemau' newydd, rydym wedi gweithio gyda'r heddlu i wella ymateb cyntaf yr heddlu ymhellach, sut rydym yn euogfarnu, y gefnogaeth i achwynwyr a sut y gellir defnyddio tystiolaeth, ac eithrio'r dystiolaeth a geir yn uniongyrchol gan yr achwynydd.

Mae'r gostyngiad mewn erlyniadau a chollfarnau cam-drin domestig a nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol hefyd wedi arafu ac mae bellach yn is na'r rhai ar draws achosion llys ynadon yn gyffredinol. Erbyn diwedd 2017-18 cafwyd cynnydd i dros dri o bob pedwar diffynnydd yn cael eu dyfarnu'n euog. Mae ein herlyniadau o ymddygiad rheoli neu orfodol hefyd wedi cynyddu deirgwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er mwyn gwella perfformiad ymhellach, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid ar draws y system gyfiawnder droseddol i ddatblygu fframwaith arfer da cam-drin domestig. Mae hyn yn adeiladu ar arbenigedd llysoedd arbenigol cam-drin domestig a chynlluniau peilot llwyddiannus, a bydd yn cyflawni canlyniadau a chefnogaeth hyd yn oed yn well i ddioddefwyr wrth iddo gael ei gyflwyno'n genedlaethol eleni.

Yn dilyn ymgynghori â grwpiau dioddefwyr, datblygodd yr heddlu a'r GEG brotocol stelcio neu aflonyddu a rhestr wirio ar y cyd a bydd pob erlynydd yn cael eu hyfforddi ar hyn. Yn 2017-18 cafwyd cynnydd o ddwy ran o dair mewn erlyniadau sy'n dechrau o dan y troseddau stelcio newydd. Roedd tri chwarter o'r rhain yn gysylltiedig â cham-drin domestig. Rydym hefyd wedi erlyn mwy o doriadau o orchmynion atal.

Roedd gostyngiad yng nghyfanswm yr achosion y deliwyd â hwy ar draws y GEG yn 2017–18, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac ar yr un pryd roedd mwy o'n hachosion yn fwyfwy cymhleth. Roedd y patrwm hwn hefyd wedi'i adlewyrchu mewn achosion VAWG lle gwelom ostyngiadau yn y nifer o erlyniadau ac euogfarnau.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos cymhlethdod treisio a throseddau rhywiol difrifol (RASSO), rydym bellach yn delio â hwy. Mae hyn yn cynnwys achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc, cam-drin o fewn sefydliadau neu gan bobl mewn awdurdod, a cham-drin na ddigwyddodd yn ddiweddar, yn ogystal â sawl un â heriau datgelu cymhleth gan gynnwys effaith y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y

flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu a gweithredu Cynllun Gwella Datgelu Cenedlaethol Ar y Cyd gyda'r heddlu i wella ein perfformiad mewn datgelu ymhob achos. Roeddem hefyd wedi adolygu pob achos o dreisio yn gynnar yn 2018, gan weithredu lle bo angen, ac wedi datblygu canllaw newydd i fynd i'r afael â materion a nodwyd gennym a sicrhau dull cyson a thegwch i achwynwyr a'r rhai o dan amheuaeth. Roeddem hefyd wedi darparu hyfforddiant pellach yn ystod 2017–18 i gefnogi ein herlynwyr i ddelio â'r achosion anodd hyn. Rydym yn cydnabod effaith natur newidiol digwyddiadau profiadau rhywiol, yn arbennig y rhai hynny sy'n gysylltiedig â defnyddio technoleg fodern, ar gasglu tystiolaeth ac rydym yn cynllunio ymgysylltu â phobl ifanc ac arbenigwyr ieuenctid i wella ein herlyniadau ymhellach yn 2018–19.

Yr hydref diwethaf, gwnaethom ddiweddaru strategaeth VAWG y GEG ar gyfer 2017–20 a chyhoeddi datganiad cyhoeddus ar gefnogaeth GEG ar gyfer dioddefwyr gwryw troseddau a nodir fel troseddu 'VAWG', fel rhan o'n dull strategol cyffredinol i sicrhau cyfiawnder i bawb. Yn 2018, gwnaethom gynnal fforwm gyda grwpiau sy'n gweithio gyda dioddefwyr gwryw i asesu ein cynnydd a'n nod yw diweddaru ein harweiniad a hyfforddiant cyfreithiol i helpu i herio mythau a stereoteipiau.

Fy adroddiad olaf fel Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus yw'r adroddiad troseddau VAWG hwn, rydym yn ei gyhoeddi bob blwyddyn i gynorthwyo gwella effeithiolrwydd ein herlyniadau. Rwy'n falch o'r gwaith a wneir gan ein tîm pencadlys ymroddedig, cydlynwyr VAWG Ardal a staff y GEG sy'n delio â'r achosion hyn. Rhaid cymeradwyo eu hymrwymiad i wella'n barhaus y modd rydym yn gweithio, a sicrhau bod ein gwaith achos o'r ansawdd orau.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r sefydliadau sydd wedi cefnogi ein paneli craffu lleol a'r rhanddeiliaid yn ein Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG sydd wedi parhau i roi eu cefnogaeth genedlaethol a chyngor arbenigol yn ystod 2017–18, gan gynnwys cyfrannu at ddatblygu ein Strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

Mae mwy i'w wneud yn y flwyddyn sydd i ddod. Rwy'n siŵr y bydd fy olynydd yn parhau i adeiladu ar ein cyflawniadau, yn gweithredu newidiadau o'r gwersi rydym wedi eu dysgu, ac yn gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau cyfiawnder i bawb yn y troseddau hyn.



**Alison Saunders CB**
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus
Medi 2018

# Adroddiad trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Yr adroddiad Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG) ar gyfer 2017–18 yw'r unfed ar ddeg cyhoeddiad a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Mae'n ddadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ymhob maes o Drais yn erbyn Menywod a Merched – cam-drin domestig (DA), stelcio, aflonyddu, treisio, [1] troseddau rhywiol, priodas dan orfod (FM), trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir (HBV), anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM), cam-drin plant, masnachu pobl i gamfanteisio arnynt yn rhywiol, puteindra a phornograffi. Parhaodd gwaith VAWG i fod yn flaenoriaeth allweddol o fewn cynlluniau busnes Cenedlaethol ac Ardal y GEG yn 2017-18.

Mae strategaeth VAWG y GEG ar gyfer 2017-2020 yn rhan o fframwaith strategol traws-lywodraethol gyffredinol VAWG, yn seiliedig ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r DU wedi'u llofnodi a'u cadarnhau. Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o berfformiad erlyn ynghylch troseddau sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd 'VAWG', gan eu bod wedi'u dynodi fel rhai sydd wedi'u cyflawni'n bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod o fewn patrwm o orfodi, pŵer a/neu reolaeth. Fodd bynnag, gall y troseddau hyn hefyd gael eu targedu at ddynion a bechgyn ac mae ymrwymiadau i ddioddefwyr gwrywaidd wedi cael eu monitro yn 2017–18 trwy fforwm ar gyfer sefydliadau sy'n gweithio gyda'r dioddefwyr hyn, yn dilyn y cyhoeddiad datganiad cyhoeddus ynghylch ein dull gweithredu a chefnogaeth ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd yn 2017. Mae'r adroddiad data VAWG cysylltiedig yn cynnwys *yr holl ddata ynghylch pob troseddwr a dioddefwr, waeth beth fo'u rhyw.* Mae'n amlinellu gwybodaeth bellach ar rhyw, lle bo ar gael, ac yn egluro'r dull VAWG cyffredinol.[2]

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiant ac Ymgysylltu â'r Gymuned, a oedd yn nodi sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau yn ein gwaith, yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a sut y byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn o fewn VAWG. Rydym wedi ymrwymo y byddwn yn ymgysylltu â chymunedau'n lleol trwy Baneli Craffu a Chynhwysiant Lleol VAWG ac yn genedlaethol trwy Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu data allweddol, sylwebaeth ac astudiaethau achos mewn adrannau ar wahân ar gyfer pob un o elfennau VAWG. Mae'r GEG yn casglu data at ddibenion rheoli achosion er mwyn cynorthwyo i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Nid yw'r GEG yn casglu data sy'n cyfateb i ystadegau swyddogol fel y'i diffinnir yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.[3]

**Noder bod manylion a dadansoddiad y data yn cael eu darparu yn adran nesaf yr adroddiad hwn, adroddiad data VAWG. Mae'r adroddiad data hwn hefyd yn rhoi manylion pellach ar weithgarwch y GEG a'r camau nesaf.**

---

[1] Defnyddir fflag 'treisio' mewn ffeiliau GEG pan fydd achos yn dechrau, yn dilyn honiad cychwynnol o dreisio. Bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os penderfynir i gyhuddo trosedd nad yw'n dreisio neu lle y diwygir cyhuddiad o dreisio yn yn ddiweddarach, i sicrhau bod egwyddorion y polisi treisio a throsedd rywiol yn cael eu defnyddio.

[2] Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canlyniadau trwy ddiffynnydd ac ni all roi gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr neu droseddau. I'r perwyl hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân ar gyfer canlyniad achosion a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; ac nid yw ychwaith yn bosibl cyfatebu rhyw'r diffynnydd â rhyw'r dioddefwr.

[3] Cedwir yr ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throsedd a phlismona gan y Swyddfa Gartref a chedwir yr ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion yn y llys troseddol, troseddwyr yn y llys, y llysoedd a'r farnwriaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Is-set VAWG

Mae 'is-set VAWG' yn grwpio DA, treisio a throseddau rhywiol yn benodol gyda'i gilydd. Cydnabyddir y bydd rhywfaint o orgyffwrdd o ddata wedi'u dynodi[4] ar gyfer DA, treisio a throseddau rhywiol, ond nid yw hyn yn sylweddol o ran maint. Mae'r is-set yn crynhoi perfformiad ar draws y nifer mwyaf o droseddau VAWG, i roi gwybodaeth am berfformiad VAWG eang ar draws y sefydliad ac fel rhan o strategaeth traws-lywodraethol VAWG.

Mae erlyniadau DA, treisio[5] a throseddau rhywiol bellach yn cyfrif am un o bob pump o gyfanswm llwyth gwaith y GEG. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif yr erlyniadau o droseddau sydd wedi'u grwpio o dan VAWG, ar gyfer dibenion rheoli perfformiad, yn DA 84.4%, treisio'n 4.3% a throseddau rhywiol, ac eithrio treisio, yn 11.4%.

Yn 2017–18, gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau 'VAWG'[6] gan yr heddlu o 117,444 yn 2016-17 i 116,574 – ychydig o ostyngiad o 870 o atgyfeiriadau (0.7%). Gostyngodd nifer y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd i 3.1%.[7] [8]

Gostyngodd nifer yr euogfarnau troseddol 'VAWG' a gyflawnwyd[9] o 112,270 yn 2016-17 i 105,613 – gostyngiad o 6,657 o ddiffynyddion (5.9%).[10]

Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 84,565 yn 2016–17 i 80,387 – gostyngiad o 4,178 o euogfarnau (4.9%). Cynyddodd y gyfradd euogfarn o 75.3% i 76.1%.

Ceir gwybodaeth bellach am faterion VAWG a dadansoddiad manwl o ddata yn yr adroddiad data tudalennau A1–A10

[4] Nodir data amddiffynnydd yn system ddata'r GEG ar gyfer cam-drin domestig a threisio.
[5] Gweler troednodyn 1.
[6] Nid yw cofnodion y GEG yn cynnwys manylion penderfyniadau cyn-cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) ac felly ni allant ddarparu data ynghylch atgyfeiriadau gan yr heddlu. Mae atgyfeiriadau heddlu 'VAWG' yn y maes hwn yn cynnwys DA a threisio'n unig.
[7] Pan fydd erlynwyr yn derbyn atgyfeiriadau gan yr heddlu, gallent naill ai gyhuddo, rhoi gwarediad y tu allan i'r llys neu benderfynu peidio â chyhuddo. Yn ogystal, bydd rhai achosion yn cael eu terfynu'n weinyddol a bydd rhai penderfyniadau gweinyddol 'eraill'.
[8] Yn 2017–18, roedd cynnydd mewn atgyfeiriadau a oedd 'wedi'u terfynu'n weinyddol' o gymharu a'r flwyddyn flaenorol (8.1% o atgyfeiriadau o'u cymharu â 4.6% yn y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am nifer o resymau Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle bydd yr heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil lawn oherwydd rhesymau cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' gan na fu unrhyw benderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Roedd y cynnydd yn y nifer o achosion wedi'u 'terfynu'n weinyddol' yn 2017–18 wedi effeithio ar gyfran y diffynwyr a gyhuddwyd (y 'gyfradd cyhuddo').
[9] Mae niferoedd y diffynyddion a gyhuddwyd yn egluro'r achosion hynny, yn ôl y rhai a amheuir, a anfonwyd ymlaen i'r GEG yn ystod 2017-18 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo ac nid yw'n bosibl eu cymharu'n uniongyrchol mewn niferoedd gyda'r rhai hynny a erlynir sy'n egluro achosion, yn ôl diffynnydd, a gwblhawyd yn ystod 2017–18.
[10] Nododd Adroddiad Blynyddol 2017-2018 y GEG ostyngiad o 10% yn y nifer cyffredinol o achosion a erlynwyd yn 2017–18 o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd mwy o'r achosion yn fwyfwy cymhleth: 'Adlewyrchir hyn yn y twf anferth mewn tystiolaeth ddigidol ac yn achos troseddau rhywiol, yn aml iawn dibynnir yn drwm ar ddioddefwyr a thystion agored i niwed. Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau ychwanegol sylweddol ar gyfer rheoli achosion a chwrdd â chyfrifoldebau datgeliad.'

# Cam-drin domestig

Yn 2017-18 roedd y GEG yn cymryd rhan mewn cynigion ar gyfer deddfwriaeth cam-drin domestig yn y dyfodol a datblygu mesurau anneddfwriaethol ar draws y llywodraeth. Cynhaliwyd ymgynghoriad yn gynnar yn 2018–19 sy'n cael ei ystyried ar draws adrannau'r llywodraeth.

Dechreuodd y gostyngiad mewn atgyfeiriadau amlygedig DA gan yr heddlu, a nodwyd mewn blynyddoedd blaenorol, sefydlogi yn ystod y flwyddyn, yn dilyn gwaith gyda'r heddlu ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS). Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi Canllaw 'Datrys Problemau' ar gyfer heddlu rheng flaen ac erlynwyr.

Hyfforddwyd yr holl erlynwyr mewn dau fodiwl e-ddysgu gorfodol newydd am DA yn ystod 2017-18 ynghylch erlyniadau a arweinir gan dystiolaeth ac ymddygiad rheoli neu orfodol; a rhannwyd nodyn atgoffa ar sail y modiwlau e-ddysgu hyn gyda'r heddlu.

**Targedu dioddefwyr sy'n agored i niwed**

Roedd dioddefwraig agored i niwed wedi dioddef hanes hir o gam-drin domestig, gan gynnwys treisiau lluosog gan ei phartner. Roedd hi'n flaenorol wedi tynnu ei datganiadau'n ôl a oedd yn rhoi manylion ynghylch y gamdriniaeth oherwydd bod ei phartner yn ei bygwth a'i brawychu. Sicrhawyd ei hymddiriedaeth yn yr heddlu a'r GEG yn y pen draw a rhoddodd ddatganiad llawn, a arweiniodd at y diffynnydd yn cael ei erlyn. O achos ei datganiad, nodwyd cwynion eraill nad oeddent yn ddiweddar gan bartneriaid blaenorol y diffynnydd a daeth tair dioddefwraig ymlaen i roi tystiolaeth. Roedd pob un o'r dioddefwragedd yn arbennig o agored i niwed gyda hanes o broblemau iechyd meddwl ac yn gaeth i sylweddau. Roeddent wedi'u targedu gan y diffynnydd oherwydd eu bod yn agored i niwed. Ymdriniwyd â materion datgelu cymhleth yn llawn a darparwyd mesurau arbennig pwrpasol ar gyfer y tair dioddefwraig i'w helpu i roi tystiolaeth. Dedfrydwyd y diffynnydd i 20 mlynedd.

Gweithiodd y GEG ar draws y System Cyfiawnder Troseddol (CJS) yn y prosiect 'Deep Dive', gan brofi arfer gorau i'w ddefnyddio ar draws pob system llys ynadon. Mae'r fframwaith arfer gorau terfynol, sy'n amlinellu pedair cydran, wedi'i gymeradwyo i'w gyflwyno'n genedlaethol yn 2018-19.

**Erlyniadau heb fod gofyn i'r dioddefwyr fod yn bresennol**

Mewn achos cam-drin domestig tynnodd y ddioddefwraig ei chwyn yn ôl a diflannodd. Daethpwyd o hyd iddi yn y pen draw mewn ysbyty seiciatrig. Derbyniwyd cais i ganiatáu i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno o dan ddarpariaethau res gestae fel nad oedd rhaid i'r ddioddefwraig roi tystiolaeth lafar yn y llys. Yna penderfynodd y diffynnydd bledio'n euog ac fe'i dedfrydwyd i 10 wythnos yn y ddalfa, wedi'i ohirio am 12 mis, gyda gorchymyn atal am 3 blynedd.

Mewn achos arall ymosodwyd ar y dioddefwr a defnyddiwyd y dystiolaeth, a gasglwyd gan yr heddlu a aeth i'r digwyddiad, yn y treial i farnu'r diffynnydd yn euog o guro a difrod troseddol. Defnyddiwyd trawsgrifiad yr alwad 999, ffotograffau o anafiadau'r dioddefwr a'r ffilm fideo o'r fideo a wisgwyd ar gorff yr heddlu yn ogystal â thystiolaeth cymeriad drwg. Dedfrydwyd y diffynnydd i ddedfryd o 14 wythnos yn y ddalfa.

- Yn 2017–18, parhaodd y nifer o atgyfeiriadau DA a amlygwyd gan yr heddlu'n gyson yn 110,562 o'u cymharu ag 110,833 yn 2016–17 – gydag ychydig o ostyngiad o 271 o atgyfeiriadau (0.2%). Gostyngodd y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd i 2.1%.[11]

- Gostyngodd y nifer o erlyniadau DA a amlygwyd o 93,590 yn 2016–17 i 89,091 – gostyngiad o 4,499 o ddiffynyddion(4.8%).[12]

- Gostyngodd y nifer o euogfarnau o 70,853 yn 2016–17 i 68,098 – gostyngiad o 2,755 o euogfarnau (3.9%). Cynyddodd y gyfradd euogfarn o 75.7% i 76.4%, y gyfradd uchaf erioed a gofnodwyd. Cynyddodd euogfarnau ar ôl treial[13] 1.8 pwynt canran (ppt) i 54.8%.

- Yn 2017–18, cyhuddwyd 960 o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli neu orfodol o fod yn euog a chyrraedd gwrandawiad cyntaf; cynnydd o 309 yn 2016–17.

**Mae'r achosion canlynol yn enghreifftiau o'r achosion rydym nawr yn eu herlyn o dan y drosedd ymddygiad Rheoli neu Orfodol.**

Dyfarnwyd dyn yn euog o ymddygiad ymosodol ac ystrywgar tuag at ei bartner a oedd yn feichiog. Roedd yr achos hwn yn un pwysig o erlyn ymddygiad rheoli neu orfodol oherwydd aethom yn ein Blaenau heb fod angen datganiad gan y ddioddefwraig neu ran gan y ddioddefwraig agored i niwed ac o dan fygythiad. Roedd y diffynnydd wedi dylanwadu ar y ddioddefwraig i adael ei llety â chefnogaeth a'i gorfodi i fyw ar y strydoedd. Cadwodd ei cherdyn banc, gwariodd ei budd-daliadau a'i gorfodi i ddwyn o siopau. Hysbysodd gweithwyr proffesiynol gan gynnwys ei bydwraig yr heddlu a chyflwynwyd eu tystiolaeth yn y llys. Sicrhawyd yr euogfarn trwy dystiolaeth ail law yn unig a derbyniodd y diffynnydd ddedfryd carchar 18 mis.

Mewn achos arall dedfrydwyd y diffynnydd i 27 mis yn y carchar am gam-drin ei bartner beichiog yn feddyliol ac yn gorfforol. Yn ogystal â cham-drin y ddioddefwraig yn gorfforol, monitrodd ei ffôn symudol a'i chyfryngau cymdeithasol, a chreodd broffil ffug ohoni ar safle partner heb iddi wybod. Rheolodd y rhan fwyaf o agweddau ei bywyd gan gynnwys pwy roedd hi'n siarad â nhw neu roedd hi'n eu gweld.

Mewn achos arall dedfrydwyd diffynnydd i saith mlynedd a hanner ar ôl pledio'n euog i achosi niwed corfforol difrifol gyda bwriad, anafu gyda bwriad ac ymddygiad rheoli neu orfodol. Cyfaddefodd iddi losgi ei chariad gyda dŵr berw, ei drywanu a chadw bwyd rhagddo. Yn ogystal â'r cam-drin corfforol, roedd hi'n penderfynu pa ddillad roedd yn gallu eu gwisgo, yn ei ynysu rhag eu ffrindiau a'i deulu a rheolodd ei gyfrif Facebook.

Dolen i adran DA yr adroddiad data tudalennau A11–A19 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

---

[11] Yn 2017–18 roedd cynnydd mewn atgyfeiriadau a oedd wedi'u 'terfynu'n weinyddol' o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (7.3% o atgyfeiriadau o'u cymharu â 4.2% yn y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am nifer o resymau. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle nad yw'r heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil lawn oherwydd penderfyniad cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' gan na fu unrhyw benderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Roedd y cynnydd yn y nifer o achosion wedi'u 'terfynu'n weinyddol' yn 2017–18 wedi effeithio ar gyfran i ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd cyhuddo').

[12] Mae mwyafrif yr achosion DA yn dod i ben o fewn y llys ynadon. Yn 2017–18 cafwyd gostyngiad mewn erlyniadau llys ynadon o of 9.4% a gostyngiad o 9.3% mewn euogfarnau. O'u cymharu gostyngodd erlyniadau DA 4.8% ac euogfarnau 3.9%.

[13] Mae'r diffiniadau o 'gyfradd euogfarn' ac 'euogfarnau ar ôl treial' yn yr eirfa.

## Stelcio neu aflonyddu[14]

Yn 2017–18 datblygodd yr heddlu a'r GEG brotocol stelcio neu aflonyddu a rhestr wirio ar y cyd, yn dilyn ymgynghori â grwpiau dioddefwyr a bydd pob erlynydd yn derbyn hyfforddiant yn ystod 2018. Yn 2018–19 bydd perfformiad yn cael ei fonitro i asesu cydymffurfio â'r protocol a'r rhestr wirio yn ogystal ag effeithiolrwydd yr hyfforddiant.

Nododd data perfformiad 2017–18 y GEG effaith gadarnhaol ynghylch gwaith yr heddlu/GEG ar y cyd i erlyn mwy o achosion stelcio yn hytrach nag aflonyddu, lle bo'n briodol. Cafwyd cynnydd arwyddocaol mewn erlyniadau a gychwynnwyd oherwydd troseddau stelcio a thorri gorchmynion atal. Roedd cynnydd hefyd yn y ganran o droseddau a ddigwyddodd mewn cyd-destun DA.

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 11,922 o droseddau stelcio ac aflonyddu yn 2017–18; gan aros yn gyson gyda chynnydd o 33 o droseddau (0.3%) o 2016–17 pan gychwynnwyd 11,889 o erlyniadau. Roedd 73.3% yn gysylltiedig â DA, cynnydd o 71.0% yn 2016–17.

- Cychwynnwyd 1,616 o erlyniadau o dan y troseddau stelcio mwy diweddar (cynnydd o 68.5% o 959 yn 2016–17) a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. O'r rhain roedd 73.1% yn gysylltiedig â DA, cynnydd o 64.8% yn 2016–17.

- Cychwynnwyd 17,012 o erlyniadau ar gyfer troseddau torri gorchmynion atal, cynnydd o 2.4% o 16,614 yn 2016–17. Roedd 87.2% o'r rhain yn gysylltiedig â DA, cynnydd o 86.2% yn y flwyddyn flaenorol.


- Cychwynnodd torri 6,266 o orchmynion peidio ag ymyrryd erlyniad, o gymharu â 6,505 yn y flwyddyn flaenorol, gostyngiad o 3.7%. Roedd 95.0% o'r rhain yn gysylltiedig â DA, cynnydd o 94.8% yn 2016–17.

**Achosion stelcio a'r cyfryngau cymdeithasol**

Mewn un achos carcharwyd dyn am 30 mis am stelcio a oedd yn cynnwys ofni trais ac anfon negeseuon mwyaf bygythiol at sawl dioddefwr. Creodd y diffynnydd 17 o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ffug a ddefnyddiodd i anfon negeseuon treisgar iawn a rhywiol at 11 o fenywod. Rhoddwyd gorchymyn atal 10 mlynedd iddo hefyd.

Mewn achos arall dedfrydwyd menyw i naw mis yn y carchar am stelcio ei chyn-bartner, pedwar mis am ddynwared swyddog yr heddlu a rhoddwyd gorchymyn atal amhenodol iddi. Creodd gyfrif e-bost ffug yr heddlu a chysylltodd â'r dioddefwr gwrywaidd gan esgus bod yn swyddog ac yn uwch swyddog yr heddlu a oedd yn ymchwilio. Creodd gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ac e-bost ffug ar gyfer 'tystion' eraill ac fe'u defnyddiodd i gyd i ddylanwadu ar y dioddefwr i wneud yr hyn roedd hi'n ei ddymuno o dan fygythiad 'sancsiynau' ariannol a chymdeithasol, gan y swyddogion ffug.

[14] Mae data stelcio ac aflonyddu'r GEG ar gael yn unig gan y system data seiliedig ar droseddau ac felly ni allant gynnwys data ynghylch atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddiadau, canlyniadau a dioddefwyr.




Dolen i adran Stelcio neu Aflonyddu'r adroddiad data tudalennau A20–A24 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Atodiad 2 tudalennau B9–B10

## Treisio[15]

### Data'r GEG a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi'u hesbonio

Mae mesur euogfarnau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (WG) a'r GEG yn wahanol ac yn cael eu defnyddio at wahanol ddibenion. Mae'r WG yn darparu'r Ystadegau Gwladol[16] ar dreisio tra bod data'r GEG yn cael eu casglu'n bennaf at ddibenion rheoli achosion er mwyn sicrhau bod egwyddorion y polisi treisio a throseddu rhywiol yn cael eu hystyried trwy gydol pob achos perthnasol. Dylid nodi bod gwahaniaethau pwysig o ran sut mae troseddau treisio yn cael eu cofnodi rhwng y gwahanol systemau data.

Mae'r WG yn ystyried euogfarn o dreisio lle mae'r euogfarn derfynol yn benodol am dreisio yn unig. Byddai achos a ddechreuodd fel achos o dreisio'n wreiddiol ond a gafodd ei gyhuddo yn y pen draw fel trosedd arall (fel ymosodiad rhywiol llai difrifol) yn cyfrif fel trosedd lai difrifol.

I'r gwrthwyneb, mae data'r GEG ynghylch euogfarnau treisio'n cynnwys yr holl euogfarnau lle dynodwyd yr achos yn y lle cyntaf fel achos o dreisio, waeth beth oedd canlyniad y cyhuddiad terfynol. Bydd yr achos o dreisio a amlygwyd yn parhau, hyd yn oed os gwneir y penderfyniad i gyhuddo unigolyn am drosedd heblaw am dreisio neu lle caiff cyhuddiad o dreisio ei ddiwygio'n ddiweddarach, er mwyn sicrhau bod egwyddorion y polisi treisio a throsedd rhywiol wedi'u rhoi ar waith.

---

[15] Mae llawer o ddioddefwyr troseddau rhywiol, gan gynnwys treisio, yn blant ac felly'n cael eu nodi fel achosion o gam-drin plant – felly mae data ar dreisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol yn gorgyffwrdd.

[16] Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throsedd a phlismona'n cael eu cadw gan y Swyddfa Gartref ac mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â dedfrydu, achosion yn y llys troseddol, troseddwyr sy'n dod i'r llys, y llysoedd a'r farnwriaeth yn cael eu cadw gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae'r gwahaniaeth hwn mewn cofnodi'n arwain at y GEG yn cofnodi nifer fwy o lawer o erlyniadau ac euogfarnau am dreisio na'r WG. Yn ogystal, cyflwynir Ystadegau Cenedlaethol y WG ar sail blwyddyn galendr. Mae dull y GEG o gofnodi wedi'i ddefnyddio'n gyson yn adroddiad blynyddol VAWG. Ceir manylion pellach mewn perthynas â data'r WG a'r gwahaniaethau rhwng y setiau data yn Atodiad 2.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o ddata'r WG[17] ynghyd â'r GEG, i amlygu'r gwahaniaethau mewn niferoedd.

| Disgrifiadau a ddefnyddir gan y WG | Ystadegau a gyhoeddir | Disgrifiadau a ddefnyddir gan y GEG | Ystadegau a gyhoeddir |
|---|---|---|---|
| Diffynyddion lle mai'r brif drosedd a erlynwyd oedd achos o dreisio: | WG: 2017 (blwyddyn galendr) | Mae'r GEG yn nodi pob honiad o dreisio (mae hyn yn cyfrif am y niferoedd uwch): | GEG: 2017–18 (blwyddyn ariannol) |
| Dwyn achos yn erbyn | 3,141 | Erlyniadau a gwblhawyd | 4,517 |
| Cafwyd yn euog o dreisio | 1,127 | Cafwyd yn euog am dreisio, trosedd wahanol neu lai difrifol | 2,635 |

## Agweddau allweddol GEG

Yn 2017–18 cynhaliwyd gweithdai mewn Ardaloedd i gefnogi erlyniadau effeithiol sy'n cydymffurfio â Chodau[18] RASSO a chynhaliwyd paneli rheoli achosion cyn cyhuddo yn yr achosion mwyaf heriol. Hyfforddwyd erlynwyr RASSO i ddelio â thystion agored i niwed ac achosion ieuenctid RASSO. Cyflwynwyd hyfforddiant gloywi i eiriolwyr allanol RASSO.

Ym mis Ionawr 2018, cynhaliwyd adolygiad o holl achosion cyfredol RASSO ar ôl i bryderon gael eu mynegi ynghylch datgelu[19], er mwyn sicrhau bod yr heddlu wedi dilyn pob llinell ymholiad a bod strategaeth achos glir ynghylch datgelu. Cyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Mehefin 2018 a bydd camau gweithredu yn cael eu rhoi ar waith yn 2018–19. Cyhoeddwyd *A guide to reasonable lines of enquiry and communications evidence* ar gyfer erlynwyr yn haf 2018. Datblygir 'pecyn cymorth cyfryngau digidol' i gynorthwyo erlynwyr i ddeall y dechnoleg a ddefnyddir i dynnu a dadansoddi deunydd o ddyfeisiau digidol, er mwyn helpu i sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd. Ynghyd â'r heddlu, ac yn seiliedig ar drafodaethau gyda grwpiau dioddefwyr a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rydym hefyd yn datblygu arweiniad ar gael caniatâd ystyrlon gan achwynwyr a thystion i ddatgelu eu data personol.
Cyhoeddwyd dogfen ffeithiau allweddol ynghylch erlyniadau treisio i egluro'r modd mae GEG yn delio ag achosion o dreisio a dileu mythau eraill.

[17] Mae ffigurau'r WG yn gysylltiedig â diffynyddion y mae'r troseddau hyn yn brif droseddau iddynt a cafodd eu delio â hwy.
[18] Mae'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron yn nodi'r egwyddorion cyffredinol y dylai Erlynwyr y Goron eu dilyn pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynghylch achosion.
[19] Mae datgelu'n cyfeirio at ddarparu copïau i'r amddiffyniad, neu fynediad at unrhyw ddeunydd erlyn, y gellid ei ystyried yn rhesymol o allu tanseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo'r achos dros y sawl a gyhuddir. Mae'n rhan hanfodol o dreial teg.

Gan gydnabod bod rhai o'r achosion mwyaf cymhleth yn ymwneud â phobl ifanc sy'n gyfarwydd â'i gilydd, cynllunnir Panel Ieuenctid ar gyfer 2018–19 i hysbysu ffyrdd o wella erlyniadau sy'n mynd i'r afael â natur newidiol ymddygiadau a digwyddiadau profiadau rhywiol. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â defnyddio technoleg, er enghraifft, apiau ar gyfer cariadon a chyfryngau cymdeithasol, a'r effaith y mae'r rhain yn cael ar achosion.

**Gorfodi a rheoli mewn achos o dreisio**

Dyfarnwyd dyn ifanc yn euog o dreisio ac ymddygiad rheoli neu orfodol o'i gariad 16 oed. Arweiniodd datgeliad cynnar o dystiolaeth gyfathrebu, gan gynnwys miloedd o dudalennau o negeseuon cyfryngau cymdeithasol, at y diffynnydd yn pledio'n euog i'r drosedd o reoli neu orfodi. Cynhaliwyd treial ar gyfer y drosedd o dreisio – rhoddodd y ddioddefwraig ei thystiolaeth trwy gyswllt fideo ar ôl cyfarfod cyn y treial gyda'r Cwnsler a roddodd gefnogaeth a sicrwydd iddi. Dedfrydwyd y diffynnydd i gyfanswm o bedair blynedd a hanner yn y carchar ac yn amodol ar orchymyn atal am 10 mlynedd.

## Data a amlygwyd gan GEG

- Yn 2017–18, gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau o dreisio a amlygwyd gan yr heddlu[20] o 6,611 yn 2016–17 i 6,012 – gostyngiad o 599 o atgyfeiriadau (9.1%). Nid yw'r WG yn cadw data ynghylch atgyfeiriadau gan yr heddlu.

- Yn 2017–18, gostyngodd nifer y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd gan GEG o 3,671 yn 2016–17 i 2,822 – gostyngiad o 849 o bobl a amheuwyd (23.1%). Gostyngodd y gyfran o'r rhai a gyhuddwyd o 55.5% yn 2016–17 i 46.9% – gostyngiad o 8.6 pwynt canran. Yn 2017-18 cynyddodd y gostyngiad yn y gyfradd o'r rhai a gyhuddwyd gan nifer yr atgyfeiriadau achos a oedd yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' (21.7% o atgyfeiriadau o'u cymharu ag 11.5% yn 2016-17).[21]

- Gostyngodd yr erlyniadau treisio a amlygwyd wedi'u cwblhau o 5,190 yn 2016–17 i 4,517 – gostyngiad o 673 o erlyniadau (13.0%).[22] Cyflawnwyd 43.8% o erlyniadau treisio a amlygwyd yn 2017–18 yn erbyn plant. Noder, nododd data'r WG y daethpwyd ag achos yn erbyn 3,141 o ddiffynyddion am brif drosedd o dreisio yn 2017.

---

[20] Pan fydd yr heddlu'n atgyfeirio achosion, fe'u dynodir fel 'achos o dreisio' yn system ddata CMS y GEG.

[21] Yn 2017–18 roedd cynnydd mewn atgyfeiriadau wedi'u 'terfynu'n weinyddol' o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (21.7% o atgyfeiriadau o'u cymharu ag 11.5% y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am nifer o resymau. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle bydd yr heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil lawn ar gyfer penderfyniad cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' gan na fu unrhyw benderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Mae cyflwyno proses EIA ar gyfer achosion RASSO er mwyn cynorthwyo'r heddlu ar gam cynharach, fel y gwnawn mewn achosion cymhleth eraill, megis twyll, terfysgaeth a throseddau a drefnir. Roedd y cynnydd yn y nifer o achosion wedi'u 'terfynu'n weinyddol' yn 2017 wedi effeithio ar gyfran y diffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd cyhuddo').

[22]Roedd gostyngiad cyffredinol yn 2017–18 mewn erlyniadau gan Lys y Goron o 9.2% a gostyngiad o 8.0% mewn euogfarnau. I gymharu, gostyngodd erlyniadau treisio 13.0% ac euogfarnau 11.9%. Nododd Adroddiad Blynyddol y GEG 2017–18 y gostyngiad yn y nifer cyffredinol o achosion a erlynwyd yn 2017–18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond cydnabu bod mwy o'r achosion yn fwyfwy cymhleth: roedd 'twf aruthrol mewn tystiolaeth ddigidol ac yn achos troseddau rhywiol dibynnwyd yn drwm ar ddioddefwyr a thystion agored i niwed. Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau ychwanegol sylweddol ar gyfer rheoli achosion a bodloni cyfrifoldebau datgeliad'.

- Mae'r data ar oed achwynwyr mewn achosion o drais a amlygwyd yn dangos bod 52.8% o achwynwyr, gydag oedran a gofnodwyd, o dan 24 oed – 28.1% ohonynt o dan 18 oed. Roedd 27.9% o ddiffynyddion, gydag oedran a gofnodwyd, o dan 24 oed – 6.9% ohonynt o dan 18 oed.

- Gostyngodd achosion treisio a amlygwyd o 2,991 yn 2016–17 i 2,635 yn 2017–18 – gostyngiad o 356 o euogfarnau (11.9%). Cododd cyfradd euogfarn GEG ychydig i 58.3% yn 2017–18, o'i chymharu â 57.6% yn 2016– 17; cododd euogfarnau ar ôl treial 3.0 pwynt i 49.3%. Nododd data gan WG fod 1,127 o droseddwyr wedi'u dyfarnu'n euog yn benodol am droseddau o dreisio yn 2017 .[23] [24]

- O ddata'r 2017–18, erlynwyd 4,328 (98.0%) o achosion a gafodd eu hamlygu yn y lle cyntaf fel achosion o dreisio o'r diwedd am brif gategorïau'r drosedd o 'droseddau rhywiol, gan gynnwys treisio' neu'r brif droseddau mwy difrifol eraill[25] o 'ddynladdiad' neu 'droseddau yn erbyn yr unigolyn'. O'r rhain, roedd 3,598 ar gyfer troseddau rhywiol gan gynnwys treisio; pump ar gyfer dynladdiad a 725 am droseddau yn erbyn yr unigolyn. Mae 'Troseddau yn erbyn y person' yn gategori eang ac mae'n cynnwys troseddau difrifol iawn fel Niwed Corfforol Difrifol gyda bwriad hyd at droseddau llai megis ymosodiad cyffredin.

**Achosion o roi caniatâd**

Dyfarnwyd dyn yn euog o dresmasu, gyda'r bwriad o gyflawni trosedd rhywiol, a threisio myfyriwr ac ymosod yn rhywiol ar un arall tra eu bod yn cysgu yn eu neuaddau preswyl preifat. Honnodd y diffynnydd yn y treial bod y dioddefwyr wedi rhoi caniátad i weithgaredd rhywiol; fodd bynnag, canfuwyd nad oedd y dioddefwyr yn ei adnabod ac roeddent yn cysgu ar y pryd. Roedd yr erlyniad yn gallu profi bod y dioddefwyr yn cysgu a bod y diffynnydd yn ymwybodol o'r ffaith hon. Roedd hyn yn hollbwysig wrth sefydlu'r diffyg caniatâd yn yr achos hwn ac fe'i canfuwyd yn euog ac fe'i dedfrydwyd i 22 mlynedd.

---

[23] Cymhareb euogfarnu'r WG ar gyfer 2017 oedd 36%. Mae cymarebau euogfarnu'r WG yn cael eu cyfrifo fel y nifer o euogfarnau fel cyfran o nifer yr achosion. Mae hyn yn rhoi mesur o nifer cymharol y diffynyddion a geir yn euog o fewn blwyddyn benodol am drosedd benodol, o'u cymharu â'r nifer a erlynir y flwyddyn honno am yr un drosedd. Gan fod treialon yn gallu ymestyn dros fwy na blwyddyn, nid yw'r troseddwyr a gafodd euog yn y flwyddyn galendr bob amser yr un fath â diffynyddion a gafodd eu herlyn yn y flwyddyn honno. Yn ychwanegol, gellir canfod diffynyddion yn euog o drosedd wahanol i'r drosedd honno y cawsant eu herlyn amdani yn wreiddiol.

[24] Er mwyn rhoi cyd-destun i'r gwahaniaeth mewn cymarebau/cyfraddau euogfarn rhwng y WG a GEG, mae'n ddefnyddiol cymharu ffigurau GEG gyda dadansoddiad y WG o 2013, a asesodd gyfran y diffynyddion a erlynwyd am droseddau treisio yn 2009 yn y pen draw a gafodd eu heuogfarnu o unrhyw drosedd rhwng 2009 a 2011. Dangosodd y dadansoddiad hwn, o'r rhai a erlynwyd yn gyntaf am drais, bod 56% yn euog o unrhyw drosedd, gan gynnwys 33% a gafodd eu heuogfarnu am dreisio. Roedd y gyfran a oedd yn euog am unrhyw drosedd yn fwy tebyg i gyfraddau euogfarn GEG yn 2008-09, sef 57.7%; 2009-10 o 59.4% a 2010-11 o 58.6%.

[25] Categori prif drosedd y GEG: neilltuir prif droseddau i un o ddeuddeg categori troseddu i nodi'r math a difrifoldeb y cyhuddiadau yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn nodi'r drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd ar adeg cwblhau. Trefn 'difrifoldeb' y dair prif drosedd yw: dynladdiad; troseddau yn erbyn yr unigolyn; troseddau rhywiol. Mae hyn I alinio gyda dull y WG o flaenoriaethau'r categorïau troseddau.

Mewn achos cymhleth heriodd y diffynnydd y mater o ganiatâd, dyfarnwyd dyn o dreisio a chafodd ei ddedfrydu i wyth mlynedd yn y carchar a'i gofrestru ar y gofrestr troseddwyr rhywiol am byth. Roedd y diffynnydd yn yrrwr tacsi a rhoddodd lifft i ddioddefwr meddw iawn. Cafodd ei dychryn gan ei bod yn gwybod mai bwriad y diffynnydd oedd ei threisio. Roedd hi'n gwybod nad oedd hi'n gallu dianc rhag y sefyllfa felly gofynnodd i'r diffynnydd ddefnyddio condom. Defnyddiwyd y ffaith bod y diffynnydd wedi prynu condomau yn ei honiad bod y ddioddefwraig wedi rhoi ei chaniatâd; fodd bynnag, adeiladodd erlynwyr achos cryf i ddadlau hyn. Rhoddwyd tystiolaeth gan bartner benywaidd y ddioddefwraig a rhoddodd y ddioddefwraig ei hun gyfweliad wedi'i recordio ar fideo yn egluro sut roedd hi'n gwybod mai bwriad y diffynnydd oedd ei threisio a dyna pam roedd hi wedi gofyn iddo ddefnyddio condom.

Dolen i adran Treisio'r adroddiad data tudalennau A25-A33 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

Darperir data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Atodiad 2 tudalennau B11–B12

## Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)[26] [27]

Yn 2017-18, gostyngodd nifer yr erlyniadau a'r euogfarnau o droseddau rhywiol (gan eithrio treisio) o'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd yn y gyfradd euogfarn ar ôl treial. Mae'r gwaith a amlinellir yn adran Treisio'r adroddiad (A22- A25) – y ddau yn gam gyfredol a'r camau nesaf - hefyd yn berthnasol i droseddau rhywiol difrifol, ac eithrio treisio.

- Yn 2017–18, gostyngodd nifer yr erlyniadau troseddau rhywiol a gwblhawyd, ac eithrio treisio, i 12,005 o 13,490 yn 2016–17 – gostyngiad o 1,485 o ddiffynyddion (11.0%). Cafodd 38.5% o droseddau rhywiol ac eithrio treisio eu herlyn yn 2017–18 eu cyflawni ar blant. [28]
- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 10,721 yn 2016–17 i 9,654 – gostyngiad o 1,067 (10.0%).
- Cynyddodd y gyfradd euogfarnu o 79.5% yn 2016–17 i 80.4% – y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed; gyda 53.2% o euogfarnau ar ôl treial, cynnydd o 3.8 pwynt o'r flwyddyn flaenorol.

**Cam-drin safle o awdurdod**


Dedfrydwyd tri aelod o Fyddin yr Iachawdwriaeth i gyfanswm o dros 13 mlynedd yn y carchar am gam-drin merched ifanc yn rhywiol yn y 1970au a'r 80au. Dedfrydwyd pedwerydd aelod i 15 mis yn y carchar a ohiriwyd am ddwy flynedd.

Dedfrydwyd meddyg i 12 mlynedd yn y carchar am ymosod yn rhywiol ar bedwar claf benywaidd dros dair blynedd yn ei feddygfa.

Dedfrydwyd tylinydd i 13 mlynedd yn y carchar am ymosod yn rhywiol ar gleient benywaidd yn ystod sesiwn tylino therapiwtig i drin ei pharlys yr ymennydd, o'r cyfnod pan oedd yn 11–16 oed.

---

[26] Gall troseddau rhywiol gan eithrio treisio amrywio o droseddau o gyffwrdd yn rhywiol heb ganiatâd i ymosodiadau rhywiol difrifol. Cydnabyddir bod llawer o ddioddefwyr troseddau rhywiol, gan gynnwys treisio, yn blant ac felly'n cael eu hamlygu fel cam-drin plant - felly mae gorgyffwrdd o ddata treisio, troseddau rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol.
[27] Nid yw cofnodion y GEG yn cynnwys manylion cyn cyhuddo ynghylch troseddau rhywiol (gan eithrio treisio) ac felly ni allant ddarparu data ar atgyfeiriadau gan yr heddlu neu ddiffynyddion a gyhuddir.
[28] O dan 18 oed




Dolen i adran Troseddau Rhywiol yr adroddiad data tudalennau A33-A36 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

## Trais ‘ar sail anrhydedd’ fel y’i gelwir, priodas dan orfod, ac anffurfio organau cenhedlu benywod[29]

Cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau a amlygwyd megis priodasau dan orfod (FM), y rhai a amheuwyd yn euog ac a erlynwyd yn 2017-18, gyda chynnydd yn nifer yr euogfarnau. Cafwyd gostyngiad yn yr atgyfeiriadau a amlygwyd fel trais ‘ar sail anrhydedd’ fel y’i gelwir (HBV), diffynyddion a gyhuddwyd, erlyniadau ac euogfarnau yn 2017-18.

Bydd grŵp ffocws ar y cyd â’r heddlu, GEG, HBV, FM ac Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) [30] yn gwasgu am welliant parhaus wrth drin yr achosion hyn a lefel gynyddol o gefnogaeth i achwynwyr a thystion. Bydd y grŵp yn adolygu adborth i adeiladu ar arweiniad a hyfforddiant y GEG, yn ogystal â monitro achosion terfynol i sicrhau y rhennir yr hyn a ddysgir a'r arfer gorau.

### Trais ‘ar sail anrhydedd’ fel y’i gelwir

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau a amlygwyd fel HBV gan yr heddlu o droseddau sy’n gysylltiedig â HBV o 200 yn 2016-17 i 145 yn 2017-18, gyda gostyngiad o 136 i 79 yn nifer y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd.
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 171 yn 2016-17 i 127 yn 2017-18.
- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 90 yn 2016-17 i 71 yn 2017-18. Cynyddodd y gyfradd euogfarn o 52.6% i 55.9%.

---

[29] Mae'r nifer fach yr achosion yn nodi bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli data mewn perthynas â'r troseddau hyn.
[30] Mae diffiniad FGM yn yr eirfa

**Achos trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir**

Roedd bachgen Sikh wedi bod mewn perthynas â merch Fwslimaidd am wyth mis; fodd bynnag, roedd teulu'r ferch yn gryf yn erbyn y berthynas. Ymwelodd ei rhieni â theulu'r bachgen i fynegi eu pryderon bod y berthynas yn dod â chywilydd ar y teulu. Er bod y sgwrs rhwng y rhieni wedi'i disgrifio fel un gyfeillgar, roedd brawd y ferch wedyn wedi bygwth niweidio'r bachgen a'i frawd a ddywedodd eu bod yn ofni y byddai'r dyn yn ymosod yn ddifrifol arnynt. Mewn cyfweliad gan yr heddlu, cyfaddefodd na fyddai wedi cael unrhyw broblem gyda'r berthynas pe bai'r cariad wedi bod yn Fwslim. Plediodd y diffynnydd yn euog i ymosodiad cyffredin oherwydd crefydd a gwnaed cais am godi dedfryd ar gyfer yr ysgogiad a waethygwyd gan grefydd. Derbyniodd Orchymyn Cymuned am ddeuddeg mis gyda 100 awr o waith gorfodol di-dâl. Cefnogwyd y dioddefwyr gan sefydliad nad oedd yn un llywodraeth leol.

Dolen i adran HBV yr adroddiad data tudalennau A36-A41 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

## Priodas dan orfod

- Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau FM a amlygwyd gan yr heddlu o 56 yn 2016–17 i 71 yn 2017-18, gyda chynnydd cyfatebol yn nifer y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd o 36 i 45.
- Cynyddodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 44 yn 2016–17 i 50 yn 2017–18.
- Cynyddodd nifer yr euogfarnau o 32 yn 2016–17 i 37 yn 2017-18. Cynyddodd y gyfradd euogfarnu o 72.7% yn 2016-17 i 74.0% yn 2017-18.

**Torri Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod**

Yn yr achos hwn, ymwelodd mam a'i phedair o blant â Phacistan ar y rhagdybiaeth bod ei mam-yng-nghyfraith yn sâl. Yna, hysbysodd y fam y teulu yn y DU bod ei phasbort a rhai ei phedwar plentyn wedi eu cymryd oddi wrthynt, a arweiniodd at eu hachub o Bacistan. Ar ôl ychydig o amser, daeth i'r amlwg bod y tad yn bwriadu mynd â'i wraig a'i blant yn ôl i Bacistan, ac oherwydd hyn rhoddwyd y fam a'r plant mewn lloches. Sylweddolwyd wedyn bod y tad yn gwybod lle roedd ei deulu'n aros a rhoddwyd y pedwar plentyn mewn gofal. Rhoddwyd Gorchymyn Gofal a phedwar gorchymyn amddiffyn priodas dan orfod (FMPOs) gan y Llys Sirol mewn perthynas â'r pedwar o blant ac yna fe'u hailgartrefwyd yn ôl i ofal eu mam. Saith mis yn ddiweddarach, cafodd y plant eu hatal yn y maes awyr gyda'u rhieni a oedd yn ceisio mynd â nhw y tu allan i'r awdurdodaeth gan dorri'r FMPOs. Cafodd y teulu ei atal rhag mynd ar awyren i Dwbai a oedd yn daith awyren a oedd yn cysylltu ag Islamabad. Plediodd y fam a'r tad yn euog i dorri FMPO a derbyniwyd 5 mis o ddedfryd ohiriedig yn y carchar am ddwy flynedd.

Dolen i adran FM yr adroddiad data tudalennau A39-A40 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

### Anffurfio organau cenhedlu benywod

Diweddarwyd y protocol FGM ar y cyd â’r heddlu a’r GEG yn 2017-18 i gynnwys trefniadau hysbysu a monitro; mesurau amddiffyn dioddefwyr; gofyniad am archwiliad arbenigol a thystiolaeth a Gorchmynion Amddiffyn FGM.
Datblygwyd fideo hyfforddi HBV, FM a FGM ac mae wedi ei wneud ar gael i bob erlynydd ar y coleg erlyn.

Er nad yw adroddiadau gorfodol gan weithwyr proffesiynol rheng flaen wedi arwain at gynnydd arwyddocaol mewn achosion sy'n cael eu hymchwilio a'u hatgyfeirio i'w herlyn, maent wedi arwain at roi mesurau diogelu ar waith gyda theuluoedd a/neu Orchmynion Amddiffyn FGM yn cael eu rhoi fel mesurau ataliol.

- Aeth dau achos i dreial ym mis Mawrth 2018.[31] Ni chafodd y naill euogfarn. Mae'r heddlu a'r GEG wedi eu dad-briffio ar y ddau achos i gynyddu eu dealltwriaeth a sicrhau bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu.

Dolen i adran FGM yr adroddiad data tudalennau A40-A41 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a dadansoddiad data manwl

## Cam-drin plant[32]

Yn 2017-18 parhaodd y GEG i fod â rhan ganolog yn y strategaeth draws-lywodraethol a arweinir gan y Swyddfa Gartref i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant. Darparodd y GEG hefyd ddeunydd a datganiadau tystion fel cyfranogwr craidd yn yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol a byddant yn darparu tystiolaeth bellach yn 2018-19. Bydd fforwm Rhanddeiliaid Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSA) yn cael ei sefydlu yn 2018-19 a bydd y GEG yn gweithio gyda'r Ganolfan Gydlynu Plismona Agored i Niwed Cenedlaethol i fynd i'r afael â gwelliannau pellach yn yr ymateb i CSA.

Mae nifer yr achosion a amlygwyd o gam-drin plant, a atgyfeiriwyd gan yr heddlu ac a erlynwyd gan y GEG wedi gostwng; gyda chynnydd mewn cyfraddau euogfarn ar gyfer cam-drin plant yn ogystal â cham-drin plant yn rhywiol.

- Yn 2017–18, gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau a amlygwyd gan yr heddlu am gam-drin plant o 13,310 yn 2016–17 i 11,986 – gostyngiad o 1,324 o atgyfeiriadau (9.9%). Cyhuddwyd 7,547 (63.0% o atgyfeiriadau) [33], gostyngiad o 1,427 o 2016-17.

---

[31] Nid yw'r GEG yn casglu ystadegau ffurfiol mewn perthynas â FGM. Mae gennym gofnod llaw o wybodaeth y FGM. Fel ar ddiwedd 2017–18, mae'r cofnod llaw yn dangos bod cyfanswm yr atgyfeiriadau yn 36 ers i ni ddechrau cofnodi yn 2010. O'r rhain, mae'r cofnod llaw yn dangos nad oedd 33 o'r atgyfeiriadau hyn a dderbyniwyd gan y GEG yn mynd ymlaen i ddwyn achos, gan nad oedd digon o dystiolaeth i ddarparu gobaith realistig o euogfarn. O'r tri achos sy'n weddill, mae'r cofnod llaw yn dangos y cyhuddwyd dau achos o FGM ond cafwyd eu rhyddhau yn y treial (cafodd un ohonynt ei erlyn yn 2017-18 ac un yn 2014-15), a chyhuddwyd un achos fel creulondeb i blentyn (2017- 18) ond gorchmynnodd y barnwr ryddfarn.

[32] Mae data treisio, trosedd rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol yn gorgyffwrdd oherwydd nifer yr achosion o dreisio a throseddau rhywiol yn erbyn plant.

[33] Yn 2017-18 cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau wedi’u ‘terfynu’n weinyddol’ o’i gymharu â’r flwyddyn flaenorol (13.2% o atgyfeiriadau o’u cymharu â 6.5% y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu ’terfynu’n weinyddol’ am nifer o resymau. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle bydd yr heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil lawn ar gyfer penderfyniad cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu ’terfynu’n weinyddol’ gan na chafwyd unrhyw benderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Roedd y cynnydd mewn achosion a ‘derfynwyd yn weinyddol’ wedi effeithio ar gyfran y diffynyddion a gyhuddwyd (y ’gyfradd cyhuddo’).

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd [34] o 11,793 yn 2016–17 i 10,704 – gostyngiad o 1,089 (9.2%).
- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 8,999 yn 2016-17 i 8,350 - gostyngiad o 649 (7.2%), gyda chynnydd mewn cyfradd euogfarn o 76.3% i 78.0%; cynyddodd euogfarnau ar ôl eu herio o 53.6% i 56.3%.

**Cam-drin bechgyn yn rhywiol**

Roedd nifer o euogfarnau o droseddwyr a gam-driniodd bechgyn yn rhywiol:

Dedfrydwyd cyn-hyfforddwr pêl-droed i 31 mlynedd am 50 cyfrif o gam-drin rhywiol yn erbyn bechgyn, llawer ohonynt yn chwaraewyr uchelgeisiol, yn yr 1980au.

Dedfrydwyd cyn-offeiriad i 18 mlynedd am gam-drin deg o fechgyn mewn ysgol yn yr 1970au a'r 80au.

Carcharwyd athro Addysg Gorfforol a hyfforddwr pêl-droed am 16 mlynedd am dreisio plentyn o dan 13 oed ar ôl magu perthynas amhriodol gyda'r dioddefwr dros gyfnod sylweddol o amser.

O fewn troseddau cam-drin plant a amlygwyd, roedd y rhai hynny'n ymwneud yn benodol â cham-drin plant yn rhywiol (CSA):

- Gostyngodd erlyniadau trosedd CSA a gwblhawyd yn 2016–17 o 7,181 i 6,378 - gostyngiad o 803 (11.2%).
- Gostyngodd nifer euogfarnau'r CSA o 5,374 yn 2016–17 i 4,878 – gostyngiad o 496 (9.3%). Cododd y gyfradd euogfarn o 74.8% i 76.5%; cynyddodd euogfarnau ar ôl herio o 51.9% i 55.7%.

[34] Nododd Adroddiad Blynyddol y GEG 2017-18 ostyngiad o 10% yn nifer cyffredinol yr achosion a erlynwyd yn 2017-18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd mwy o'r achosion yn gynyddol gymhleth: 'Adlewyrchir hyn yn y twf enfawr mewn tystiolaeth ddigidol ac yn achos troseddau rhywiol yn aml iawn mae dibyniaeth fawr ar ddioddefwyr a thystion agored i niwed. Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau sylweddol ychwanegol ar gyfer rheoli achosion a bodloni cyfrifoldebau datgelu'.

**Cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio**

Carcharwyd dyn am 17 mlynedd a hanner am ymosod yn rhywiol ar wyth merch yn eu harddegau dros gyfnod o wyth mlynedd. Roedd ei droseddau'n cynnwys achosi ac annog plentyn i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol; achosi plentyn i wylio gweithred rywiol, gwneud delweddau anweddus o blentyn yn ogystal ag ymosodiad rhywiol.

Dedfrydwyd cyn-olffwr proffesiynol i 14 mlynedd a hanner am dreisio merch yn ei harddegau ac ymosod yn rhywiol ar ddwy arall o dan 16 oed.

Dedfrydwyd dyn i 19 mlynedd am dreisio ac ymosod yn rhywiol ar blant o dan 13 oed ac am greulondeb i blant.

Carcharwyd dyn arall am 18 mlynedd am ymosod yn rhywiol ar ferched 12-15 oed. Rhoddodd ffonau symudol ac alcohol iddynt, ac yn ogystal ag ymosod arnynt, anfonodd luniau anweddus o'i hun atynt trwy gyfryngau cymdeithasol.

Dolen i adran cam-drin plant yr adroddiad data tudalennau A42-A46 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a data manwl

## Masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern

Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddwyd Adroddiad annibynnol ar Gaethwasiaeth Fodern am y tro cyntaf. Felly mae'r Adroddiad GEG VAWG hwn yn cysylltu â'r adroddiad cyhoeddedig hwn ac yn yr adran ddiweddarach mae'n darparu data pennawd yn unig, gan dynnu sylw at faterion ecsbloetio rhyw a rhywiol sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn.

- Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu am fasnachu pobl o 271 yn 2016-17 i 355 - y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, gyda chynnydd yn y rhai a amheuwyd yn euog ac a gyhuddwyd (o 188 i 239)
- Gostyngodd nifer yr erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd yn 2017–18 o 295 i 284.
- Cynyddodd nifer yr euogfarnau masnachu pobl o 181 yn 2016–17 i 185. Cododd y gyfradd euogfarn o 61.4% i 65.1%.

**Mae'r astudiaethau achos hyn yn enghreifftiau o fasnachu pobl ar gyfer eu hecsbloetio'n rhywiol**

Dedfrydwyd dyn a menyw o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern am drefnu i ferched o dan oed gael eu masnachu ar gyfer ecsbloetio rhywiol yn y DU. Aethpwyd â'r merched i ystafelloedd mewn gwesty, gwthiwyd alcohol a chyffuriau arnynt ac, mewn rhai achosion, cawsant eu hecsbloetio'n rhywiol. Fe'u dedfrydwyd i gyfanswm o 19 mlynedd yn y carchar.

Dedfrydwyd tri o bobl o fasnachu 19 o ddioddefwyr o Dde-ddwyrain Asia ar gyfer puteindra. Fe'u gorfodwyd i weithio o ystafelloedd gwesty. Cynigiodd y Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gefnogaeth ac amddiffyniad i'r dioddefwyr. Dedfrydwyd yr arweinydd i bedair blynedd yn y carchar ac roedd yn amodol i Orchymyn Atal Caethwasiaeth a Masnachu, am gyfnod amhenodol. Dedfrydwyd un o'r diffynyddion eraill i 2 flynedd, wedi'i gohirio am 2 flynedd a'r trydydd diffynnydd i 26 wythnos wedi'i gohirio am 2 flynedd.

Dolen i adran masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern yr adroddiad data tudalennau A47-A49 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a data manwl

## Puteindra

Mae'r GEG yn canolbwyntio ar erlyn y rhai sy'n gorfodi eraill i buteinio, eu hecsbloetio, eu cam-drin a'u niweidio. Nod ein dull ar y cyd gyda'r heddlu, gyda chefnogaeth asiantaethau eraill, yw helpu'r rhai hynny sy'n ymwneud â phuteindra i ddatblygu ffyrdd allan.

- Arhosodd y nifer o droseddau cysylltiedig â phuteindra[35] sy'n gysylltiedig â rheoli puteindra'n gyson yn 2017–18 (96 o 99 yn 2016-17) yn erbyn gostyngiad mewn erlyniadau ar gyfer cadw puteindy (74 o 90) a phrowlan ar hyd y pafin (106 o 148).
- Gostyngodd troseddau stryd o 127 yn 2016–17 i 57.

**Erlyn y rhai sy'n ecsbloetio pobl ifanc yn rhywiol**

Cafodd merch 14 oed ei hecsbloetio'n rhywiol gan dri dyn a oedd yn gwthio cyffuriau arni a'i gorfodi i werthu rhyw. I ddechrau, dywedodd ei theulu bod y dioddefwr ar goll. Cynigiodd un o'r dynion lety iddi ac yna rhoddodd gyffuriau iddi, gan ei gorfodi i werthu rhyw i ad-dalu ei dyled. Ynghyd â'r ddau ddyn arall, tynnodd luniau noeth ohoni a lwythodd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ei hysbysebu fel hebryngwraig. Dedfrydwyd y tri diffynnydd i gyfanswm o 18 mlynedd yn y carchar.

Dolen i adran puteindra'r adroddiad data tudalennau A50-A52 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a data manwl

## Pornograffi ac anweddustra

Mae erlyn delweddau cam-drin plant yn rhywiol wedi'i symleiddio i wella effeithlonrwydd erlyniadau. Yn 2017-18, cafwyd cynnydd mewn troseddau o anweddustra a erlynwyd, gyda chyfran uwch o erlyniadau anweddus neu'n arbennig o sarhaus yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

- Yn 2017-18, roedd y GEG yn gallu erlyn unigolion dan amheuaeth yn fwy effeithlon gan ddefnyddio llai o ddelweddau. Yn 2014-15 roedd nifer cyfartalog y troseddau fesul achos yn 8, yn 2017–18 roedd yn 3.6. Felly roedd gostyngiad mewn erlyn troseddau delweddau cam-drin plant[36] o 20,803 yn 2016-17 i 15,055. Roedd y rhain yn cynnwys erlyniadau a ddechreuwyd ar gyfer 11,929 o droseddau ecsbloetio plant yn rhywiol trwy ffotograffau, gostyngiad o 14,691 yn 2016–17.
- Cafwyd ychydig o gynnydd mewn troseddau anweddustra a erlynwyd o 8,049 yn 2016–17 i 8,112 (0.8%). Roedd y rhan fwyaf o droseddau cyfathrebu maleisus, tramgwyddus neu anweddus yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

---

[35] Mae data puteindra GEG ar gael yn unig o'r system data seiliedig ar droseddau ac felly ni all gynnwys data ar atgyfeiriadau gan yr heddlu, cyhuddo a'r canlyniadau.

[36] Nid yw'r GEG yn amharu ar erlyn y troseddau hyn; yn hytrach, gallwn ddefnyddio llai o droseddau fesul erlyn y diffynnydd, yn dilyn y canllawiau diwygiedig sy'n ymwneud â symleiddio delweddau mewn erlyniadau.

- Roedd 26 o erlyniadau o bornograffi treisio yn 2017–18; 24 yn 2016–17.

- Dechreuwyd 464 erlyniad o'r drosedd o ddatgelu delweddau rhywiol preifat heb ganiatâd (yn pornograffi dial fel y'i gelwir) sy'n debyg i'r flwyddyn flaenorol (465).

- Dechreuwyd 18 erlyniad o drosedd meddiannu llawlyfr pedoffilydd, cynnydd o bedair o'r flwyddyn flaenorol.


**Mae'r achos canlynol yn enghraifft o'r achosion rydym bellach yn eu herlyn o dan y drosedd meddiannu llawlyfr pedoffilydd**

Carcharwyd darlithydd prifysgol am 32 o flynyddoedd am flacmelio pobl y cyfarfu â nhw ar-lein i anfon lluniau diraddiol iddo. Dilynodd erlyniad yr achos hwn ymchwiliad pedair blynedd byd-eang. Ffugiodd y diffynnydd ei fod yn artist benywaidd a chasglodd y delweddau 'hurtcore' fel y'u gelwir ar y rhyngrwyd dywyll. Amcangyfrifir ei fod wedi targedu bron i 50 o ddioddefwyr mewn nifer o wledydd dros nifer o flynyddoedd. Fe'i dyfarnwyd yn euog am dros 130 o droseddau unigol gan gynnwys blacmelio, gwneud delweddau anweddus o blant a bod yn berchen ar lawlyfr pedoffilydd.

**Mae'r astudiaethau achos canlynol yn dangos yr ystod o ffyrdd y defnyddir delweddau ecsbloetio'n rhywiol**

Dedfrydwyd dyn i 12 mlynedd yn y carchar am drefnu neu hyrwyddo comisiynu trosedd rhywiol o blentyn a chreu delweddau anweddus o blant. Talodd y diffynnydd wraig yn y Pilipinas i gam-drin dioddefwyr plant tra ei fod e'n gwylio ar-lein. Nodwyd mwy na 600,000 o linellau sgwrsio, a oedd yn cynnwys cam-drin plant ifanc iawn yn rhywiol, a storiwyd cannoedd o ddelweddau ar-lein

Cafodd swyddog yr heddlu ei ddedfrydu i naw mlynedd yn y carchar ar ôl iddo ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud â lluniau anweddus a fideos o ferched ifanc a gadwodd ar-lein. Cafodd y diffynnydd ei arestio a'i gyhuddo yn dilyn gwybodaeth gan ymchwilwyr ffederal yn Arizona.




Dolen i adran pornograffi ac anweddustra'r adroddiad data tudalennau A53-A56 i gael manylion am weithgarwch GEG, y camau nesaf a data manwl

# Adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

Mae'r adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched yn rhoi dadansoddiad data manwl ynghylch pob elfen o'r VAWG.

# Adroddiad data Trais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)

## Cyflwyniad

Mae adroddiad data VAWG yn darparu asesiad o berfformiad erlyn cam-drin domestig (DA), stelcio, aflonyddu, treisio,[1] troseddau rhywiol, priodas dan orfod (FM), trais 'ar sail anrhydedd' fel y'i gelwir (HBV), anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM ), cam-drin plant, masnachu pobl ar gyfer ecsbloetio rhywiol, puteindra a phornograffi. Mae'r troseddau hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd 'VAWG', gan gydnabod eu bod wedi eu cyflawni'n bennaf, ond nid yn unig, gan ddynion yn erbyn menywod; gyda nifer anghyfartal o ddioddefwyr benywaidd. Ceir patrwm o bŵer rhyweddol, gorfodaeth a/neu reolaeth. Fodd bynnag, gellir targedu'r troseddau hyn at ddynion a bechgyn ac yn 2017 cyhoeddwyd datganiad cyhoeddus ar ein dull a'n cefnogaeth ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd. Bydd arweiniad a hyfforddiant cyfreithiol i erlynwyr, pan gaiff ei ddiweddaru, yn cynnwys manylion am brofiad dioddefwyr gwrywaidd, er mwyn helpu i herio mythau a stereoteipiau a rhoi manylion am wasanaethau cymorth i ddioddefwyr gwrywaidd. Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i wella cofnodi rhyw y dioddefwyr er mwyn darparu data gwell o ran nifer yr achosion o ddioddefwyr, yn ôl rhyw. Cynhaliwyd fforwm gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr gwrywaidd ym mis Mehefin 2018 i asesu'r cynnydd wrth gyflawni'r camau a amlinellir yn y datganiad cyhoeddus.

Mae'r GEG wedi ymrwymo i sicrhau cyfiawnder i *bawb* sy'n cael eu heffeithio gan droseddau sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel 'VAWG'. I'r perwyl hwnnw, rydym yn gynhwysol yn ein hagwedd. Mae pob un o'n polisïau VAWG yn cael eu defnyddio'n deg ac yn deg i bob troseddwr a dioddefwr trosedd - waeth beth fo'u rhyw.

Mae bod yn rhydd rhag trais a cham-drin yn cael ei gydnabod yn glir mewn cyfraith ryngwladol o ran hawliau dynol a rhywedd. Cydnabyddir VAWG ledled y byd, a gan Lywodraeth y DU, fel ffurf o droseddu lle mae gan rywedd rhan. Fel y mae'r Cenhedloedd Unedig yn ei ddisgrifio:

> Mae trais yn erbyn menywod yn arwydd o gysylltiadau pŵer anghyfartal yn hanesyddol rhwng dynion a merched, a arweiniodd at ddominyddu a gwahaniaethu yn erbyn menywod gan ddynion ac atal dyrchafu menywod yn llawn, ac ... mae trais yn erbyn menywod yn un o'r mecanweithiau cymunedol hanfodol y mae menywod yn cael eu gorfodi i safle israddol o'i gymharu â dynion.[2]

Mae strategaeth VAWG y GEG yn rhan o fframwaith strategol draws-lywodraethol gyffredinol VAWG, yn seiliedig ar gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig y mae'r DU wedi'u llofnodi a'u cadarnhau. Ym mis Mawrth 2016, lansiwyd strategaeth draws-lywodraethol - *Ending Violence against Women and Girls 2016–2020* – sy'n amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu datblygu. Goruchwylir y camau gweithredu hyn, gan gynnwys y rhai ar gyfer y GEG, gan Grŵp Rhyng-Weinidogol VAWG a disgwylir y cyhoeddir strategaeth ddiwygiedig yn ddiweddarach eleni. Rydym wedi ymrwymo i wneud penderfyniadau teg a diduedd i sicrhau cyfiawnder i bawb ac i wella'r gefnogaeth i ddioddefwyr trwy adolygu ein harweiniad, ein hyfforddiant, ein harfer gorau a'n perfformiad ar draws

---

[1] Defnyddir fflag 'treisio' yn ffeiliau GEG o'r adeg pan fydd achos yn dechrau, yn dilyn honiad cychwynnol o dreisio. Bydd y faner hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os penderfynir cyhuddo trosedd nad yw'n dreisio neu lle diwygir cyhuddiad o dreisio ar ôl hynny, i sicrhau y defnyddir egwyddorion y polisi treisio a throseddau rhywiol.

[2] Swyddfa Uchel Gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Hawliau Dynol, *15 years of the United Nations Special Rapporteur on Violence against Women, its causes and consequences* (2009) http://www.ohchr.org/Documents/Issues/Women/15YearReviewofVAWMandate.pdf

elfennau VAWG yn ogystal ag ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae strategaeth VAWG y GEG wedi'i diweddaru ar gyfer 2017-2020.

## Darllen yr adroddiad

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn casglu data at ddibenion rheoli achosion er mwyn helpu i reoli ei swyddogaethau erlyn yn effeithiol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i adolygu ei arferion a'i brosesau cofnodi er mwyn gwella'r ffordd y mae'n casglu ac yn defnyddio'r data a gedwir ganddo. Nid yw'r Gwasanaeth yn casglu data sy'n cyfri fel ystadegau swyddogol fel y mae'r rheiny wedi'u diffinio yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, [3] ond mae lefel uchel o ddiddordeb o hyd ymysg y cyhoedd mewn gweld yr wybodaeth hon.

Diben yr adroddiad hwn yw caniatáu i Wasanaeth Erlyn y Goron fod yn agored ynghylch y data a gedwir ganddo a sicrhau y bydd camau ar waith i wneud y data'n fwy hygyrch a gwella dealltwriaeth pobl ohono. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn rhoi asesiad o berfformiad ar sail y data gorau sydd ar gael o System Gwybodaeth i Reolwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron. Gwneir ymdrechion drwy'r adroddiad cyfan i ddarparu nodiadau esboniadol i helpu'r darllenwr i ddehongli'r data a ddarperir.

Nid yw'r adroddiad hwn yn darparu data am nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched ac ymateb cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol iddynt. Mae rhagor o wybodaeth a dadansoddiad manylach o nifer yr achosion o gam-drin domestig, treisio, troseddau rhywiol, cam-drin plant a stelcio ar gael yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW) a gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder lle bo ar gael. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyfrannu at gyhoeddiadau blynyddol pwysig eraill o ddata am gam-drin domestig a threisio ar draws y System Cyfiawnder Troseddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) a'r Grŵp Cenedlaethol i Fonitro Treisio, dan gadeiryddiaeth Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), yn y drefn honno. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn darparu gwybodaeth fanwl ar draws ardaloedd heddluoedd er mwyn helpu i adeiladu darlun mwy eglur o ymateb y system cyfiawnder troseddol, yn lleol ac yn genedlaethol.

Felly, mae'r adroddiad data hwn am drais yn erbyn menywod a merched yn ddadansoddiad o'r materion erlyn allweddol ymhob llinyn trosedd o'r maes trais yn erbyn menywod a merched – sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran flaenorol. Daw'r data sy'n sail i'r adroddiad o System Rheoli Achosion (CMS) Gwasanaeth Erlyn y Goron, System Rheoli Tystion (WMS) Gwasanaeth Erlyn y Goron a'i System Gwybodaeth Rheoli (MIS) gysylltiedig. Cedwir y data mewn tair cronfa ddata wahanol yn y System Gwybodaeth Rheoli[4], sydd wedi eu seilio ar ddiffynyddion, troseddau a dioddefwr neu dystion. Ni ellir cyfatebu data rhwng y gwahanol gronfeydd data[5]. Mae'r adroddiad yn cynnwys y *data cyfan am yr holl droseddwyr a dioddefwyr, beth bynnag fo eu rhyw*. Lle bo'n bosibl, ceir dadansoddiad o'r data, yng nghorff yr adroddiad, yn ôl rhyw yn ogystal â'r cyfartaleddau a'r niferoedd cyffredinol.

---

[3] Mae'r ystadegau swyddogol sy'n ymwneud â throsedd a phlismona'n cael eu cadw gan y Swyddfa Gartref. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n cadw'r ystadegau swyddogol yn ymwneud â dedfrydu, achosion llys troseddol, troseddwyr a ddygwyd gerbron y llys, y llysoedd a'r farnwriaeth.

[4] Yn debyg i unrhyw system gofnodi raddfa fawr, gall y data gynnwys gwallau oherwydd camgymeriadau wrth gofnodi a phrosesu'r wybodaeth. Mae'r ffigurau'n rhai dros dro a gallent gael eu newid wrth i Wasanaeth Erlyn y Goron gofnodi rhagor o wybodaeth.

[5] Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canlyniadau yn ôl y diffynnydd ac ni all ddarparu gwybodaeth ar wahân am ganlyniadau ar sail y dioddefwyr neu'r troseddau. I'r perwyl hwnnw, ni ellir darparu data ar wahân am ganlyniadau achosion a wynebir gan ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd; ac nid yw chwaith yn bosibl cyfatebu rhyw'r diffynnydd gyda rhyw'r dioddefwr.

Pennir yr achosion o gam-drin domestig, treisio, priodas dan orfod, trais ar sail anrhydedd, cam-drin plant a masnachu pobl drwy roi fflag â llaw ar ddiffynyddion yn y System Rheoli Achosion a rhoi gwybod amdanynt drwy'r System Gwybodaeth Rheoli. Cofnodir y data yma ar sail yr unigolion dan amheuaeth (cyn cyhuddo) neu'r diffynyddion (ar ôl cyhuddo) ac felly mae'n darparu data am atgyfeiriadau heddlu ac unigolion dan amheuaeth a gyhuddir yn ogystal â chanlyniadau'r diffynyddion. Mae hefyd yn golygu bod modd cofnodi proffiliau cydraddoldeb y diffynyddion.[6] Rydym yn dadansoddi canlyniadau erlyniadau gan ddefnyddio'r gronfa ddata o ddiffynyddion ac felly mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny drwyddo draw. Mae rhagor o fanylion ymhob adran am y gyfran o ddiffynyddion a erlynir yn ôl eu rhyw, lle mae'r wybodaeth honno ar gael.

Yr unig ffordd y gellir darparu data am stelcio, aflonyddu, troseddau rhywiol, puteindra, pornograffi ac anlladrwydd yw drwy ddefnyddio'r data am droseddau sydd wedi'u cofnodi yn y System Rheoli Achosion ac yr adroddir amdanynt drwy'r System Gwybodaeth Rheoli. Mae'r data yma'n cynnwys cyfrifiad o nifer y troseddau lle cychwynnodd erlyniad yn y llys ynadon, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth am y nifer o atgyfeiriadau gan yr heddlu a gyhuddwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron a chanlyniadau'r erlyniad[7]. Yn ogystal, nid yw'r data am broffiliau'r dioddefwyr ar gael ar gyfer y troseddau hyn.

Mae'r System Rheoli Tystion yn system rheoli achosion bwrpasol a luniwyd gan staff yr Uned Gofal Tystion (WCU) arbenigol ar gyfer staff yr Uned honno er mwyn iddynt allu rheoli eu hachosion yn effeithiol. Mae'r System Rheoli Tystion yn cofnodi data am ddioddefwyr a thystion a, lle mae hynny wedi'i gofnodi, mae'r system yn cynnwys data sy'n sôn am broffiliau cydraddoldeb y dioddefwyr (a'r tystion). Mae'r System Rheoli Tystion yn gallu darparu data am y *nifer* o ddioddefwyr sy'n gysylltiedig ag achosion erlyniad, yn ôl eu rhyw (lle bo'r manylion hynny ar gael), yn hytrach na *chanlyniadau* yr erlyniadau hynny. Nid yw'n cynnwys unrhyw ddata sy'n sôn am nifer y dioddefwyr honedig sy'n gysylltiedig ag erlyniadau cyn-cyhuddo ac felly ni all gynnwys data am atgyfeiriadau'r heddlu a chyhuddiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Yn yr adran hon o'r adroddiad, asesir ac adroddir am broffiliau cydraddoldeb diffynyddion, yn ôl eu rhyw, ethnigrwydd ac oedran. Lle mae ar gael, rydym yn nodi data am broffiliau cydraddoldeb achwynwyr/dioddefwyr ac rydym yn parhau i chwilio am ffyrdd o wella data yn ymwneud â dioddefwyr sy'n cael eu cadw yn y System Cyfiawnder Troseddol. Yn unol â pholisi'r llywodraeth, rydym yn cyhoeddi'r data tanategol a ddefnyddiwn yn ein hadroddiadau. Gallwch weld y data tanategol ar gyfer yr adroddiad hwn[8] ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn yr adran ar Gyhoeddiadau.

## Llywodraethu trais yn erbyn menywod a merched

Mae Prif Erlynydd y Goron yn gweithredu fel Eiriolwr cenedlaethol ynghylch trais yn erbyn menywod a merched i Wasanaeth Erlyn y Goron, gan gysylltu ar draws Pencadlysoedd a holl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn ogystal â chadeirio'r Grŵp Ymgynghori Allanol (gwelwch isod). Mae rheolwyr y strategaeth trais yn erbyn menywod a merched cenedlaethol yn y Gwasanaeth, sy'n gweithio yng Nghyfarwyddiaeth Gweithrediadau Pencadlys Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn goruchwylio'r gwaith ar drais yn erbyn menywod a merched ar draws Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron. Maent yn goruchwylio darpariaeth y strategaeth, yn enwedig drwy'r cynllun sicrwydd ym maes trais yn erbyn menywod a merched sydd wedi'i amlinellu isod. Mae'r arweinwyr cenedlaethol

---

[6] Mae proffiliau cydraddoldeb diffynyddion yn cynnwys data am eu rhyw, oedran ac ethnigrwydd.
[7] Mae data am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn eithriad oherwydd mae'n deillio o'r prif gategori troseddu 'troseddau rhywiol' drwy eithrio diffynyddion sydd wedi'u fflagio am dreisio ac felly gall ddarparu canlyniad erlyniadau.
[8] Adroddir ar ddata drwy'r adroddiad cyfan hwn; darperir unrhyw ddata gwaelodol ychwanegol ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron.

ym maes trais yn erbyn menywod a merched yn cyhoeddi taflenni newyddion am y trais yma'n rheolaidd i Wasanaeth Erlyn y Goron, gan amlinellu'r diweddariadau yn y gwaith ar draws yr holl linynnau yn y maes hwn.

Yn 2017–18, parhaodd cydlynwyr ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron ym maes trais yn erbyn menywod a merched i arwain erlyniadau yn y maes hwn yn lleol a gweithio gyda Rheolwyr Cynhwysiad Ardaloedd ac Ymgysylltiad Cymunedol (ICEMs) i gynnal Panelau Craffu a Chyfranogaeth Lleol (LSIPs). Mae gan bob Ardal banelau sy'n ymdrin â materion trais yn erbyn menywod a merched – gan ymdrin yn bennaf ag erlyniadau am gam-drin domestig a threisio. Yn 2017–18 roedd y mwyafrif yn canolbwyntio ar berfformiad mewn achosion oedd â rhywfaint o graffu penodol yn ymwneud â thrais ar sail anrhydedd, gorfodaeth a rheolaeth, erlyniadau achlust, stelcio, statws mewnfudo dioddefwyr a chyfathrebu gyda dioddefwyr.

Mae'r cydlynwyr trais yn erbyn menywod a merched yn gweithio gyda'u Prif Erlynwyr y Goron i ddarparu adroddiadau ddwywaith y flwyddyn ar berfformiad yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus (PPD) drwy'r cynllun sicrwydd ym maes trais yn erbyn menywod a merched. Cynhaliwyd cyfarfodydd bord gron ym mis Ebrill 2017 a mis Mawrth 2018 i drafod rhoi camau gweithredu ar waith yn lleol. Sefydlwyd adrannau trais yn erbyn menywod a merched yng nghanolfannau gwybodaeth a gwaith achosion Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y wefan fewnol i sicrhau bod erlynwyr yn derbyn cymorth ymarferol gyda pharatoi gwaith achos. Maent hefyd yn rhoi esiamplau o arferion da, dolenni at esiamplau lleol, canllawiau cyfreithiol, pecynnau cymorth, a thaflenni newyddion am drais yn erbyn menywod a merched.

Yn 2017–18, ar lefel genedlaethol, roedd Grŵp Ymgynghori Allanol (ECG) Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched yn cynnwys grwpiau gydag arbenigedd yn y maes hwnnw i gynghori tîm trais yn erbyn menywod a merched Gwasanaeth Erlyn y Goron. Yn lleol, mae rhanddeiliaid yn rhoi adborth ac yn cynnig cyngor drwy Banelau Craffu a Chyfranogaeth Lleol Gwasanaeth Erlyn y Goron.

## Y Cynllun Sicrwydd ym maes Trais yn erbyn Menywod a Merched

Yn 2017-18, parhaodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i fonitro eu perfformiad gan ddefnyddio'r Cynllun Sicrwydd ddwywaith y flwyddyn ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched sy'n asesu ystod o fesurau ar gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol nad ydynt yn dreisio. Roedd y monitro hyn yn cynnwys gwneud dadansoddiad manwl o atgyfeiriadau'r heddlu, cyhuddiadau, canlyniadau erlyn, athreuliad sydd wedi'i gysylltu â phroblemau achwynwyr ac, i bob trosedd rywiol, rhyddfarnau rheithgor. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i dueddiadau lleol o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn dilyn asesiad o ystod eang o fesurau, paratôdd Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron sylwadau am eu hasesiad cyffredinol a phennu o leiaf dri cham gweithredu i sicrhau gwelliannau. Darparwyd adborth am sylwadau'r Ardaloedd a'r camau gweithredu a gynigiwyd ganddynt gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus a'r tîm canolog trais yn erbyn menywod a merched.

Yn rhan o ymarfer i ystyried agwedd gyffredinol yr adran tuag at gynhwysiad, ceisiwyd ystod eang o sylwadau ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron am effeithiolrwydd y Cynllun Sicrwydd trais yn erbyn menywod a merched. Yn gyffredinol, cafwyd cefnogaeth i'r Cynllun ac adborth positif amdano. Roedd dymuniad amlwg hefyd i adolygu'r Cynllun er mwyn gwella'r broses ymhellach a sicrhau mwy o gyfatebiaeth gyda'r Cynllun Sicrwydd ar gyfer Troseddau Casineb. I'r perwyl hwn, yn 2017-18, cafwyd adolygiad o'r Cynlluniau Sicrwydd ar gyfer Troseddau Casineb a thrais yn erbyn menywod a merched er mwyn cyflwyno Cynllun sy'n gadarnach fyth ar gyfer 2018-19.

## Strategaeth Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol

Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddwyd y Strategaeth Cynhwysiad ac Ymgysylltiad Cymunedol, sy’n nodi sut yr ydym yn cynnwys cymunedau yn ein gwaith, yn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol a sut y byddwn yn cymryd y gwaith yma yn ei flaen yn y maes trais yn erbyn menywod a merched. Datblygwyd y strategaeth yn dilyn Adolygiad Annibynnol yn 2017 o weithgareddau Cynhwysiad Gwasanaeth Erlyn y Goron. Roedd yr Adolygiad yn cynnwys asesiad o farn y rhanddeiliaid ym maes trais yn erbyn menywod a merched, gan dynnu sylw at fanteision ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu ein dull o ymdrin â thrais yn erbyn menywod a merched a’r angen am ymgysylltiad parhaus gyda chymunedau. Rydym wedi’n hymrwymo i ymgysylltu cymunedau’n lleol drwy Banelau Cynhwysiad a Chraffu Lleol ar drais yn erbyn menywod a merched ac yn genedlaethol drwy’r Grŵp Ymgynghori Allanol ar drais yn erbyn menywod a merched.

Ystyrir y Grŵp Ymgynghori Allanol (trais yn erbyn menywod a merched) yn fecanwaith ymgysylltu arwyddocaol a phwysig, ac mae rhai pobl yn ei ddisgrifio fel y grŵp gorau yn agenda cyfan y llywodraeth ar Drais yn erbyn Menywod a Merched, gyda pherthnasoedd cryfion llawn ymddiriedaeth rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a rhanddeiliaid allanol. Mae’r arbenigedd a’r safbwyntiau ar sail tystiolaeth y mae rhanddeiliaid yn eu cyfrannu wedi helpu i adeiladu sylfaen wybodaeth ar y cyd ac wedi helpu i ganfod pa dueddiadau a materion sy’n dod i’r amlwg.

**Adolygiad annibynnol o Weithgareddau Cynhwysiant Gwasanaeth Erlyn y Goron**

## Y cyfryngau cymdeithasol

Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi parhau i ymdrin ag erlyn troseddau trais yn erbyn menywod a merched sy’n ymwneud â defnyddio’r rhyngrwyd, platfformau cyfryngau cymdeithasol, negeseuon e-bost, negeseuon testun, apiau ffonau clyfar, ysbïwedd a meddalwedd tracio GPS. O ganlyniad i’r adborth a gafwyd gan erlynwyr yn 2017-18 adnewyddwyd y canllawiau ar erlyn achosion sy’n cynnwys cyfathrebiadau a anfonir ar y cyfryngau cymdeithasol. Cyhoeddwyd y fersiwn terfynol ym mis Awst 2018 ac mae’n rhoi mwy o gymorth i erlynwyr ar droseddau am drais yn erbyn menywod a merched a wneir ar-lein. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymgysylltu â sefydliadau partner ym maes trais yn erbyn menywod a merched i helpu erlynwyr i ddeall sut gall cyflawnwyr troseddau cam-drin domestig ddefnyddio technoleg ac i ganfod atebion ar y cyd i gefnogi dioddefwyr a phobl sydd wedi goroesi. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi mynd i’r afael hefyd â’r arfer sy’n dod i’r amlwg o gyfathrebiad sydd â’r potensial i fod yn ddifrifol dramgwyddus, sy’n cynnwys delweddau o ddioddefwyr gydag anafiadau difrifol iawn, p’un a ydynt wedi cael eu treisio neu wedi dioddef trais sadistig. Mae manylion yr erlyniadau i’w cael yn yr adran Pornograffi ac Anlladrwydd yn yr adroddiad hwn.

Yn 2017–18, ymatebodd Gwasanaeth Erlyn y Goron i ymgynghoriad a lansiwyd gan yr Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) am eu Papur Gwyrdd ar Strategaeth Diogelwch y Rhyngrwyd, gan gynnig cysylltiad â chanllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron ar erlyn y drosedd o ddatgelu delweddau preifat heb ganiatâd. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi parhau i ymgysylltu ar draws y llywodraeth mewn perthynas â’r gwaith hwn, gan gydnabod bod cam-drin a throlio ar-lein yn gallu targedu merched yn amlach na dynion yn aml iawn.

Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddodd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ei adroddiad ar Frawychu mewn Bywyd Cyhoeddus. Canfu’r Pwyllgor mai’r defnydd eang o’r cyfryngau cymdeithasol yw’r ffactor mwyaf arwyddocaol o ran cyflymu a galluogi ymddygiad brawychu dros y blynyddoedd

diwethaf. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod ymddygiad o'r fath yn cael effaith anghyfartal o negyddol ar ferched; grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME); grwpiau pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol (LGBT) ac ymgeiswyr Seneddol eraill o grwpiau lleiafrifol. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi ymrwymo i gefnogi Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) yn eu gwaith o gynhyrchu canllawiau hygyrch i ymgeiswyr Seneddol sy'n rhoi cyngor clir am yr ymddygiad y gallent ei ddisgwyl yn ystod ymgyrch sy'n debygol o fod yn drosedd a'r hyn y dylent ei wneud wrth wynebu brawychu o'r fath. Bydd y gwaith ar hyn yn parhau yn 2018-19.

## Effaith y newidiadau cyffredinol yn y nifer o erlyniadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron

Roedd Adroddiad Blynyddol 2017-18 Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi nodi gostyngiad o 10% yn y cyfanswm o achosion a erlynwyd yn 2017-18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd mwy o'r achosion yn gynyddol gymhleth:
'Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y tyfiant enfawr o dystiolaeth ddigidol ac, o ran y troseddau rhywiol, y ddibyniaeth drom ar dystion a dioddefwyr agored i niwed yn aml iawn. Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau ychwanegol sylweddol i reolwyr achosion ac wrth geisio cyflawni cyfrifoldebau datgelu'.

Yn yr adrannau am gam-drin domestig a thrais rhywiol yn yr adroddiad, bydd cymhariaeth rhwng y niferoedd yma a'r niferoedd yn y llysoedd ynadon a llysoedd y Goron, yn y drefn honno.

## Effaith y newidiadau mewn mechnïaeth cyn cyhuddo ar draws y maes trais yn erbyn menywod a merched

Cyflwynodd Deddf Troseddu a'r Heddlu 2017 drefniadau newydd ar gyfer achosion o fechnïaeth cyn cyhuddo ym mis Ebrill 2017. O ganlyniad i hynny cafwyd cynnydd yn y nifer o unigolion dan amheuaeth sy'n cael eu rhyddhau o dan ymchwiliad heb fechnïaeth, gan olygu bod mwy o ddefnydd o orchmynion drwy'r post i'w galw i'r llys. Aseswyd y newidiadau yn Adolygiad Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (Peel) ym mis Mawrth 2018 gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS). Canfu'r Adolygiad faterion oedd angen sylw, yn arbennig mewn achosion oedd yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol. Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu'n gwneud rhagor o ddadansoddiad a gofynnwyd i heddluoedd adolygu eu trefniadau, gan gynnwys asesu dioddefwyr agored i niwed, erbyn mis Medi 2018.

Mae'n bosibl bod y newidiadau hyn, yn enwedig y cynnydd mewn gorchmynion drwy'r post, yn cael effaith i ryw raddau ar fethiant diffynyddion i fynd i wrandawiadau cyntaf ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai carcharol ac mae'n bosibl bod cysylltiad yma hefyd â'r gostyngiad cyffredinol mewn erlyn achosion o drais yn erbyn menywod a merched a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadw data am y nifer o ddiffynyddion sydd heb fynychu'r llys ond mae'r data ynghylch y canran o ohiriadau a geir am fod gwarantau'n cael eu cyhoeddi'n dangos cynnydd.[9]

Amlinellodd yr Adolygiad hefyd bryderon yn ymwneud ag achosion o gam-drin domestig, sydd wedi'u hamlinellu yn adran yr adroddiad ar gam-drin domestig.

[9] Mae nifer y gwarantau a gyhoeddir gan y llys yn y gwrandawiad cyntaf wedi bod yn cynyddu'n raddol, o 15.9% yn Ch1 2016-17 i 21.4% yn Ch4 2017-18. O ran yr achosion o gam-drin domestig, mae nifer y gwarantau wedi cynyddu o 4.9% i 6.6%; o ran yr achosion o drais rhywiol maent wedi cynyddu o 13.0% i 22.9%.

# Asesiad Ansawdd Unigol o achosion o drais yn erbyn menywod a merched

Mae'r Canllawiau ar Asesiad Ansawdd Unigol (IQA) [10] ar draws Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi eu diweddaru i sicrhau y gwneir dadansoddiad cadarn wrth ymdrin â strategaethau achosion a chyflwyno achosion. Gall rheolwyr cyfreithiol godi fflag os bydd achos o drais yn erbyn menywod a merched neu achos o drosedd casineb yn cael ei asesu fel bod modd defnyddio Asesiad Ansawdd Unigol i bennu ac i asesu'r perfformiad yn ôl y math o drosedd – wrth sôn am achosion o drais yn erbyn menywod a merched, mae hyn yn cynnwys cam-drin plant, cam-drin domestig, priodas dan orfod, masnachu pobl, treisio ac achosion o stelcio neu aflonyddu.

# Data am berfformiad mewn achosion o drais yn erbyn menywod a merched

I bwrpasau rheoli perfformiad, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi grwpio is-set o droseddau at ei gilydd – cam-drin domestig, treisio[11] a throseddau rhywiol. Mae'r data ar gyfer yr is-set o droseddau 'trais yn erbyn menywod a merched' i'w cael yn yr adran hon o'r adroddiad, ac mae'r cafeatau wedi eu hamlinellu yn y cyflwyniad. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae mwyafrif yr erlyniadau am droseddau sydd wedi'u grwpio o dan drais yn erbyn menywod a merched, at ddibenion yr adroddiad hwn, yn droseddau cam-drin domestig sy'n cyfrif am 84.4% o'r troseddau,[12] treisio sy'n cyfrif am 4.3%[13] a throseddau rhywiol, ac eithrio treisio, sy'n cyfrif am 11.4%.[14]

Mae'r data a roddir isod yn ymwneud â *holl* ddiffynyddion a dioddefwyr 'trais yn erbyn menywod a merched', beth bynnag fo eu rhyw, gyda manylion y rhyw lle bo ar gael.

- Yn 2017–18 gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau 'trais yn erbyn menywod a merched'[15] gan yr heddlu o 117,444 yn 2016–17 i 116,574 – sef gostyngiad bychan iawn o 870 o atgyfeiriadau (0.7%).

- Gostyngodd y gyfran o unigolion dan amheuaeth a gyhuddwyd[16] i 69.1%[17] o 70.7% yn y flwyddyn flaenorol, gan olygu bod 80,547 o unigolion dan amheuaeth wedi cael eu cyhuddo (cwymp o 3.1**%** ers 2016–17).

[10] Mae Asesiadau Ansawdd Unigol (IQA) yn darparu fframwaith y gall rheolwyr a'u staff gydweithio ynddo i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparwn. Mae Asesiadau Ansawdd Unigol yn canolbwyntio ar waith unigolion i asesu i ba raddau y mae'r Safonau Ansawdd ar gyfer Gwaith Achos yn cael eu gweithredu ac yn galluogi rheolwyr i ddarparu cyngor a chefnogaeth i wella ansawdd y gwaith achos sy'n cael ei ddarparu gan Wasanaeth Erlyn y Goron.
[11] Rhoddir fflag 'trais rhywiol' ar ffeiliau Gwasanaeth Erlyn y Goron pan fydd achos yn cychwyn, yn dilyn honiad cychwynnol o dreisio. Bydd y fflag yma'n parhau hyd yn oed os gwneir y penderfyniad i gyhuddo rhywun o drosedd nad yw'n drais rhywiol, neu lle mae cyhuddiad o dreisio yn cael ei newid maes o law, i sicrhau y gweithredir egwyddorion y polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol.
[12] Cynnydd o 1.0 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol.
[13] Gostyngiad o 0.3 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol.
[14] Gostyngiad o 0.6 pwynt canran ers y flwyddyn flaenorol.
[15] Nid yw cofnodion Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys manylion y penderfyniadau cyn-cyhuddo mewn perthynas â throseddau rhywiol (ac eithrio treisio) ac felly ni allent ddarparu data am atgyfeiriadau'r heddlu. Mae'r atgyfeiriadau heddlu am 'drais yn erbyn menywod a merched' yn y llinell hon yn cynnwys dim ond cam-drin domestig a threisio.
[16] Pan fydd erlynwyr yn derbyn atgyfeiriadau heddlu gallent naill ai gyhuddo, rhoi penderfyniad tu allan i'r llys neu benderfynu peidio cyhuddo. Yn ogystal, bydd rhai achosion yn cael eu terfynu'n weinyddol a bydd rhai penderfyniadau gweinyddol 'eraill' hefyd.
[17] Yn 2017–18 cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau a gafodd eu 'terfynu'n weinyddol' o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (8.1% o atgyfeiriadau o'u cymharu â 4.6% yn y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am nifer o resymau. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle

- Mae nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched, fel cyfran o lwyth achosion cyfan Gwasanaeth Erlyn y Goron, yn cael eu hasesu fel y 'llwyth achosion trais yn erbyn menywod a merched'. Cynyddodd y llwyth achosion trais yn erbyn menywod a merched yn 2017–18, gan gyrraedd y lefel uchaf a gofnodwyd erioed, sef 20.1%.


**Tabl 1: Y llwyth achosion trais yn erbyn menywod a merched fel % o'r llwyth achosion cyfan, o 2011–12 hyd 2017–18**


| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Erlyn y Goron Cenedlaethol | 10.2% | 10.3% | 12.5% | 16.3% | 18.6% | 19.3% | 20.1% |

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau am droseddau 'trais yn erbyn menywod a merched' a gwblhawyd[18] [19] o 112,270 yn 2016–17 i 105,613 – sef gostyngiad o 6,657 o ddiffynyddion (5.9%).

- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 84,565 yn 2016–17 i 80,387 – sef gostyngiad o 4,178 o euogfarnau (4.9%). Cynyddodd nifer yr euogfarnau o 75.3% i 76.1%; cynyddodd nifer yr euogfarnau ar ôl treial (ac eithrio pleon cymysg)[20] o 2.4 pwynt canran i 53.8%.

**Graff 1 (chwith): Nifer y penderfyniadau cyn-cyhuddo**
**Graff 2 (dde): Nifer a phatrwm yr erlyniadau a'r euogfarnau am droseddau trais yn erbyn menywod a merched o 2011–12 hyd 2017–18**





mae'r heddlu wedyn yn penderfynu peidio cyflwyno ffeil lawn ar gyfer penderfyniad cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am na chafwyd unrhyw benderfyniad cyhuddo o dan y Prawf Cod Llawn. Mae'r cynnydd yn y nifer o achosion a 'derfynwyd yn weinyddol' yn 2017–18 wedi effeithio ar y gyfran o ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd gyhuddo').

[18] Mae nifer y diffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, bob yn berson a ddrwgdybir, a anfonwyd ymlaen i Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystod 2017-18 i dderbyn penderfyniad cyhuddo ac nid ydynt yn uniongyrchol gymaradwy o ran eu niferoedd â'r rheiny a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, bob yn berson a ddrwgdybir, a derfynwyd yn ystod 2017-18.

[19] Canfu Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Erlyn y Goron 2017-18 ostyngiad o 10% yn y nifer cyffredinol o achosion a erlynwyd yn 2017-18 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond roedd mwy o'r achosion yn gynyddol gymhleth: 'Mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y tyfiant enfawr mewn tystiolaeth ddigidol ac, o ran troseddau rhywiol, yn y ddibyniaeth drom ar ddioddefwyr a thystion agored i niwed yn aml iawn. Mae'r ffactorau hyn yn creu heriau ychwanegol sylweddol i reolwyr achosion ac wrth gyflawni cyfrifoldebau datgelu.'

[20] Mae achosion 'heb gynnwys pleon cymysg' yn achosion gan ddiffynyddion lle mae pleon 'dieuog' yn unig yn cael eu nodi ar gyfer pob cyhuddiad ac y mae treial yn dilyn.

**Graff 3: Nifer a chyfraddau'r euogfarnau am droseddau trais yn erbyn menywod a merched, o 2011–12 hyd 2017–18**




- Cafwyd 67.9% o euogfarnau oherwydd pleon euog.
- Ni wnaeth 15.7% o'r holl erlyniadau arwain at euogfarn am fod yr erlyniadau wedi eu gollwng (sy'n cynnwys penderfyniadau i roi'r gorau i'r achos, i dynnu'n ôl neu i beidio cynnig tystiolaeth).
- Ni wnaeth 25,226 o'r erlyniadau'n arwain at euogfarn. O'r holl achosion heb euogfarn, roedd 46.7% heb lwyddo oherwydd problemau achwynwyr; [21] ond o'r holl achosion trais yn erbyn menywod a merched a erlynwyd, mae'r gyfran oedd heb gael euogfarn oherwydd problemau achwynwyr wedi gostwng o 11.6% yn 2016–17 i 11.2% yn 2017–18.
- Yn 2017–18, cymerwyd camau i sicrhau bod rhyw ac ethnigrwydd yn cael eu cofnodi'n gadarnach, ar draws ardaloedd heddluoedd. Cafodd pob ardal heddlu'r dasg o wella'r ffordd y cofnodir data achwynwyr ar gyfer achosion o gam-drin domestig a threisio. Yn arbennig, newidiodd yr Heddlu Metropolitanaidd eu system ddata ym mis Mawrth 2018 i ddechrau cofnodi proffil cydraddoldeb achwynwyr. [22] Am fod ychydig yn llai na 15% o'r cyfanswm o erlyniadau am drais yn erbyn menywod a merched wedi digwydd yn Llundain, dylai'r gwelliant yma gael effaith bositif ar y data cyffredinol yn 2018-19. Felly, dylai adroddiadau yn y dyfodol gynnwys data cadarnach.

Mae'r data gwaelodol i'w cael yn yr atodiad cysylltiedig am Ddata Gwaelodol/Trais yn erbyn Menywod. Mae data Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron a data'r heddlu yn Atodiad 1.

# Materion cydraddoldeb

## Rhyw[23]

[21] Mae problemau achwynwyr yn cynnwys tynnu cwynion yn ôl, achwynwyr ddim yn mynychu, a sefyllfaoedd lle nad yw 'tystiolaeth yr achwynwr yn cefnogi'r achos'.
[22] Yn dilyn newidiadau blaenorol mewn systemau cronfa ddata, nid oedd Llundain wedi gallu cofnodi proffiliau cydraddoldeb achwynwyr. Unwaith y canfuwyd hyn yn 2016-17 newidiwyd y system ac fe'i gwnaed hi'n orfodol i gofnodi rhyw ac ethnigrwydd yr achwynwr.
[23] Nid yw'n bosibl darparu data am ryw'r achwynwr mewn perthynas â rhyw'r diffynnydd o'r systemau data cyfredol.

- O’r 105,613 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 98,083 o’r diffynyddion yn ddynion, roedd 7,387 yn fenywod ac, mewn 143 o achosion, ni chofnodwyd rhyw’r diffynnydd. Lle cofnodwyd rhyw’r diffynnydd, roedd 93.0% yn ddynion ac roedd 7.0% yn fenywod.[24]

- Yn ôl data o’r System Rheoli Tystion cafodd 97,363 o achwynwyr eu cofnodi.[25] O’r holl achwynwyr hyn, roedd 64,333 yn fenywod, roedd 12,495 yn ddynion ac mewn 20,535 o achosion ni chafodd rhyw’r achwynwr ei gofnodi. Cofnodwyd y rhyw ar gyfer 78.9% o’r achwynwyr yn 2017–18 – sy’n gynnydd o 78.3% yn 2016–17. Yn 2017–18 cymerwyd camau i sicrhau bod y rhywiau’n cael eu cofnodi’n gadarnach, ar draws ardaloedd heddluoedd, fel yr amlinellir uchod. Lle cofnodwyd rhyw’r achwynwyr, roedd 83.7% yn fenywod ac 16.3% yn ddynion.

## Ethnigrwydd

- Yn 2017–18, roedd 68.6% o’r diffynyddion mewn achosion trais yn erbyn menywod a merched[26] wedi’u categoreiddio’n bobl Wyn. O’r rhain roedd 63.2% wedi eu pennu’n Brydeinig Gwyn. Roedd 5.7% o ddiffynyddion wedi’u pennu’n Asiaidd, a 6.0% wedi’u pennu’n Ddu.[27] Roedd yr ethnigrwydd heb ei gofnodi ar gyfer ychydig yn llai na hanner yr achwynwyr (47.8%), felly nid yw’r data yma’n ddigon cadarn i dderbyn sylw yn yr adroddiad hwn.

## Oedran

- O’r diffynyddion hynny y cofnodwyd eu hoedran,[28] roedd y mwyafrif yn 25–59 oed (75.8%) a 18–24 oed (17.9%). Roedd 20.5% o’r diffynyddion (21,556) yn 24 oed neu’n iau, gyda 2,454 (2.3%) o’r diffynyddion yn 14–17 oed a 184 (0.2%) yn 10–13 oed.

- O’r achwynwyr hynny y cofnodwyd eu hoedran,[29] roedd y mwyafrif yn 25–59 oed (68.5%) a 18–24 oed (20.0%). Roedd 25.9% o’r achwynwyr (23,182) yn iau na 24 oed, gyda 3,781 (4.2%) ohonynt yn 14–17 oed, 1,215 (1.4%) yn 10–13 oed a 257 yn iau na 10 oed (0.3%). Cafwyd cynnydd o un flwyddyn i’r nesaf yn y nifer o achwynwyr a gofnodwyd oedd yn hŷn na 70 mlwydd oed. Yn 2017-18 cafwyd 1,734 o achwynwyr (1.9%), ac roedd 1,710 o’r rhain yn achwynwyr am gam-drin domestig.

[24] Mae’r ffigur yn debyg os yw’n cael ei gyfrifo allan o gyfanswm, gan gynnwys rhyw heb ei gofnodi (mae 92.9% yn ddiffynyddion gwrywaidd a 7.0% yn ddiffynyddion benywaidd).
[25] Mae data’r achwynwyr yn cynnwys achosion o gam-drin domestig a threisio, ond nid yw’r data am achwynwyr sy’n ymwneud â throseddau rhywiol nad ydynt yn drais rhywiol, ar gael o’r systemau data.
[26] Cesglir data am ethnigrwydd diffynyddion gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn unol â diffiniadau’r System Cyfiawnder Troseddol y cytunwyd arnynt ar gyfer y categorïau ethnig 16+1.
[27] Ni nododd 7.7% o’r diffynyddion ethnigrwydd pan gawsent eu restio ac ni ddarparwyd ethnigrwydd 9.3% o’r diffynyddion gan yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron.
[28] Cofnodwyd oedran 99.8% o’r diffynyddion yn 2017–18 – yn debyg i 99.7% yn 2016–17.
[29] Cofnodwyd oedran 91.9% o achwynwyr yn 2017–18 – sef cynnydd o 90.0% yn 2016–17.

# Cam-drin Domestig

## Cyflwyniad

Yn 2017–18 bu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cyfranogi yn y cynigion ynghylch deddfwriaeth cam-drin domestig y dyfodol ac yn y gwaith o ddatblygu mesurau anneddfwriaethol ar draws y llywodraeth; cafwyd ymgynghoriad yn gynnar yn 2018-19 sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd ar draws adrannau'r llywodraeth.

Mae gwaith wedi cychwyn gyda'r heddlu a gydag Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) i sefydlogi'r gostyngiad yn atgyfeiriadau cam-drin domestig yr heddlu a bennwyd yn 2015-2017. Cyhoeddwyd Canllaw Datrys Problemau ar gyfer yr heddlu rheng flaen ac erlynwyr er mwyn helpu i sicrhau bod achosion o gam-drin domestig yn cael eu hatgyfeirio'n briodol i Wasanaeth Erlyn y Goron. Cafodd yr holl erlynwyr eu hyfforddi mewn dau fodiwl dysgu gorfodol newydd ym maes cam-drin domestig yn ystod 2017-18 sy'n sôn am erlyniadau wedi'u harwain gan dystiolaeth ac am reolaeth drwy orfodaeth, a rhannwyd *aide-memoire* gyda'r heddlu hefyd sydd wedi'i seilio ar y modiwlau e-ddysgu hyn.

Gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron ar draws y System Cyfiawnder Troseddol yn y prosiect 'At Wraidd y Mater', gan brofi arferion gorau sydd i gael eu defnyddio ar draws holl systemau'r llys ynadon. Roedd y safleoedd prawf yn dangos tystiolaeth o gynnydd mewn perfformiad ac mae'r fframwaith arferion gorau, sy'n amlinellu pedair elfen, wedi derbyn cymeradwyaeth i gael ei gyflwyno'n genedlaethol yn 2018-19.

## Crynodeb o weithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron

- Yn 2017-18, bu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd rhan mewn gweithgorau traws-Lywodraethol i ystyried a siapio Ymgynghoriad mawr gan y Llywodraeth dan y teitl '*Gweddnewid yr Ymateb i Gam-drin Domestig'*. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn edrych ar ystod o fesurau sy'n cynnwys cynigion deddfwriaethol a gyhoeddwyd yn Araith y Frenhines yn 2017, megis cyflwyno diffiniad statudol o gam-drin domestig; cyflwyno comisiynydd cam-drin domestig; cyflwyno gorchmynion a hysbysiadau diogelu cam-drin domestig newydd; edrych ar ffactorau sy'n gwaethygu cam-drin domestig lle mae plant yn gysylltiedig ac ymestyn yr awdurdodaeth alldiriogaethol.

- Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd Canllaw Datrys Problemau ar gyfer erlynwyr a heddlu rheng flaen i ymdrin â'r materion a nodwyd ac i helpu i sicrhau bod achosion o gam-drin domestig yn cael eu hatgyfeirio'n briodol at Wasanaeth Erlyn y Goron. Roedd y Canllaw'n ymdrin â materion a bennwyd mewn perthynas â: chofnodi, dehongli a defnyddio data i oruchwylio perfformiad; cysylltiad cychwynnol gyda'r heddlu; yr ymateb cyntaf; arferion cyhuddo ac ystyried datgysylltu dioddefwyr.

- Ysgrifennodd y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ac Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar Gam-drin Domestig at holl Brif Erlynwyr y Goron, Prif Gwnstabliaid ac arweinwyr ar gam-drin domestig yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a'r heddlu, yn eu hannog i weithredu'r Canllaw Datrys Problemau ac i gydweithio i adolygu achosion lle gwnaed penderfyniad gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio gweithredu ymhellach.

- Yn 2017–18, cafodd fframwaith arferion gorau mewn cam-drin domestig 'At Wraidd y Mater', i'w ddefnyddio mewn llysoedd ynadon, ei brofi yn Bradford, Highbury a Nottingham er mwyn gwella perfformiad ac er mwyn gwella'r gwasanaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig. Cafwyd tystiolaeth yn y tri safle prawf oedd yn dangos cynnydd mewn perfformiad ac mae'r fframwaith arferion gorau sy'n amlinellu pedair elfen wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol (NCJB) i gael ei gyflwyno'n genedlaethol; mae cynlluniau ar waith i weithredu hynny.

- Mae'r ymarfer 'At Wraidd y Mater' wedi hysbysu diwygiad hefyd i lyfryn adnoddau Llysoedd Cam-drin Domestig Arbenigol (SDACs) sef y safon aur ar gyfer llysoedd cam-drin domestig arbenigol achrededig.

- Rydym wedi ystyried beth yw'r ffordd orau o gefnogi heddlu ac erlynwyr i weithredu adran 76 Deddf Troseddau Difrifol 2015: Ymddygiad Rheoli neu Orfodol mewn Perthynas Agos neu Deuluol, i ymdrin â'r ffordd y gellir cyflwyno'r dystiolaeth gerbron y llys, yn arbennig os nad yw achwynwr eisiau mynd i'r llys. Yn ystod 2017-18, roedd 960 o droseddau ymddygiad rheoli neu orfodol wedi cael cyhuddiad ac wedi cyrraedd gwrandawiad cyntaf. Mae hynny fwy na thair gwaith y nifer yn y flwyddyn flaenorol.[30]

- I gefnogi swyddogion yr heddlu ac erlynwyr i ddelio gyda'r achosion anodd hyn, aethom ati i ddatblygu *aide-memoire* ar y cyd, wedi'i seilio ar ein modiwlau e-ddysgu, sy'n amlinellu'r camau gweithredu sydd i gael eu hystyried yn ystod y broses o ymchwilio, adolygu ac erlyn achosion o ymddygiad rheoli neu orfodol.

- I gefnogi asiantau hyfforddi mewn achosion o gam-drin domestig mewn Ardaloedd, ac i sicrhau bod y dulliau'n gyson, cynhyrchwyd '*Cam-drin domestig i Asiantau – Nodyn Ymarfer Gorau'.* Mae'r nodyn yn tynnu sylw asiantau at y pwyntiau yn y broses lle mae'n rhaid iddynt gyfeirio at, a chysylltu gydag, erlynydd Gwasanaeth Erlyn y Goron.

- Adnewyddwyd dau fodiwl e-ddysgu – *Erlyn Cam-drin Domestig* ac *Ymddygiad Rheoli a Gorfodol* – yn 2017-18 i helpu i roi arweiniad ychwanegol i erlynwyr.

- Trwy gydol y flwyddyn, bu Erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cymryd rhan hefyd mewn wyth sesiwn hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol am Drais Domestig (IDVA) i wella eu dealltwriaeth o'r broses erlyn ymhellach.

- Ym mis Tachwedd 2017, rhyddhawyd data cam-drin domestig Gwasanaeth Erlyn y Goron o 2012-13 hyd 2016-17 ochr yn ochr â data gan yr heddlu a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer pob ardal heddlu. Darparwyd dadansoddiad o'r gyfres ddata a rhaglen ddata i helpu Comisiynwyr Troseddu a'r Heddlu ac asiantau lleol y System Cyfiawnder Troseddol i graffu ac i ddadansoddi sut yr ymdrinnir â cham-drin domestig yn eu hardal leol a mynd ymlaen i ymdrin â gwelliannau pellach.

- Daeth Fframwaith Diwygiedig peilot ar gyfer Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys (OOCD) a gychwynnodd ym mis Tachwedd 2014 i ben ym mis Hydref 2015. Caniatawyd eithriad i'r lluoedd peilot rhag glynu at arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ar rybuddion

[30] Mae'r troseddau hyn wedi'u cofnodi yng Nghyfanfyd Troseddau'r System Gwybodaeth Reoli. Mae'r Data'n ymwneud â'r nifer o droseddau a gofnodwyd mewn llysoedd ynadon, lle cychwynnwyd erlyniad. Y troseddau a gofnodwyd yw'r rheiny a gafodd gyhuddiad, unrhyw bryd, ac a gyrhaeddodd o leiaf un gwrandawiad. Bydd y troseddau yma'n parhau ar gofnod p'un a aethpwyd ymlaen i ymdrin â'r drosedd honno ai peidio ac nid oes unrhyw arwydd o'r canlyniad terfynol, neu os mai'r drosedd y cyhuddwyd rhywun ohoni oedd y drosedd wirioneddol y cafwyd cosb amdani ar y diwedd.

amodol. Roedd hynny felly'n gadael iddynt ddefnyddio'r penderfyniad yma yn lle rhybudd syml, pan oedd hwn yn gam gweithredu priodol. Ym mis Medi 2016, addaswyd canllawiau'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ganiatáu i'r tîm strategol trais yn erbyn menywod a merched allu awdurdodi rhybuddion amodol am gam-drin domestig yn unigol ac eithriadol y tu allan i'r ardaloedd peilot.

- Yn dilyn y cynlluniau peilot, mae rhagor o waith yn digwydd gydag arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer Penderfyniadau Tu Allan i'r Llys i ddatblygu meini prawf y mae'n rhaid i ardaloedd heddluoedd eu cyflawni os ydynt yn gwneud cais am eithriadau ar draws eu hardal. Mae hyn yn cynnwys darparu rhaglenni adsefydlu i droseddwyr.

- Cyhoeddwyd pedwerydd adroddiad y Pwyllgor Dethol Cyfiawnder ym mis Medi 2016 ac roedd hwn yn amlinellu math ar 'loteri cod post' o wasanaethau cyfiawnder adferol. Mewn ymateb i argymhellion y Pwyllgor, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder gonsensws traws-lywodraethol nad yw cyfiawnder adferol 'Lefel Un'[31] yn briodol ar gyfer achosion o gam-drin domestig sy'n cynnwys cam-drin partner agos. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain trafodaethau i greu cynllun gweithredu traws-lywodraethol manylach a fydd yn amlinellu'r meini prawf ar gyfer unrhyw ddefnydd posibl, gan gynnwys materion diogelwch ac asesiadau risg. Ym mis Mawrth 2018, ymunodd Gwasanaeth Erlyn y Goron â'r Bwrdd Darparu ar Gyfiawnder Adferol dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gweithio gyda heddluoedd i sicrhau bod swyddogion yn derbyn arweiniad ac yn parhau i osgoi defnyddio cyfiawnder adferol mewn amgylchiadau amhriodol.

- Yn 2017-18 rhoddwyd y dasg i bob ardal heddlu o wella'r ffordd y cofnodir data am ryw ac ethnigrwydd achwynwyr ar gyfer cam-drin domestig. Yn arbennig, newidiodd yr Heddlu Metropolitan eu system ddata ym mis Mawrth 2018, fel ei bod hi'n dod yn orfodol i gofnodi proffil cydraddoldeb achwynwyr. [32] Am fod 16% o'r achwynwyr cam-drin domestig yn Llundain, dylai'r gwelliant hyn gael effaith bositif ar y data cyffredinol yn 2018-19. Roedd cofnodi rhywiau wedi gwella ychydig bach ar draws yr ardaloedd heddluoedd yn 2017-18 ond mae cofnodi ethnigrwydd wedi gostwng. Bydd rhagor o gamau gweithredu'n digwydd yn 2018-19.

- Cafodd nifer o fentrau lleol eu pennu fel esiamplau o arferion da drwy gydol 2017-18, er enghraifft:

  — Roedd camau gweithredu Panel Craffu a Chyfranogaeth Lleol Ardal Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cynnwys cael grwpiau ffocws o ddioddefwyr i ddarparu adborth ynghylch prosesu a samplo llythyrau Uned Cyswllt y Dioddefwr (VLU).
  — Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i gynghorwyr annibynnol am drais domestig yn Llundain, y Gogledd Ddwyrain, y Gogledd Orllewin, y De Orllewin, Cymru a Swydd Efrog a Glannau Humber.
  — Mae llawer o Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi datblygu gwaith arloesol gyda chynghorwyr annibynnol am drais domestig, e.e. datblygodd Dwyrain Canolbarth Lloegr grid cynghorwyr annibynnol am drais domestig i asesu anghenion yr achwynwyr; mae gan Lundain gynghorydd annibynnol am drais domestig wedi'i leoli ar y cyd gyda'r heddlu ac mae gan Ddwyrain Canolbarth Lloegr gynghorwyr o'r fath wedi'u cyd-leoli ag un criw heddlu; datblygodd Swydd Efrog a Glannau Humber Focs Post y cynghorwyr annibynnol

---

[31] Cyfiawnder adferol 'Lefel Un' am droseddau bychain - cyfeirir at hwn yn aml fel cyfiawnder adferol 'stryd' ac mae'n cynnwys datrysiadau cymunedol lle gwneir cytundeb anffurfiol rhwng y partïon.

[32] Yn dilyn newidiadau blaenorol mewn systemau cronfa ddata, nid yw Llundain wedi gallu cofnodi proffiliau cydraddoldeb achwynwyr. Unwaith y pennwyd hynny yn 2016-17 newidiwyd y system ac fe'i gwnaed hi'n orfodol i gofnodi rhyw ac ethnigrwydd achwynwyr.

am drais domestig, Fforwm cynghorwyr annibynnol am drais domestig a gwasanaeth ceir i gynghorwyr annibynnol am drais sy'n galluogi i'r cynghorwyr yma deithio gyda'r heddlu i gefnogi achwynwyr ar y cyfle cyntaf i asesu eu hanghenion a'u hatgyfeirio at asiantaethau cymorth.

- Bu Gwasanaeth Erlyn y Goron Mersi-Sir Gaer, ynghyd â'r heddlu, yn archwilio penderfyniadau'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron i beidio gweithredu ymhellach mewn achosion, yn dilyn cwymp a ganfuwyd yn y niferoedd o achosion cam-drin domestig. Pennwyd themâu cyffredin a datblygwyd camau gweithredu i'r llu lleol ar gyfer ymdrin â'r problemau.
- Hefyd cyflwynodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Mersi-Sir Gaer hyfforddiant mewn cam-drin i holl Erlynwyr y Goron ac Uwch Erlynwyr y Goron gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol am ymddygiad rheoli a gorfodol.
- Yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron Dwyrain Canolbarth Lloegr, gweithiodd y Dirprwy Brif Erlynydd y Goron (DCCP) gyda phartneriaid ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol i archwilio athreuliad tystion. O ganlyniad, gwelsant feysydd i'w gwella ac roedd modd sicrhau bod asiantau'n derbyn hyfforddiant wedi'i ddiweddaru gan Wasanaeth Erlyn y Goron ar erlyn achosion o gam-drin domestig.

## Y camau nesaf

- Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i weithio gydag adrannau'r llywodraeth yn 2018–19 i ddatblygu'r Bil Trais a Cham-drin Domestig i ddod â throseddwyr gerbron y llys yn ogystal ag amddiffyn dioddefwyr camdriniaeth ymhellach.

- Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn parhau i weithio'n agos â'r heddlu'n lleol ac yn genedlaethol i sicrhau y gwneir atgyfeiriadau priodol gan yr heddlu i Wasanaeth Erlyn y Goron ac i ymdrin ag unrhyw ostyngiad mewn atgyfeiriadau lle bo angen.

- Yn 2018-19 bydd y Grŵp Cyflawni Arferion Gorau Cam-drin Domestig Cenedlaethol yn cefnogi Ardaloedd rhanbarthol i weithredu'r model Llysoedd Cam-drin Domestig Arbenigol diwygiedig ac arferion gorau mewn cam-drin domestig At Wraidd y Mater. Bydd adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol, flwyddyn ar ôl eu cymeradwyo, ym mis Medi 2018.

- Bydd yr arweiniad cyfreithiol yn cael ei ddiweddaru i gynnwys astudiaethau achos ac esiamplau ychwanegol i helpu erlynwyr i ymdrin â materion cymhleth sy'n cynnwys athreuliad tystion a allai fod yn amlwg mewn achosion o gam-drin domestig.

- Bydd canllawiau penodol yn cael eu diweddaru i ystyried pa mor briodol yw cyhuddo neu ddargyfeirio i droseddwyr sy'n ferched sydd wedi dioddef trosedd yn y gorffennol, yn arbennig gam-drin domestig a cham-fanteisio rhywiol.

- Bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio gydag arweinydd cam-drin domestig Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn 2018-19 i wella'r gwaith o gofnodi rhyw ac ethnigrwydd yr achwynydd hyd yn oed ymhellach.

- Byddwn hefyd yn gweithio gyda Phrif Erlynwyr y Goron a chydlynwyr trais yn erbyn menywod a merched i roi cyfarwyddiadau i erlynwyr a gweinyddwyr, i gofnodi, ac i ddeall pwysigrwydd cofnodi, y berthynas rhwng y diffynnydd a'r dioddefwr mewn achosion o gam-drin domestig.

- Bydd arweiniad cyfreithiol, hyfforddiant ac astudiaethau achos i erlynwyr yn cael eu diweddaru i gynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd er mwyn helpu i herio'r myth a'r stereoteipiau ac i roi manylion gwasanaethau cymorth.

## Data am gam-drin domestig

Roedd yr adran am drais yn erbyn menywod a merched yn yr adroddiad yn amlinellu effaith bosibl y trefniadau newydd ar gyfer mechnïaeth cyn cyhuddo ar nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod a merched yn gyffredinol. Gallai'r newidiadau hyn fod yn effeithio'n benodol ar y nifer o ddiffynyddion sy'n methu dod i'r llys pan ddylent. Nid yw Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cadw data o'r fath ond mae'r data am y canran o ohiriadau oherwydd gwarantau sy'n cael eu cyhoeddi'n dangos cynnydd[33] a gallai hyn fod yn adlewyrchiad o ddiffyg ymddangosiad diffynyddion yn y llys.

Yn ogystal, yn Adolygiad Peel, a weithredwyd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS), cafwyd sylwadau am yr achosion o gam-drin domestig yn gyffredinol. Roedd y gyfradd restio ar gyfer cam-drin domestig yn 2017-18 wedi gostwng ond roedd nifer y troseddau a gofnodwyd wedi cynyddu; gydag amrywiaeth eang yn y cyfraddau restio ar draws y lluoedd heddlu a gostyngiad yn y defnydd o Orchmynion Amddiffyn rhag Trais Domestig (DVPOs) a mechnïaeth cam-drin domestig. Canfu'r adolygiad hefyd achosion o gau ymchwiliadau pan nad oedd yr achwynwr yn cefnogi gweithrediad yr heddlu. Gofynnwyd i heddluoedd adolygu eu trefniadau a'u hasesiad o achwynwyr agored i niwed erbyn Medi 2018.

Er bod y gwaith ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2017-18 wedi dechrau gwyrdroi'r gostyngiad a welwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn atgyfeiriadau cam-drin domestig yr heddlu, gallai'r materion a welwyd yn Adolygiad Peel fod yn gysylltiedig â'r gostyngiad cyffredinol yn y nifer o achosion o gam-drin domestig. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu i ymdrin ymhellach â'r materion hyn.

Mae'r data a ddarperir isod yn ymwneud â'r holl ddiffynyddion y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig, a'r achwynwyr, o ba ryw bynnag oeddent, gyda rhagor o fanylion am eu rhyw lle bo ar gael.

- Parhaodd nifer yr atgyfeiriadau cam-drin domestig y codwyd fflag arnynt gan yr heddlu yn sefydlog ar 110,562 yn 2017–18, o'i gymharu ag 110,833 yn 2016–17 – gyda gostyngiad bychan yn unig o ddim ond 271 o atgyfeiriadau (0.2%). Roedd hynny'n dilyn gostyngiad o 6.0% yn 2016–17 a 4.1% yn 2015–16.

- O'r rhain, cyhuddwyd 70.3%[34] (i lawr o 71.7% yn y flwyddyn flaenorol) gan olygu bod 77,725 o unigolion dan amheuaeth wedi eu cyhuddo (sef gostyngiad o 2.1**%** ers 2016–17).[35]


- Arhosodd y nifer cyfartalog o ddyddiau hyd y cyhuddiad yn 2017–18 yn sefydlog, sef 6.6 o ddiwrnodau o'i gymharu â 6.7 diwrnod yn y flwyddyn flaenorol. Gostyngodd y nifer cyfartalog


[33] Ar gyfer cam-drin domestig, cynyddodd y nifer o warantau o 4.9% yn Ch1 2016-17 i 6.6% yn Ch4 2017-18.
[34] Yn 2017–18 cafwyd cynnydd mewn atgyfeiriadau a oedd wedi eu 'terfynu'n weinyddol' o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol (7.3% o atgyfeiriadau o'u cymharu â 4.2% yn y flwyddyn flaenorol). Mae achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am nifer o resymau. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle mae'r heddlu wedyn yn penderfynu peidio cyflwyno ffeil lawn ar gyfer penderfyniad cyhuddo, bydd y rhain yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am na chafwyd unrhyw benderfyniad cyhuddo drwy'r Prawf Cod Llawn. Mae'r cynnydd yn y nifer o achosion 'terfynu gweinyddol' yn 2017-18 wedi effeithio ar y gyfran o ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd gyhuddo').
[35] Yn 2016–17 gostyngodd y rhai a ddrwgdybiwyd o 3.3% ers y flwyddyn flaenorol.

o ddyddiau o'r cyhuddiad hyd y cwblhau, sef 86.3 diwrnod o'i gymharu ag 89.7 diwrnod yn 2016-17.

**Graff 4 (chwith): Nifer yr atgyfeiriadau gan yr Heddlu y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig o 2011–12 hyd 2017–18**

**Graff 5 (dde): Nifer a phatrwm yr erlyniadau a'r euogfarnau y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig o 2011–12 hyd 2017–18**




- Cafwyd cynnydd bach yn y gyfran o achosion y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig[36] – 16.9% yn 2017–18 ac 16.1% yn 2016–17.

**Tabl 2: Llwyth achosion y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig fel % o'r llwyth achosion cyfan o 2011–12 hyd 2017–18**

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Erlyn y Goron cenedlaethol | 8.9% | 8.9% | 10.7% | 14.1% | 16.0% | 16.1% | 16.9% |

- Cafwyd gostyngiad cyffredinol o 9.4% yn 2017–18 mewn erlyniadau yn y llys ynadon a gostyngiad o 9.3% mewn euogfarnau. I gymharu â hynny, gostyngodd yr erlyniadau y codwyd fflag arnynt fel rhai cam-drin domestig o 4.8% a'r euogfarnau o 3.9%.

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau[37] [38] a gwblhawyd o 93,590 yn 2016–17 i 89,091 yn 2017–18 – sef gostyngiad o 4,499 o ddiffynyddion (4.8%).[39] Cafodd 1.7% o erlyniadau y codwyd fflag arnynt am gam-drin hefyd eu fflagio fel treisio a chafodd 3.2% eu fflagio hefyd fel achosion o gam-drin plant.

- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 70,853 yn 2016–17 i 69,098 – sef cwymp o 2,755 o euogfarnau (3.9%).[40] Cynyddodd y gyfradd euogfarnau o 75.7% i 76.4%, sef y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed.

---

[36] Y llwyth achosion cam-drin domestig yw'r nifer o achosion o gam-drin domestig fel canran o'r holl erlyniadau llys.

[37] Mae'r nifer o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cynnwys yr achosion hynny, bob yn un a ddrwgdybir, a anfonwyd ymlaen at Wasanaeth Erlyn y Goron yn ystod 2017-18 i dderbyn penderfyniadau cyhuddo ac nid ydynt yn uniongyrchol gymaradwy mewn niferoedd gyda'r rheiny a erlynwyd sy'n cynnwys achosion, bob yn un a ddrwgdybir, a derfynwyd yn ystod 2017-18.

[38] Mae'r mwyafrif o achosion o gam-drin domestig yn cael eu cwblhau yn y llys ynadon. Yn 2017-18 cafwyd gostyngiad o 9.4% yn erlyniadau'r llys ynadon a gostyngiad o 9.3% mewn euogfarnau. O'i gymharu â hynny, gostyngodd yr erlyniadau am gam-drin domestig o 4.8% a'r euogfarnau o 3.9%.


[39] Gostyngodd yr Erlyniadau o 7.3% yn 2016–17 o'i gymharu â 2015–16.

[40] Gostyngodd yr euogfarnau o 5.8% yn 2016–17 o'i gymharu â 2015–16.

**Tabl 3: Erlyniadau y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig a gwblhawyd yn ôl y canlyniad o 2011–12 hyd 2017–18**

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 58,138 | 73.3 | 52,549 | 74.3 | 58,276 | 74.6 | 68,601 | 73.9 | 75,235 | 74.5 | 70,853 | 75.7 | 68,098 | 76.4 |
| Achosion heb euogfarn | 21,130 | 26.7 | 18,153 | 25.7 | 19,795 | 25.4 | 24,178 | 26.1 | 25,695 | 25.5 | 22,737 | 24.3 | 20,993 | 23.6 |
| **Cyfanswm** | **79,268** | | **70,702** | | **78,071** | | **92,779** | | **100,930** | | **93,590** | | **89,091** | |

**Graff 6: Nifer a chyfran yr euogfarnau y codwyd fflag arnynt fel achosion o gam-drin domestig, o 2011–12 hyd 2017–18**




- Yn 2017–18, cafwyd cynnydd bychan mewn pleon euog, allan o'r holl achosion gyda fflag cam-drin domestig a erlynwyd, gan gyrraedd 69.6% (91.0% o'r holl euogfarnau).[41]
- Cafwyd cynnydd mewn euogfarnau hefyd o 53.0 % yn 2016–17 i 54.8% yn 2017–18 o'r holl erlyniadau y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig a heriwyd mewn treial (ac eithrio pleon cymysg).[42]
- Yn 2017–18, cafodd 78,456 o achosion (88.1% o'r holl achosion y codwyd fflag arnynt fel rhai cam-drin domestig a erlynwyd) eu cwblhau o fewn y llys ynadon. O'r rhain, cafodd 76.9% eu heuogfarnu.
- Cafodd 73.1% o'r 10,635 o ddiffynyddion a erlynwyd mewn Llysoedd y Goron eu heuogfarnu.
- Mae erlyniadau a ollyngwyd wedi gostwng i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed, sef 16.7% o'r holl achosion y codwyd fflag arnynt fel rhai cam-drin domestig a erlynwyd, o 17.1% yn y flwyddyn flaenorol.

[41] Yn 2016–17, 68.7% o bleon euog allan o'r holl achosion o gam-drin domestig a erlynwyd; 90.7% o'r holl euogfarnau.
[42] 'Ac eithrio pleon cymysg' yw achosion y diffynyddion lle rhoddwyd pleon 'dieuog' yn unig ar gyfer pob cyhuddiad ac mae treial yn dilyn.

- Cafwyd gostyngiad bach o 54.0% yn 2016–17 i 53.2% yn y nifer o achosion heb euogfarn a gafwyd o ganlyniad i broblemau achwynwyr[43]. Y rheswm pennaf am hyn oedd gostyngiad yn y nifer o achwynwyr oedd heb fynychu (o 28.3% i 26.1%); ond roedd hynny yn erbyn cefndir o gynnydd bychan mewn gwrthdyniad achwynwyr, o 23.7% i 25.5%.

- Fodd bynnag, o'r *holl* achosion y codwyd fflag arnynt fel rhai cam-drin domestig a erlynwyd, gostyngodd y gyfran oedd heb eu euogfarnu oherwydd problemau achwynwyr[44] ychydig bach o 13.1% i 12.5%. Mae cefnogaeth i achwynwyr a dioddefwyr drwy'r broses llysoedd yn bwysig ar gyfer gostwng gwrthdyniadau ac mae gweithio gyda chynghorydd annibynnol ar drais domestig neu wasanaethau cymorth lleol cyfatebol yn allweddol i wella erlyniadau.

- Yn 2017-18, cyhuddwyd 960 o droseddau o ymddygiad rheoli neu orfodol a chyrhaeddodd y rhain wrandawiad cyntaf; sef cynnydd o'r 309 a gafwyd yn 2016-17. Cafodd 10.4% o'r troseddau hyn eu fflagio fel trais rhywiol.[45]

Darperir y data gwaelodol yn yr atodiad cysylltiedig Data Gwaelodol/Trais yn Erbyn Menywod. Mae data am heddluoedd a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn Atodiad 1.

# Materion cydraddoldeb

## Rhyw

- O'r 89,091 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 81,995 yn ddynion, roedd 6,987 yn fenywod ac, mewn 109 o achosion, ni chofnodwyd y rhyw.[46] Yn 2017–18, lle cofnodwyd rhyw'r diffynnydd, roedd 92.1% yn ddynion a 7.9% yn fenywod,[47] sef gostyngiad bychan mewn diffynyddion benywaidd o 8.2% yn y flwyddyn flaenorol.

- Cafodd 76.8% o ddiffynyddion gwrywaidd eu heuogfarnu (62,973) ynghyd â 72.2% o'r diffynyddion benywaidd (5,044).

- O ran y data am achwynwyr o System Rheoli Tystion Gwasanaeth Erlyn y Goron, cofnodwyd 91,129 o achwynwyr. O'r holl achwynwyr, roedd 60,266 yn fenywod, roedd 11,935 yn ddynion ac mewn 18,928 o achosion ni chofnodwyd y rhyw. Cynyddodd yr achosion o gofnodi rhyw'r achwynwyr ychydig bach o 78.6% i 79.2%.[48] Yn 2017–18 cymerwyd camau i sicrhau bod y rhywiau'n cael eu cofnodi'n fwy cadarn, ar draws ardaloedd yr heddluoedd. Lle cofnodwyd rhyw'r achwynwr, roedd 83.5% yn fenywod ac 16.5% yn ddynion.[49]

## Ethnigrwydd

[43] Mae problemau achwynwyr yn cynnwys gwrthdyniadau achwynwyr, achwynwyr yn methu mynychu pan ddylent a sefyllfaoedd lle 'nad yw tystiolaeth yr achwynwr yn cefnogi'r achos'.
[44] Yr un fath â'r troednodyn blaenorol.
[45] Rhoddir fflag 'trais rhywiol' ar ffeiliau Gwasanaeth Erlyn y Goron o gychwyniad yr achos, yn dilyn honiad cychwynnol o drais rhywiol. Bydd y fflag yma'n parhau yn ei le hyd yn oed os cymerir y penderfyniad i gyhuddo am drosedd arall heblaw trais rhywiol neu lle mae cyhuddiad o drais rhywiol yn cael ei addasu maes o alw, i sicrhau bod egwyddorion y polisi trais rhywiol a throseddau rhywiol yn cael eu gweithredu.
[46] Nid yw'n bosibl darparu data am ryw'r dioddefwr mewn perthynas â rhyw'r diffynnydd o'r systemau data cyfredol.
[47] Mae'r ffigur yn debyg os yw'n cael ei gyfrifo o'r cyfanswm, yn cynnwys pan fo'r rhyw heb ei gofnodi (92.0% o ddiffynyddion gwrywaidd a 7.8% o ddiffynyddion benywaidd).
[48] Mae Llundain yn cyfrif am 16% o ddata achwynwyr ac, yn 2017–18, ni chofnodwyd rhyw'r achwynwyr ar gyfer 81% o'i hachwynwyr. Os hepgorir y data o Lundain, mae cofnodi rhyw gan yr holl ardaloedd heddlu eraill yn codi i 90.7%.
[49] Mae'r cyfrannau yr un fath wrth hepgor data Llundain.

- Yn 2017–18, cafodd 70.1% o'r diffynyddion y codwyd fflag arnynt am achosion o gam-drin domestig eu categoreiddio fel pobl Wyn (gostyngiad o 72.5% yn 2016–17),[50] gyda 64.7% yn cael eu nodi fel pobl sy'n perthyn i'r categori Prydeinig Gwyn. Pennwyd 5.8% o'r diffynyddion fel pobl Dduon, sef gostyngiad o 6.2% yn y flwyddyn flaenorol, a phennwyd 5.6% yn Asiaidd, sef gostyngiad bychan iawn o 0.1 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.[51]

- Mae ethnigrwydd ychydig yn llai na hanner yr achwynwyr yn dal heb gael ei gofnodi ac felly nid yw'r data wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

### Oedran

- O'r diffynyddion hynny y cofnodwyd eu hoedran,[52] roedd y mwyafrif o'r diffynyddion yn 25–59 oed (77.4%) a 18–24 oed (18.4%). Roedd 20.5% o'r diffynyddion (18,271) yn 24 oed ac iau, gydag 1,839 (2.1%) o ddiffynyddion yn 14–17 oed a 108 (0.1%) yn 10–13 oed.

- O'r achwynwyr hynny y cofnodwyd eu hoedran,[53] roedd y mwyafrif yn 25–59 oed (70.0%) a 18–24 oed (19.7%). Roedd 24.2% o'r achwynwyr (20,371) yn 24 oed ac iau, gyda 2,722 (3.2%) o achwynwyr yn 14–17 oed, 845 (1.0%) yn 10–13 oed a 190 yn iau na 10 (0.2%). Cafwyd cynnydd o un flwyddyn i'r nesaf yn yr achwynwyr a gofnodwyd oedd yn hŷn na 70 oed. Yn 2017–18 cafwyd 1,710 o achwynwyr (2.0%).

## Perthnasoedd

- Nid yw cofnodion y berthynas rhwng y troseddwyr a'r achwynwr yn ddigon cadarn eto i'w hasesu. Mae'r cofnodi o fewn cronfa ddata Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi gostwng o 54.2% yn 2016–17 i 50.6% yn 2017–18.

- Erbyn diwedd 2017–18 diweddarwyd yr Arferion Gweithredu Safonol (SOPs) ar gyfer cyhuddo, llysoedd ynadon a Llysoedd y Goron i ofyn am gofnodi data am berthnasoedd mewn achosion lle codwyd fflag am gam-drin domestig. Yn ogystal, rhoddwyd cyfarwyddiadau am fewnbynnu'r data i Brif Erlynwyr y Goron a chydlynwyr trais yn erbyn menywod a merched.

[50] Roedd y gostyngiad yn adlewyrchu'r cynnydd mewn ethnigrwydd 'na chofnodwyd' yn hytrach nag unrhyw newid sylweddol yn y nifer o ddiffynyddion Duon a Lleiafrifoedd Ethnig.
[51] Roedd 6.6% o ddiffynyddion heb nodi ethnigrwydd pan gawsent eu restio (cynnydd ers 2016–17 o 1.6 pwynt canran) ac roedd 9.1% o ethnigrwydd diffynyddion heb ei ddarparu i Wasanaeth Erlyn y Goron gan yr heddlu (cynnydd ers 2016–17 o 1.5 pwynt canran).
[52] Cofnodwyd 99.8% o oedrannau diffynyddion yn 2017–18 – yn debyg i 99.7% yn 2016–17.
[53] Cofnodwyd 92.3% o oedrannau achwynwyr yn 2017–18 – cynnydd bychan o 90.7% yn 2016–17.

# Stelcio neu aflonyddu

## Cyflwyniad

Yn 2017–18 gweithiodd yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar y cyd i weithredu'r argymhellion yn arolwg thematig Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS)/Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMGEGI) ar stelcio ac aflonyddu yn 2016-17. Cyhoeddwyd protocol stelcio neu aflonyddu ar y cyd diwygiedig a rhestr wirio, yn dilyn ymgynghoriad gyda grwpiau dioddefwyr, a chafodd yr holl erlynwyr eu hyfforddi.

Roedd data am berfformiad Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos effaith bositif y gwaith ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn 2017-18 i gymryd rhagor o erlyniadau yn eu blaen am stelcio yn hytrach nag aflonyddu, lle bo'n briodol. Cafwyd cynnydd cyffredinol yn yr erlyniadau am stelcio ac aflonyddu a gychwynnwyd, gyda chynnydd sylweddol mewn achosion o stelcio.

Cafwyd cynnydd cyffredinol mewn erlyniadau a gychwynnwyd am dorri gorchmynion atal, yn enwedig am orchmynion a wnaed ar ryddfarniad. Cafwyd gostyngiad bychan mewn erlyniadau a gychwynnwyd am dorri gorchmynion i gadw rhag ymyrryd.

Cafwyd cynnydd yn y gyfran o droseddau oedd o fewn cyd-destun cam-drin domestig.

Yn 2018–19 bydd y perfformiad yn cael ei fonitro i asesu cydymffurfiad â'r protocol a'r rhestr wirio yn ogystal ag effeithiolrwydd yr hyfforddiant.

## Crynodeb o weithgarwch Gwasanaeth Erlyn y Goron

- Cyhoeddodd tîm arolygiaeth ar y cyd yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi (HMGEGI) ei ganfyddiadau '*Living in fear – the police and GEG response to harassment and stalking'* ym mis Gorffennaf 2017.

- Gweithiodd Gwasanaeth Erlyn y Goron gydag arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd i ymateb yn effeithiol i'r argymhellion a wnaed gan yr arolwg, yn cynnwys y canlynol:

  — Datblygwyd disgrifiad o'r rôl ar gyfer Pwynt Cyswllt Unigol ar Stelcio (SPOC) Gwasanaeth Erlyn y Goron ac mae holl Ardaloedd Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi penodi arweinydd mewn Stelcio ac Aflonyddu;

  — Buom yn gweithio'n agos â'r heddlu ac elusennau dioddefwyr i gyhoeddi'r rhestr wirio a'r protocol[54] stelcio neu aflonyddu diwygiedig ar y cyd yng Ngwanwyn 2018. Mae'r protocol (sy'n berthnasol erbyn hyn i achosion o aflonyddu hefyd) angen mwy o weithredu sy'n berthnasol i ofal y dioddefwr. Mae hefyd yn gofyn i heddlu ac erlynwyr, pan gyflwynir achos o stelcio neu aflonyddu iddynt, ystyried patrwm yr ymddygiad yn gyntaf a'r posibilrwydd o erlyn y stelcio.

[54] Diweddarwyd paragraff 4.2 o'r protocol ar y ffordd briodol o drin troseddau stelcio neu aflonyddu rhwng Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron: https://www.GEG.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/Stalking-and-Harassment-Protocol-2018_1.docx

— Mae'r protocol yn cynnwys disgrifiad o stelcio,[55] a fydd yn helpu heddlu ac erlynwyr i ddeall yn well beth yw stelcio a sut y gellir dangos tystiolaeth ohono.
— Yn ogystal, mae'n arwain heddlu ac erlynwyr yn benodol i ymdrin â thelerau'r gorchmynion atal mor gynnar ag sy'n bosibl.
— Adnewyddwyd y modiwlau e-ddysgu am erlyn achosion o aflonyddu neu stelcio a gorchmynion atal a chawsent eu gwneud yn orfodol i'r holl erlynwyr eu cwblhau o fewn tri mis i lansiad y protocol.
— Cynhaliwyd dosbarth meistr ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron am Bwyntiau Cyswllt Unigol Ardaloedd ar Stelcio yng ngwanwyn 2018. Darparwyd gwybodaeth allweddol gan deulu dioddefwr stelcio, arbenigwyr ar stelcio, ynghyd â'r Llinell Gymorth Stelcio Genedlaethol, er mwyn gwella perfformiad a helpu Pwyntiau Cyswllt Unigol ar Stelcio i ddatblygu cynlluniau gweithredu lleol.

- Bu Gwasanaeth Erlyn y Goron yn helpu i hyfforddi Gweithwyr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol.

- Datblygwyd cyflwyniadau ar gyfer Panelau Craffu a Chyfranogaeth Lleol er mwyn helpu aelodau'r panelau i ddeall stelcio yn well ac i ddeall sut i adolygu achosion o stelcio ac aflonyddu.

- Rydym wedi parhau i weithio gydag academyddion i ddatblygu meddalwedd i'w ddefnyddio ar ffôn, ar lechen neu ar unrhyw ddyfais electronig arall, gan alluogi achwynwyr i gofnodi tystiolaeth o stelcio neu aflonyddu'n rhwyddach.

- Derbyniodd y Bil Diogelu Stelcio 2017-19 (Bil Aelodau preifat) ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Ionawr 2018. [56] Mae'r Bil yn bwriadu cyflwyno gorchmynion diogelu stelcio newydd a fydd yn helpu i amddiffyn dioddefwyr ar y cam cynharaf posibl, yn arbennig cyn erlyniad. Mae Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref, heddlu a grwpiau dioddefwyr i ddatblygu arweiniad i gefnogi a hysbysu gweithrediad y Bil yn amodol ar dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

- Mae nifer o fentrau lleol wedi'u pennu fel arferion da drwy gydol 2017–18:

— Cynhaliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron Llundain Banel Craffu a Chyfranogaeth Lleol ar stelcio, gan drafod cynlluniau i sefydlu canolfan stelcio yr heddlu yn 2018.
— Gwnaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron y Gogledd Orllewin waith samplo ar hap o achosion yn llysoedd y Goron a'r llysoedd ynadon.
— Cynhaliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y De Ddwyrain weithdy ar stelcio gyda'r heddlu ac asiantaethau cymorth arbenigol lleol i helpu'r heddlu ac erlynwyr i ddeall yn well sut y gall stelcio ddigwydd a sut i wella diogelwch y dioddefwr.
— Bu Gwasanaeth Erlyn y Goron Mersi-Sir Gaer yn gweithio gyda heddlu Sir Gaer i sefydlu clinig i ymdrin â stelcio.
— Cynhaliodd Gwasanaeth Erlyn y Goron y De Orllewin Banel Craffu a Chyfranogaeth Lleol penodol i adolygu achosion o stelcio ac aflonyddu.

[55] Y diffiniad: 'mewn achosion o stelcio mae patrwm o ymddygiad digroeso, sefydlog ac obsesiynol sy'n ymwthiol. Gall gynnwys aflonyddu sy'n gyfatebol â stelcio neu stelcio sy'n achosi ofn trais neu frawychiad neu drallod difrifol.'
[56] Cafodd y Bil ei anfon at y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus; sy'n eistedd yn gyntaf ym mis Gorffennaf 2018.

## Y Camau Nesaf

- Byddwn yn gweithio gyda'r Coleg Plismona i adolygu eu canllawiau Arferion Proffesiynol Awdurdodedig (APP) ac i adolygu ein harweiniad cyfreithiol ein hunain yn y cyd-destun hwnnw.

- Bydd arweiniad cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron ar stelcio neu aflonyddu a gorchmynion atal yn cael eu hadnewyddu a byddent yn cynnwys astudiaethau achos ac esiamplau o arferion da i wella dealltwriaeth pobl am y gwahaniaeth rhwng stelcio ac aflonyddu. Bydd hefyd yn cynnwys manylion am brofiad y dioddefwyr gwrywaidd a'r gwasanaethau cymorth.

- Penodwyd arweinydd Dirprwy Brif Erlynydd y Goron (DCCP) i ddarparu ffocws ychwanegol ar gyfer y gwaith hwn wrth symud ymlaen.

- Byddwn yn asesu a yw'r cydymffurfiad gyda'r protocol, y rhestr wirio a'r hyfforddiant wedi gwella perfformiad.

## Data am stelcio ac aflonyddu

Yn 2017–18:[57]

- Cychwynnwyd erlyniadau ar gyfer 11,922 o droseddau stelcio ac aflonyddu yn 2017–18; gan aros yn sefydlog, gyda dim ond cynnydd bychan iawn o 33 o droseddau (0.3%) o 2016–17 pan gychwynnwyd 11,889 o erlyniadau. Roedd 73.3% yn gysylltiedig â cham-drin domestig, sef cynnydd bychan iawn o 71.0% yn 2016–17.

- Cychwynnwyd erlyniadau mewn perthynas â 8,767 o droseddau a gyhuddwyd am aflonyddu heb drais – sef gostyngiad o 5.5% o 9,276 yn 2016–17. Roedd 74.0% o'r troseddau yma'n ymwneud â cham-drin domestig.

- Cychwynnwyd 1,539 o erlyniadau am aflonyddu sy'n codi ofn trais ar bobl – sef gostyngiad o 6.9% o 1,654 yn 2016–17. Roedd 69.3% o'r troseddau hyn yn ymwneud â cham-drin domestig.

- Cychwynnwyd 1,616 o erlyniadau o dan y troseddau stelcio – sef cynnydd o 68.5% ers 2016–17 pan gychwynnodd 959 o erlyniadau; o'r rhain roedd 73.1% yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd o 64.8% yn 2016–17.

  — roedd 921 o'r troseddau hyn yn cynnwys achosi ofn/brawychu/trallod (cynnydd o 80.6% o 510 yn y flwyddyn flaenorol). Roedd 76.8% yn ymwneud â cham-drin domestig;
  
  — roedd 695 o'r troseddau hyn yn cynnwys achosi ofn trais/brawychu difrifol neu drallod (cynnydd o 54.8% o 449 yn y flwyddyn flaenorol). Roedd 78.5% o'r troseddau oedd yn cynnwys achosi ofn trais a 65.0% o'r rheiny oedd yn cynnwys brawychu neu achosi trallod difrifol yn ymwneud â cham-drin domestig.

- Cychwynnwyd 17,012 o erlyniadau am droseddau torri gorchmynion atal, sef cynnydd o 2.4% o 16,614 yn 2016–17 a'r nifer uchaf a gofnodwyd erioed. Roedd 87.2% o'r rhain yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd o 86.2% yn y flwyddyn flaenorol:

[57] Mae data am stelcio ac aflonyddu Gwasanaeth Erlyn y Goron ar gael o'r system ddata sail troseddau yn unig ac felly ni all gynnwys data am atgyfeiriadau'r heddlu, cyhuddo a chanlyniadau.

— o'r rhain, roedd 16,143 yn achosion o dorri gorchmynion atal a wnaed pan gafwyd euogfarn, sef cynnydd o 1.3% ers 2016–17. Roedd 87.4% yn ymwneud â cham-drin domestig;
— o'r holl dorri amodau, roedd 869 yn achosion o dorri gorchmynion atal a wnaed pan gafwyd rhyddfarn, sef cynnydd o 28.4% ers 2016–17. Roedd 83.7% yn ymwneud â cham-drin domestig.

- Roedd 6,266 achos o dorri gorchmynion peidio ag ymyrryd wedi cychwyn erlyniad, o'i gymharu â 6,505 yn y flwyddyn flaenorol, sef gostyngiad o 3.7%. Roedd 95.0% o'r rhain yn ymwneud â cham-drin domestig, sef cynnydd bychan o 94.8% yn 2016–17.

- Nid yw data am droseddau ar gael yn ôl rhyw'r diffynnydd neu'r achwynydd.

- Darperir ystadegau cenedlaethol swyddogol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder am euogfarnau stelcio ac aflonyddu ar gyfer y flwyddyn galendr 2017 yn Atodiad 2. Mae'r data'n amlinellu canlyniadau'r erlyniadau yn ôl y diffynnydd. Mae'n adlewyrchu patrwm data Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gyffredinol:

— Erlynwyd ac euogfarnwyd mwy o ddiffynyddion am droseddau stelcio yn 2017 nag yn y flwyddyn flaenorol;[58]
— Erlynwyd ac euogfarnwyd llai o ddiffynyddion am droseddau aflonyddu nag yn y flwyddyn flaenorol;[59]
— Cyhoeddwyd llai o orchmynion atal[60] wrth euogfarnu a rhyddfarnu yn 2017; ac
— Erlynwyd ac euogfarnwyd mwy o achosion o dorri gorchmynion a gyflwynwyd wrth euogfarnu neu ryddfarnu.[61]

**Tabl 4: Troseddau aflonyddu a stelcio a gyhuddwyd ac a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf mewn llysoedd ynadon – y nifer gyfan a'r canran o'r cyfanswm y codwyd fflag arnynt am gam-drin domestig o 2012-13 hyd 2017-18.**

| | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Nifer | % CD | Nifer | % CD | Nifer | % CD | Nifer | % CD | Nifer | % CD | Nifer | % CD |
| Deddf Cyfraith Teulu 1996 {42A(1) a (5)} | Torri gorchymyn peidio ag ymyrryd – Deddf Cyfraith Teulu 1996 | 5,563 | 79.3 | 6,498 | 85.9 | 7,013 | 89.7 | 6,672 | 93.6 | 6,505 | 94.8 | 6,266 | 95.0 |
| PHA[62] 1997 {2(1) a | Aflonyddu heb drais | 7,159 | 58.9 | 8,303 | 63.3 | 9,180 | 68.0 | 10,073 | 70.9 | 9,276 | 72.1 | 8,767 | 74.0 |

[58] Gostyngodd y gymhareb euogfarnau am droseddau adran 2A y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu, ond arhosodd y gymhareb yn sefydlog ar gyfer troseddau adran 4A.
[59] Gostyngodd y gymhareb euogfarnau am droseddau adran 2 y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu (PHA), ond arhosodd y gymhareb yn sefydlog ar gyfer troseddau adran 4.
[60] Mae ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am orchmynion atal yn ymwneud dim ond â'r sefyllfaoedd lle rhoddwyd gorchmynion atal i ddiffynyddion mewn perthynas â'u prif drosedd.
[61] Roedd y gymhareb euogfarnu ar draws yr holl erlyniadau am dorri gorchmynion atal wedi aros yn sefydlog (90%).
[62] PHA – y Ddeddf Diogelwch rhag Aflonyddu.

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (2)} | | | | | | | | | | | | | |
| PHA 1997 {4(1) a (4)} | Aflonyddu – codi ofn trais arno/arni | 1,398 | 55.4 | 1,489 | 63.9 | 1,839 | 66.6 | 1,811 | 65.7 | 1,654 | 68.3 | 1,539 | 69.3 |
| PHA 1997 {2A(1) a (4)} | Stelcio gyda chodi ofn / brawychu / trallod | 72 | 72.2 | 529 | 72.6 | 676 | 69.7 | 643 | 70.9 | 510 | 68.6 | 921 | 76.9 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b) (i) a (5)} | Stelcio yn cynnwys ofn trais | 9 | 88.9 | 65 | 75.4 | 133 | 73.7 | 128 | 67.2 | 83 | 66.3 | 172 | 78.5 |
| PHA 1997 {4A(1)(a)(b) (ii) a (5)} | Stelcio yn cynnwys brawychu / trallod difrifol | 10 | 70.0 | 149 | 55.7 | 294 | 66.0 | 331 | 61.3 | 366 | 59.0 | 523 | 65.0 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl euogfarn | 9,962 | 71.8 | 11,329 | 77.3 | 13,126 | 82.2 | 14,863 | 85.8 | 15,937 | 86.3 | 16,143 | 87.4 |
| PHA 1997 {5(5) a (6)} | Aflonyddu – torri gorchymyn atal ar ôl rhyddfarn | 313 | 70.3 | 322 | 76.1 | 433 | 77.6 | 521 | 85.2 | 677 | 82.9 | 869 | 83.7 |

# Treisio

## Cyflwyniad

Yn 2017–18 cynhaliwyd gweithdai mewn Ardaloedd i gefnogi erlyniadau effeithiol RASSO oedd yn cydymffurfio â Chod a chynhaliwyd paneli rheoli cyn-cyhuddo yn yr achosion mwyaf heriol. Hyfforddwyd erlynwyr RASSO ar dystion bregus ac achosion ieuenctid RASSO a rhoddwyd hyfforddiant diweddaru i eiriolwyr allanol RASSO.

Yn Ionawr 2018 cynhaliwyd adolygiad o holl achosion byw RASSO wedi i bryderon godi ynghylch dadleniad[63], i sicrhau bod pob trywydd ymholiad rhesymol posibl wedi eu dilyn gan yr heddlu a bod strategaethau achos clir ar ddadleniad. Cyhoeddwyd y canfyddiadau ym Mehefin 2018 a gweithredir ar yr effeithiau yn 2018–19. Cyhoeddwyd *A guide to reasonable lines of enquiry and communications evidence* ar gyfer erlynwyr yn ystod haf 2018. Bydd 'pecyn cymorth cyfryngau digidol' i gynorthwyo erlynwyr i ddeall y dechnoleg a ddefnyddir i dynnu a dadansoddi deunydd o ddyfeisiadau digidol yn cael ei ddatblygu, i helpu sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr, tystion, diffynyddion a'r cyhoedd. Ar y cyd â'r heddlu, a thrwy drafodaethau gyda grwpiau dioddefwyr a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rydym yn mynd ati hefyd i ddatblygu cyfarwyddyd ar gael cydsyniad arwyddocaol gan achwynwyr a thystion ynghylch datgelu eu data personol.

Gan dderbyn bod rhai o'r achosion mwyaf cymhsleth yn ymwneud â phobl ifanc, yn enwedig achosion o dreisio gan un a adnabyddir, arfaethir cynnal Panel Ieuenctid ar gyfer 2018–19 i hysbysu ffyrdd o wella erlyniadau sy'n mynd i'r afael â natur newidiol ymddygiadau rhywiol a chyfarfyddiadau. Bydd hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r defnydd o dechnoleg, er enghraifft apiau cadw-oed a chyfryngau cymdeithasol, a'r effaith mae hyn yn ei gael ar achosion.

## Crynodeb o weithgarwch GEG

- Cafodd gynllun ar y cyd GEG-yr heddlu National Disclosure Improvement Plan ei ddatblygu gyda'r bwriad o wella perfformiad ar ddatgeliad yn Ionawr 2018.

  Roedd y mentrau allweddol yn cynnwys:

  - Profi Dogfennau Rheoli Datgeliad mewn achosion RASSO i sicrhau bod yr amddiffyniad a'r llys yn ymwybodol o'r llinellau ymholi a gytunwyd yn ystod camau cynnar yr erlyniad.
  - Cyfarwyddyd newydd i erlynwyr ar linellau ymholi rhesymol i gefnogi trafodaethau gyda'r heddlu o gwmpas dadansoddi nifer fawr o gyfryngau digidol.
  - Pecyn cymorth cyfryngau digidol i erlynwyr.

- Yn Ionawr 2018 cynhaliodd GEG adolygiad o holl erlyniadau byw RASSO wedi i bryderon godi ynghylch y modd y trafodwyd datgeliad gan y GEG a'r heddlu, i sicrhau bod yr heddlu wedi dilyn pob trywydd ymholiad rhesymol posibl a bod strategaeth glir ar gael i sicrhau cynnal datgeliad yn effeithiol ac yn amserol. Y nodweddion cyffredin yn yr achosion a ataliwyd yn ystod cyfnod yr adolygiad hwn oedd dadansoddiad o ddeunydd cyfathrebu, gan gynnwys negeseuon testun, ffotograffau a chyfryngau cymdeithasol; materion ynghylch trafod deunydd trydydd parti a chynnydd effeithiol o'r achosion a gyhuddwyd gan y Prawf Trothwy.

[63] Mae dadleniad yn cyfeirio at ddarparu copïau i'r amddiffyniad, neu fynediad i unrhyw ddeunydd y gellid ei ystyried yn fodd o danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos y cyhuddedig. Mae'n rhan hollbwysig o dreial teg.

Cyhoeddwyd *Rape and serious sexual offence prosecutions – Assessment of disclosure of unused material ahead of trial* ym Mehefin 2018.

- Yn gynharach yn 2017–18, roedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Chynghorydd Cyfreithiol y Cyfarwyddwr wedi cyflwyno gweithdai mewn Ardaloedd i gefnogi erlyniadau effeithiol RASSO oedd yn cydymffurfio â Chod.

- Roedd fforwm cenedlaethol Penaethiaid Uned RASSO yn cyfarfod pob chwarter i rannu ac ymgynghori ar arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd.

- Cafwyd cyflwyniad pellach o raglen gefnogi lles gwobrwyedig GEG i staff RASSO staff. Erbyn diwedd 2017–18 roedd tua 600 o weithwyr RASSO a'r Uned Achosion Cymhleth wedi derbyn hyfforddiant lles.

- Lansiwyd Safonau Gwasanaeth RASSO, yn ymgorffori ymrwymiadau newydd ynghylch trosglwyddo cyngor amserol ar gyhuddo i'r heddlu. Roedd staff RASSO GEG yn dal i gael eu cefnogi gyda phecyn hyfforddiant cynhwysfawr gan gynnwys hyfforddiant ar dystion bregus ac achosion ieuenctid RASSO.

- Cyflwynwyd hyfforddiant RASSO wedi'i ddiweddaru i'r holl eiriolwyr allanol sy'n aelodau o'r Panel Treisio a Cham-drin Plant yn Rhywiol.

- Cyflwynwyd cwrs hyfforddiant peilot ar gydsyniad i eiriolwyr allanol gyda chefnogaeth Cymdeithas y Bar Trosedd.

- Roedd ardaloedd wedi gweithredu paneli rheoli achosion cyn-cyhuddo yn yr achosion mwyaf heriol, gan gynnwys achosion o dreisio gan gydnabod ac achosion â materion datgeliad cymhleth, er mwyn sicrhau mai achosion oedd yn cydymffurfio â'r Cod yn unig oedd yn mynd ymlaen a bod digon o ystyriaeth wedi ei roi i ddatblygu strategaeth achos effeithiol.

- Cwblhawyd archwiliad o a achosion o dreisio a derfynwyd er mwyn canfod mynychder a chanlyniadau ceisiadau gan yr amddiffyniad i ddangos prawf o hanes rhywiol achwynwyr yn unol ag Adran 41 YJCEA 1999. Dangosodd yr archwiliad yn y mwyafrif llethol o achosion o dreisio (92%) nad oedd unrhyw dystiolaeth bod hanes rhywiol achwynwyr wedi ei gyflwyno.

- Cyhoeddwyd dogfen ffeithiau allweddol ar erlyniadau treisio gyda'r bwriad o egluro ymagwedd GEG mewn achosion o dreisio a dileu mythau.

- Roedd GEG wedi cyfrannu i ymarfer 'at wraidd y mater' dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i archwilio'r ffactorau yn arwain at gyfraddau uchel o ledefeiriwch mewn achosion yn ymwneud â honiadau o gamdriniaeth rywiol difrifol.

- Yn 2017–18 roedd GEG wedi gweithredu cyfundrefn IQA i sicrhau ansawdd gwneud-penderfyniadau gan gyfreithwyr RASSO a sicrhau cydymffurfio â pholisïau a chyfarwyddyd GEG.

- At hyn, roedd y GEG yn rhan o'r Grŵp Monitro Cenedlaethol Treisio, dan gadeiryddiaeth HMICFRS. Ym Mai 2018, rhyddhawyd data treisio GEG o 2012–13 i 2016–17 ochr-yn-ochr â data gan yr heddlu a'r WG ar gyfer lluoedd heddlu pob ardal. Cyflwynwyd y data i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau lleol CJS i'w dadansoddi a chraffu ar y modd y delir â threisio yn eu hardal leol a mynd i'r afael â gwelliannau pellach.

- Yn 2017–18 cafodd lluoedd heddlu pob ardal y dasg o wella cofnodi data rhyw ac ethnigrwydd achwynwyr mewn achosion o dreisio. Er hyn nid yw'r cofnodi wedi gwella'n arwyddocaol felly bydd yn rhaid cymryd camau pellach yn 2018–19. Yn benodol, roedd Heddlu'r Metropolitan wedi newid eu system data ym mis Mawrth 2018, i ddechrau cofnodi gorfodol o broffil cydraddoldeb achwynwyr.[64] Gan fod 16.8% o achwynwyr treisio yn Llundain, dylai'r gwelliant hwn gael effaith gadarnhaol ar y data cyflawn yn 2018–19.

- Mae nifer o fentrau lleol wedi eu nodi fel enghreifftiau o arfer da gydol 2017–18, er enghraifft:

  — Roedd DCCP GEG Dwyrain Canolbarth Lloegr wedi cymryd rhan mewn ymgyrch gan yr heddlu lleol dan yr enw "All is not Lost", yn edrych ar y problemau o gadw tystiolaeth mewn achosion o dreisio a thueddfryd anymwybodol gan reithgorau. Cafodd hyn sylw mawr gan y cyfryngau cenedlaethol mewn dwy ffilm bwerus sydd i'w gweld ar-lein, a chynhaliwyd nifer o gyfweliadau gan gyfryngau lleol i godi ymwybyddiaeth o'r materion pwysig hyn.
  — Yn ogystal, trefnodd GEG Dwyrain Canolbarth Lloegr gynllun cysgodi bargyfreithiwr ar gyfer Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) oedd yn helpu deall proses y llys yn well ac yn egluro materion i'r achwynwyr.
  — Cynhaliodd GEG Gogledd-ddwyrain Lloegr sesiwn briffio i ISVAs ar groesholi a recordiwyd rhag blaen.
  — Cynhaliodd GEG De-ddwyrain Lloegr sesiwn amser cinio i erlynwyr ar rôl IDVAs/ISVAs yn y llys er mwyn hyrwyddo gweithio ar y cyd.
  — Roedd y Rheolwr Cynhwysiant ac Ymrwymiad Cymunedol (ICEM) ar y cyd â'r Rheolwr Newid a Sicrwydd yn Ne Ddwyrain GEG wedi hap-samplo llythyron VLU i helpu gwella cyfathrebu gydag achwynwyr.

## Y camau nesaf

- Bydd gweithredu ar adolygiad RASSO, a gyhoeddwyd ym Mehefin 2018, yn dal i gael ei gyflawni yn 2018–19.

- Bydd *A guide to reasonable lines of enquiry and communications evidence* i erlynwyr a 'phecyn cymorth cyfryngau digidol' yn cael eu lansio i gynorthwyo archwiliadau cefnogol sy'n canolbwyntio ar ac yn gymesur i'r cyfryngau digidol.

- Bydd cynllun gweithredu ar y cyd GEG a'r heddlu a lansiwyd yn 2015 yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu datblygiadau newydd sy'n wynebu ymchwilwyr ac erlynwyr RASSO.

- Bydd cyfarwyddyd cyfreithiol RASSO yn cael ei ail-lunio a'i lansio yn 2018–19, i gynnwys unrhyw ddiweddariadau.

- Trwy ymgynghori â grwpiau sy'n cefnogi dioddefwyr gwrywaidd, bydd y cyfarwyddyd yn cynnwys manylion profiadau dioddefwyr gwrywaidd i helpu herio mythau a stereoteipiau a darparu manylion gwasanaethau cefnogi i ddioddefwyr gwrywaidd.

- Byddwn hefyd yn lansio pecyn cymorth trais un-rhyw. Pwrpas y pecyn cymorth hwn yw cefnogi erlynwyr sy'n ystyried materion a all godi mewn perthynas ag achosion o drais rhywiol

[64] Yn dilyn newidiadau blaenorol mewn systemau cronfeydd data, nid oedd Llundain wedi medru cofnodi proffiliau cydraddoldeb achwynwyr. Unwaith y cafodd hyn ei ddynodi yn 2016–17 newidiwyd y system a daeth cofnodi rhyw ac ethnigrwydd achwynydd yn orfodol.

yn ymwneud ag oedolion lle mae'r achwynwr a'r un dan amheuaeth/diffynnydd o'r un rhyw neu'n drawsryweddol.

- At hyn, bydd GEG yn gweithio gydag arweinydd Treisio NSCC yn 2018–19 i fynd i'r afael â gwelliannau wrth gofnodi rhyw ac ethnigrwydd achwynwyr.
- Yn ogystal ag asesiadau rheoli achos IQA a chyflwyno achosion o dreisio, rhoddir ystyriaeth i asesiad mwy trylwyr o eiriolwyr RASSO.
- Bydd Panel Ieuenctid yn cael ei lansio i wella dealltwriaeth o natur newidiol ymddygiadau a chyfarfyddiadau rhywiol, gan gynnwys ymchwilio i ryw ar hap a rôl technoleg, er mwyn:
  - asesu'r effaith mae wedi ei gael ar erlyniadau treisio a throseddau rhyw difrifol;
  - hysbysu ymhellach ein hymagwedd mewn achosion perthnasol i sicrhau gwneud penderfyniadau teg a gwrthrychol.
- Bydd GEG yn lansio podlediad hyfforddi i erlynwyr ar y cyfreithiau'n ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth perthnasol i hanes rhywiol achwynwyr (a.41 YJCEA 1999) er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu gwrthwynebu'n gadarn pan mae'n briodol gwneud hynny.
- Mae GEG wedi cyhoeddi pecyn cymorth tystiolaeth seicolegol i erlynwyr yn gynnar yn ystod haf 2018 – (add link when on website).
- Bydd GEG yn gweithio gyda Chymdeithas y Bar Troseddol a Chyngor y Bar i sicrhau cyflwyno'r hyfforddiant GEG hanfodol ar gyfer achredu eiriolwyr allanol.
- Cyflwynir hyfforddiant ar ymdrin â thystion bregus i'r holl eiriolwyr sy'n delio gyda throseddau rhyw difrifol erbyn diwedd 2018.

## Data ynghylch treisio

Mae data GEG ar euogfarnau mewn achosion o dreisio yn cynnwys nid yn unig achosion sy'n arwain at euogfarn am dreisio, ond hefyd ar gyfer achosion a fflagiwyd yn y lle cyntaf fel treisio pan gafwyd euogfarn am drosedd amgen neu lai. Gosodir y fflag ar ffeiliau GEG o ddechrau'r achos yn dilyn honiad cychwynnol o dreisio. Bydd y fflag hon yn dal yn ei lle hyd yn oed os penderfynir cyhuddo o drosedd ar wahân i dreisio, neu lle caiff cyhuddiad o dreisio ei newid wedi hynny. Mae hyn er mwyn rheoli achosion i sicrhau bod egwyddorion polisi treisio a throseddau rhywiol yn cael eu hystyried trwy gydol hynt pob achos perthnasol. Parhaodd cywirdeb fflagio achosion ar gyfradd o 99.0% yn 2017–18 o'i gymharu â 98.4% yn 2016–17.

Mae'r data a gyflwynir isod yn berthnasol i'r *holl* ddiffynyddion treisio ac achwynwyr/dioddefwyr, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle maent ar gael. Bydd data a adroddir yma yn gorgyffwrdd â hynny yn adran Cam-drin Plant yr adroddiad yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol fel 43.8% o erlyniadau yn erbyn plant a fflagiwyd fel treisio.

Mae mesur euogfarnau gan y WG a GEG yn wahanol ac fe'u defnyddir at ddibenion gwahanol. Mae'r WG yn mesur y canlyniadau terfynol, felly ond yn cyfrif euogfarn o dreisio pan oedd yr euogfarn derfynol ar gyfer treisio yn benodol. Byddai achos a erlynwyd i ddechrau fel achos o dreisio ond a nodwyd yn y pen draw fel trosedd amgen (megis ymosodiad rhywiol llai) yn cyfrif dan y drosedd lai. I'r gwrthwyneb, mae data GEG ar euogfarnau o dreisio yn cynnwys yr holl euogfarnau a fflagiwyd o'r dechrau fel achos o dreisio, waeth beth oedd y drosedd derfynol a euogfarnwyd. Yn ogystal â hyn,

cyflwynir Ystadegau Cenedlaethol y WG ar sail y flwyddyn galendr tra bod data GEG ar sail blwyddyn ariannol.

Ceir manylion pellach ynghylch data y WG a'r gwahaniaethau rhwng y setiau data yn Atodiad 2 tudalen B11.

Amlinellodd adran VAWG yr adroddiad effaith bosibl y trefniadau newydd ar fechnïaeth cyn-cyhuddo ar nifer yr achosion cyflawn VAWG. Gall y newidiadau hyn gael effaith yn benodol ar y nifer o ddiffynyddion sy'n methu mynd i'r llys. Nid yw GEG yn cadw data o'r math hwn ond mae ein data ar y canran o ohiriadau o ganlyniad i gyflwyno gwarantau yn dangos cynnydd[65] a all adlewyrchu ar ddiffyg presenoldeb diffynyddion yn y llys.

- Yn 2017–18, roedd y nifer o atgyfeiriadau perthnasol i dreisio a fflagiwyd gan yr heddlu wedi gostwng o 6,611 yn 2016–17 i 6,012 – gostyngiad o 599 atgyfeiriad (9.1%).

- Cyhuddwyd 2,822 o'r rhai dan amheuaeth, gostyngiad mewn nifer o 849 o'r rhai dan amheuaeth a gyhuddwyd (23.1%) o 3,671 yn 2016–17. O holl atgyfeiriadau'r heddlu, cyhuddwyd 46.9% o'i gymharu â 55.5% yn 2016–17.[66]

- Cyrhaeddodd y nifer o ddiwrnodau i gyhuddo ar gyfartaledd yn 2017–18 78.0 diwrnod o 67.3 diwrnod y flwyddyn flaenorol.[67] Cynyddodd y nifer o ddiwrnodau rhwng cyhuddo a therfynu, ar gyfartaledd, i 318 diwrnod o'i gymharu â 295 diwrnod yn 2016–17.


- Mae'r gyfradd o achosion o dreisio a fflagiwyd, fel canran o'r holl erlyniadau ditiadwy-yn-unig, wedi gostwng o 15.6% yn 2016–17 i 14.2% yn 2017–18.


**Tabl 5: Llwyth achosion Llys y Goron o dreisio a fflagiwyd fel % o ganlyniadau ditiadwy yn unig 2011–12 i 2017–18.**

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GEG cenedlaethol | 9.9% | 9.8% | 11.1% | 12.8% | 13.2% | 15.6% | 14.2% |

**Graff 7 (chwith): Nifer yr atgyfeiriadau treisio a fflagiwyd gan yr heddlu 2011–12 hyd 2017–18**
**Graff 8 (y dde): Nifer a thueddiadau erlyniadau treisio a fflagiwyd ac euogfarnau 2011–12 hyd 2017–18**

[65] Cynyddodd y gwarantau mewn achosion o dreisio o 13.0% yn Ch1 2016–17 i 22.9% yn Ch4 2017–18.
[66] Yn 2017–18 cafwyd cynnydd yn yr atgyfeiriadau a gafodd eu 'terfynu'n weinyddol' o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (21.7% o atgyfeiriadau o'i gymharu ag 11.5% y flwyddyn flaenorol). Caiff achosion eu 'terfynu'n weinyddol' am sawl rheswm. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle mae'r heddlu yn penderfynu peidio cyflwyno ffeil lawn ar gyfer penderfyniad i gyhuddo, caiff y rhain eu 'terfynu'n weinyddol' oherwydd na fu penderfyniad Prawf Cod Llawn i gyhuddo. Bwriad cyflwyno proses EIA mewn achosion RASSO yw i gynorthwyo'r heddlu yn gynharach yn yr achos, fel rydym yn ei wneud mewn achosion eraill astrus, megis twyll, brawychiaeth a throseddu cyfundrefnol. Mae'r cynnydd yn y nifer o achosion sydd wedi'u 'terfynu'n weinyddol' yn 2017–18 wedi effeithio ar y gyfradd o ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd gyhuddo').
[67] Mae'r data hwn yn adrodd y nifer o ddiwrnodau calendr sydd wedi mynd heibio ar gyfartaledd ers i'r penderfyniad cyntaf gael ei geisio gan yr heddlu, i'r dyddiad pan wnaed y penderfyniad olaf i gyhuddo. Bydd y data yn cynnwys achosion lle roedd galw ar yr heddlu i gyflwyno tystiolaeth bellach cyn penderfynu cyhuddo.




## Tabl 6: Erlyniadau a gwblhawyd o achosion o dreisio a fflagiwyd yn ôl canlyniad

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 2,414 | 62.5 | 2,333 | 63.2 | 2,348 | 60.3 | 2,581 | 56.9 | 2,689 | 57.9 | 2,991 | 57.6 | 2,635 | 58.3 |
| Achosion heb euogfarn | 1,450 | 37.5 | 1,359 | 36.8 | 1,543 | 39.7 | 1,955 | 43.1 | 1,954 | 42.1 | 2,199 | 42.4 | 1,882 | 41.7 |
| **Cyfanswm** | **3,864** | | **3,692** | | **3,891** | | **4,536** | | **4,643** | | **5,190** | | **4,517** | |

- Yn 2017–18 roedd gostyngiad o 9.2% mewn erlyniadau Llys y Goron a gostyngiad o 8.0% mewn euogfarnau. Mewn cymhariaeth bu gostyngiad mewn erlyniadau achosion treisio a fflagiwyd o 13.0% ac euogfarnau o 11.9%. Fel yr amlinellwyd yn adran VAWG yr adroddiad hwn, dangosodd Adroddiad Blynyddol GEG 2017–18 y bu ‘twf enfawr mewn tystiolaeth ddigidol ac yn achos troseddau rhywiol roedd dibyniaeth drom yn aml ar ddioddefwyr agored i niwed a thystion. Mae’r ffactorau hyn yn creu heriau ychwanegol sylweddol ar gyfer rheoli achosion a bodloni cyfrifoldebau datgelu’.

- Yn 2017–18[68] gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 5,190 yn 2016–17 i 4,517 – gostyngiad o 673 erlyniad (13.0%).

- Gostyngodd euogfarnau diffynyddion mewn achosion o dreisio a fflagiwyd o 2,991 yn 2016–17 i 2,635 yn 2017–18 – gostyngiad o 356 euogfarn (11.9%).

- Cynyddodd cyfradd cyhuddiadau GEG ychydig mewn achosion o dreisio a fflagiwyd fesul 0.7ppt i 58.3% yn 2017–18, o’i gymharu â 57.6% yn 2016–17. Dylid asesu hyn yn erbyn y gostyngiad arwyddocaol yn nifer yr erlyniadau ac euogfarnau o dreisio a fflagiwyd.

- Cafwyd 33.7% ple euog o’r holl achosion o dreisio a fflagiwyd a euogfarnwyd (57.8% o’r holl euogfarnau), cynnydd o 33.3% yn 2016–17.

- Roedd 49.3% o’r holl erlyniadau o dreisio a fflagiwyd a dadleuwyd yn y treial (ac eithrio pleon cymysg)[69] eu heuogfarnu, sef cynnydd o 3.0ppt o 46.3% yn 2016–17.

[68] Noder bod y niferoedd o ddiffynyddion a gyhuddwyd yn cwmpasu’r achosion hynny, fesul yr un dan amheuaeth, a anfonwyd at GEG yn ystod 2017–18 ar gyfer penderfyniadau cyhuddo ac nid oes modd eu cymharu’n uniongyrchol mewn niferoedd gyda’r rhai a erlynwyd sydd yn cwmpasu achosion, fesul diffynnydd, a derfynwyd yn ystod 2017–18.
[69] Achosion diffynnydd ‘ac eithrio pleon cymysg’ a geir pan gyflwynir ple o ‘dieuog’ i bob cyhuddiad a bod treial yn dilyn.


- O’r holl ddiffynyddion treisio a fflagiwyd, roedd 32.9% hefyd wedi eu fflagio fel DA gyda 58.1% o ddiffynyddion yn derbyn euogfarn; roedd 43.8% wedi’u fflagio fel cam-drin plant hefyd gyda 69.1% wedi’u euogfarnu.

- O’r 960 trosedd ymddygiad rheoli ac orfodol a gyhuddwyd ac a gyrhaeddodd wrandawiad cyntaf yn 2016–17, roedd 100 wedi eu fflagio fel achosion o dreisio (10.4%).

- Mae Graff 9 yn dangos tueddiad euogfarnau GEG, yn dilyn honiad cychwynnol o dreisio, dros y saith mlynedd ddiwethaf. Roedd cynnydd yng nghyfradd euogfarnau o 2011–12, gan gyrraedd y gyfradd uchaf yn 2012–13, yn cyfateb i ostyngiad yn y nifer o euogfarnau i’r lefel isaf ers 2009–10.[70]

- O ddata GEG 2017–18, roedd 4,328 (98.0%) o achosion a fflagiwyd fel treisio i ddechrau wedi eu herlyn yn y pen draw am y prif gategorïau trosedd sef ‘troseddau rhywiol, gan gynnwys treisio’ neu’r prif droseddau difrifol eraill[71] o ‘ddynladdiad’ neu ‘troseddau yn erbyn y person’. O’r rhain, roedd 3,598 ar gyfer troseddau rhywiol gan gynnwys treisio; pump ar gyfer dynladdiad a 725 ar gyfer troseddau yn erbyn y person. Mae 'Troseddau yn erbyn y person' yn gategori eang ac mae'n cynnwys troseddau difrifol iawn fel Niwed Corfforol Difrifol gyda bwriad i droseddau llai megis ymosodiad cyffredin.

**Graff 9: Cyfraddau euogfarnau treisio a fflagiwyd 2011–12 i 2017–18**




- Cynyddodd yr erlyniadau a ollyngwyd o 12.4% yn 2016–17 o’r holl achosion o dreisio a erlynwyd i 14.6% yn 2017–18.

- O’r holl achosion heb euogfarn, roedd y rhai a gododd o broblemau achwynwyr[72] wedi gostwng ychydig i 16.2% yn 2017–18 (o’i  gymharu ag 16.8% yn 2016–17); o’r rhain roedd 9.8% oherwydd gwrthdyniad achwynydd. O’r holl achosion o dreisio a fflagiwyd ac a euogfarnwyd, roedd y gyfradd oedd heb eu heuogfarnu oherwydd problemau achwynwyr wedi gostwng ychydig i 6.7% yn 2017–18 o 7.1% yn 2016–17.

[70] Dangosodd data o 2009-10 gyfanswm o 2,270 o euogfarnau. Mae tablau ar gael mewn Adroddiadau VAWG GEG blaenorol https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/publications/vawg_2016_2017_tables.xlsx
[71] Categori prif drosedd GEG: caiff troseddau a gyhuddir eu dosbarthu i un o ddeuddeg categori o drosedd i ddynodi math a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddygir yn erbyn y diffynnydd. Mae’r Categori Prif Drosedd yn nodi’r drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd ohoni adeg y terfynu. Trefn ‘difrifoldeb’ y prif droseddau allweddol yw: dynladdiad; troseddau yn erbyn y person, troseddau rhywiol. Mae hyn er mwyn bod yn gydnaws â dull y WG o flaenoriaethu categorïau troseddau.
[72] Mae achosion heb euogfarn oherwydd materion gan achwynwyr yn cynnwys y rhai hynny sy’n codi o wrthdyniad achwynydd; peidio â bod yn bresennol neu lle nad yw tystiolaeth yr achwynydd yn cefnogi’r achos.

- O'r holl ganlyniadau heb euogfarn mewn achosion o dreisio a fflagiwyd, mae'r gyfradd sy'n deillio o ryddfarn gan y rheithgor wedi gostwng fesul 4.5ppt o 62.3% yn 2016–17 i 57.8% yn 2017–18.

Ceir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig yn Data Gwaelodol/Trais yn erbyn Menywod. Ceir data Ardal GEG a lluoedd yr heddlu yn Atodiad 1.

# Materion cydraddoldeb

## Rhyw

- O'r 4,517 diffynnydd a erlynwyd, roedd 4,423 yn wrywaidd, 83 yn fenywaidd ac ni chofnodwyd y rhyw ar gyfer 11 o'r diffynyddion.[73] Lle cofnodwyd rhyw'r diffynnydd roedd 98.2% yn wrywaidd ac 1.8% yn fenywaidd,[74] sef cynnydd yn y nifer o ddiffynyddion benywaidd[75] o 1.2% llynedd.

- Cafodd 58.3% o ddiffynyddion gwrywaidd eu heuogfarnu (2,578) a 65.1% o ddiffynyddion benywaidd (54).

- Ynghylch data achwynwyr, o'r System Reoli Tystion, cofnodwyd 6,234 ohonynt. O'r holl achwynwyr roedd 4,067 yn fenywaidd, roedd 560 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd y rhyw ar gyfer 1,607 o achwynwyr. Roedd cofnodi rhyw'r achwynydd ar 74.2% wedi gostwng o 75.1% yn 2016–17.[76] Lle cafodd rhyw'r achwynydd ei gofnodi, roedd 87.9% yn fenywaidd a 12.1% yn wrywaidd.[77]

## Ethnigrwydd

- Yn 2017–18, roedd 57.8% o ddiffynyddion wedi eu categoreiddio fel Gwyn, ac o'r rhain roedd 51.7% wedi nodi eu bod yn perthyn i gategori Gwyn Prydeinig. Nodwyd bod 6.5% o ddiffynyddion o dras Asiaidd – cynnydd o 0.7ppt o 2015–16, a 9.3% wedi eu nodi fel Du – gostyngiad o 0.4ppt.[78] Mae 58.5% o ethnigrwydd achwynydd yn dal heb ei gofnodi, er bod hyn ychydig yn well na 2016–17; felly nid yw'r data wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn.

## Oedran

- Ymhlith y diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[79] roedd y mwyafrif yn 25–59 (62.0%) oed, a 18–24 (21.1%), roedd 27.9% o ddiffynyddion (1,257) yn 24 neu'n iau, gyda 274 (6.1%) o ddiffynyddion yn 14–17 oed a 35 (0.8%) yn 10–13 oed.

- O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[80] roedd y grŵp mwyaf o achwynwyr yn 25–59 (45.5%) oed a 18–24 (24.7%). Roedd 52.8% o achwynwyr (2,811) yn 24 oed neu'n iau, gydag

[73] Nid yw'n bosibl cyflwyno data ar ryw'r dioddefwyr mewn perthynas â rhyw'r diffynnydd o'r systemau data cyfredol.
[74] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrif o'r cyfanswm, gan gynnwys rhyw nas cofnodwyd (98.5% diffynnydd gwrywaidd ac 1.4% diffynnydd benywaidd).
[75] Erlynir diffynyddion benywaidd am helpu, annog a chynllwynio.
[76] Mae Llundain yn cyfrif am 16.8% o'r data achwynwyr ac yn 2017–18 ni chafodd rhyw achwynwyr ei gofnodi ar gyfer 79% o achwynwyr. Os caiff data o Lundain ei hepgor, mae cofnodi rhyw gan bob ardal heddlu arall yn codi i 85.0%.
[77] Ac eithrio data Llundain, cafwyd 87.8% o achwynwyr benywaidd a 12.2% o achwynwyr gwrywaidd.
[78] Roedd data ethnigrwydd 9.7% heb ei ddarparu gan yr heddlu yn 2017–18 (gostyngiad ers 2016–17 o 2.7ppt) a 13.5% heb ei nodi gan y diffynnydd (cynnydd ers 2016–17 o 1.0ppt).
[79] Cofnodwyd oedran 99.6% o ddiffynyddion yn 2017–18 – yn ddigon tebyg i 99.5% yn 2016–17.
[80] Cofnodwyd oedran 85.5% o achwynwyr yn 2017–18, cynnydd o 80.2% yn 2016–17.

1,059 (19.9%) o achwynwyr yn 14–17 oed, 370 (6.9%) yn 10–13 a 67 (1.3%) dan 10. O'r holl achwynwyr gwrywaidd [81] roedd cyfradd uwch dan 14 oed o'i gymharu ag achwynwyr benywaidd. O'r holl achwynwyr benywaidd roedd cyfradd uwch yn 14–24 oed, o'i gymharu ag achwynwyr gwrywaidd.

# Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

## Cyflwyniad

Yn 2017–18, roedd nifer yr erlyniadau ac euogfarnau am droseddau rhywiol (ac eithrio treisio) wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol, gyda chynnydd yng nghyfradd yr euogfarnau, gan gynnwys y gyfradd euogfarnu yn dilyn treial.

## Crynodeb o weithgarwch GEG

- Yn ystod 2017–18 roedd y defnydd o'r cynllun peilot croesholi pob tyst agored i niwed trwy fideo cyn-treial wedi parhau yn Llysoedd y Goron Leeds, Lerpwl a Kingston-Upon-Thames. Mae cyflwyno cenedlaethol o'r cynllun peilot, dan arweiniad y WG, wedi ei oedi oherwydd pryderon gyda'r datrysiad TG, sef problemau arwyddocaol gydag ansawdd y recordiadau prawf. Mae'r GEG wedi ymrwymo'n llwyr i weithredu'n genedlaethol a maent yn gweithio'n agos iawn gyda'r holl bartneriaid CJS i sicrhau ei fod yn cael ei gyflwyno.

- Roedd LSIPs Trosedd Rywiol Ardal GEG yn cynnwys mynd i'r afael â chyfathrebu gydag achwynwyr a dioddefwyr.

## Y camau nesaf

- Mae'r gwaith a amlinellir yn adran Treisio yr adroddiad – y gwaith cyfredol a'r camau nesaf fel ei gilydd – yn berthnasol hefyd i droseddau rhywiol difrifol, ac eithrio treisio.

- Bydd GEG yn parhau i ymrwymo gyda phartneriaid CJS ar gyfer cyflwyno'r defnydd o groesholi achwynwyr trwy fideo cyn-treial yn 2018–19.

- Bydd cyfarwyddyd cyfreithiol ar gyfer erlynwyr a'r hyb gwybodaeth yn cael eu diweddaru, fel yn adran Treisio'r adroddiad.

## Data ynghylch troseddau rhywiol (ac eithrio treisio)

Nid yw cofnodion GEG yn cynnwys data perthnasol i benderfyniadau cyn-cyhuddo yn ymwneud â throseddau rhywiol (ac eithrio treisio), fel y prif gategori trosedd o 'troseddau rhywiol', sy'n cynnwys treisio a'r holl droseddau rhywiol, ond yn cael ei neilltuo i achosion ar derfyn gweithgarwch erlyn. [82] Mae data a gyflwynir isod yn berthnasol i *holl* ddiffynyddion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio),

[81] O'r holl achwynwyr y cofnodwyd eu hoedran a'u rhyw.

[82] Mae data troseddau rhywiol GEG (ac eithrio treisio) yn deillio o'r categori prif drosedd 'troseddau rhywiol' trwy eithrio'r diffynyddion treisio a fflagiwyd. Nid oes fflag fonitro ar wahân ar gyfer 'troseddau rhywiol' a ddefnyddir, naill ai pan fydd GEG yn derbyn cais i wneud penderfyniad cyn-cyhuddo neu pan yn derbyn ffeil achos y cyhuddiad. Clustnodir y brif drosedd ar derfyn achos erlyniad yn unig, ar sail y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddir y diffynnydd ohono adeg y terfynu.

gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle mae ar gael.[83] Bydd data a adroddir yma yn gorgyffwrdd â hynny yn adran Cam-drin Plant yr adroddiad perthnasol i gam-drin plant yn rhywiol, gan fod 38.5% o droseddau rhywiol wedi eu cyflawni yn erbyn plant.

- Yn 2017–18, roedd nifer erlyniadau'r troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) a gwblhawyd wedi gostwng i 12,005 o 13,490 yn 2016–17 – gostyngiad o 1,485 diffynnydd (11.0%).

- O'r holl ddiffynyddion troseddau rhywiol (ac eithrio treisio), fflagiwyd 38.5% hefyd fel cam-drin plant, gyda 79.3% wedi eu heuogfarnu.

- Roedd cyfradd llwyth achos GEG a briodolwyd i droseddau rhywiol (ac eithrio treisio) wedi parhau ar 2.3% yn 2017–18.

**Tabl 7: Llwyth achos troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) fel % o'r llwyth achos cyfan o 2011–12 i 2017–18**

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GEG cenedlaethol | 0.9% | 1.0% | 1.2% | 1.5% | 1.9% | 2.3% | 2.3% |

**Tabl 8: Euogfarnau troseddau rhywiol a gwblhawyd (ac eithrio treisio) yn ôl canlyniad**

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 6,308 | 75.7 | 5,971 | 76.8 | 6,756 | 79.0 | 7,591 | 77.5 | 9,351 | 78.0 | 10,721 | 79.5 | 9,654 | 80.4 |
| Achosion heb euogfarn | 2,026 | 24.3 | 1,800 | 23.2 | 1,798 | 21.0 | 2,198 | 22.5 | 2,644 | 22.0 | 2,769 | 20.5 | 2,351 | 19.6 |
| **Cyfanswm** | **8,334** | | **7,771** | | **8,554** | | **9,789** | | **11,995** | | **13,490** | | **12,005** | |

- Roedd nifer yr euogfarnau wedi gostwng o 10,721 yn 2016–17 i 9,654 – gostyngiad o 1,067 (10.0%). Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 79.5% yn 2016–17 i 80.4% – y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed

- Cafwyd 68.4% ple euog o'r holl euogfarnau troseddau rhywiol, ac eithrio treisio, (85.0% o'r holl euogfarnau).

- Cafodd 53.2% o'r holl erlyniadau a dadleuwyd yn y treial, (ac eithrio pleon cymysg[84]) eu heuogfarnu, sef cynnydd o 3.8ppt o 49.4% ers 2016–17.


- Roedd yr erlyniadau a ollyngwyd wedi parhau ar y lefel isaf a gofnodwyd – 8.4% o'r holl achosion a erlynwyd.

- O'r holl ganlyniadau heb euogfarn, roedd y rhai hynny oherwydd materion achwynwyr wedi gostwng o 14.3% yn 2016–17 i 12.8% yn 2017–18; roedd 7.5% o'r rhain oherwydd gwrthdyniad achwynydd.

[83] Cesglir data am achwynwyr o'r Gwasanaeth Rheoli Tystion nad yw'n cynnwys cofnod o achwynwyr y troseddau rhywiol, ac eithrio treisio, gan fod yr wybodaeth honno ond yn cael ei chasglu ar lefel y diffynnydd.
[84] Achosion diffynnydd lle cynigir ple o 'dieuog' i bob cyhuddiad a bod treial yn dilyn yw 'ac eithrio pleon cymysg'.

- O'r holl ganlyniadau heb euogfarn mewn erlyniadau troseddau rhywiol, ac eithrio treisio, mae'r gyfradd sy'n codi o ganlyniad i ryddfarnau rheithgor wedi gostwng fesul 0.8ppt o 43.0% yn 2016–17 i 42.2% yn 2017–18.

**Graff 10: Troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) 2011–12 i 2017–18**




Ceir y data sylfaenol yn yr atodiad cysylltiedig yn Data Gwaelodol/Trais yn erbyn Menywod. Ceir data GEG a lluoedd ardaloedd yr heddlu yn Atodiad 1.

# Materion cydraddoldeb

Daw'r data ar achwynwyr o'r Gwasanaeth Rheoli Tystion nad yw'n cofnodi data perthnasol i achwynwyr am droseddau rhywiol, ac eithrio treisio.

## Rhyw

- O'r 12,005 o ddiffynyddion a erlynwyd, roedd 11,665 yn wrywaidd , 317 yn fenywaidd a'r rhyw heb ei gofnodi ar gyfer 23 diffynnydd. Lle cofnodwyd rhyw'r diffynnydd roedd 97.4% yn wrywaidd a 2.6% yn fenywaidd.[85]

- Cafodd 80.6% o'r diffynyddion gwrywaidd euogfarn (9,402) a 74.4% o'r diffynyddion benywaidd (236).

## Ethnigrwydd

- Yn 2017–18, roedd 62.2% o ddiffynyddion a gafodd euogfarn am drosedd rywiol (ac eithrio treisio) wedi eu nodi fel Gwyn (gostyngiad o 2016–17); roedd 56.3% wedi nodi eu bod yn perthyn i gategori Gwyn Prydeinig.[86] [87] Nodwyd bod 6.1% o ddiffynyddion o dras Asiaidd (0.2

[85] Mae'r ffigwr yn debyg os caiff ei gyfrif o'r cyfanswm, gan gynnwys rhyw heb ei gofnodi (97.2% diffynnydd gwrywaidd a 2.6% o ddiffynyddion benywaidd).
[86] Roedd y gostyngiad yn dangos y cynnydd mewn ethnigrwydd 'heb ei gofnodi ' yn hytrach nag unrhyw newid sylweddol yn nifer y diffynyddion BAME.

ppt yn fwy na'r flwyddyn flaenorol) a 5.6% wedi'u nodi fel Du (yr un nifer â'r flwyddyn flaenorol).

**Oedran**

- O'r diffynyddion y cofnodwyd eu hoedran,[88] roedd y mwyafrif yn 25–59 (69.5%) oed a 18–24 (13.7%). Roedd 16.9% o ddiffynyddion (2,028) yn 24 oed neu'n iau, gyda 2.8% o ddiffynyddion (341) yn 14–17 oed a 0.3% (41) yn 10–13 oed.

# Trais yr hyn a elwir 'ar sail anrhydedd', priodasau dan orfod ac Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)

## Yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' a phriodasau dan orfod

## Cyflwyniad

Roedd Gweithgor GEG ar yr hyn a elwir yn 'drais ar sail anrhydedd' (HBV) a phriodasau dan orfod (FM), gyda sefydliadau arbenigol, wedi datblygu a helpu cyflwyno hyfforddiant yn ystod 2017–18.

Bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau FM a fflagiwyd, diffynyddion a gyhuddwyd ac erlyniadau yn 2017–18, gyda chynnydd yn nifer yr euogfarnau. Bu gostyngiad yn yr atgyfeiriadau HBV a fflagiwyd, diffynyddion a gyhuddwyd, erlyniadau ac euogfarnau yn 2017–18.[89]

Bydd grŵp ffocws ar y cyd rhwng yr heddlu, GEG, HBV, FM a FGM yn gwthio i gael gwelliannau parhaus yn yr ymdriniaeth o'r achosion hyn a lefel uwch o gefnogaeth i achwynwyr, dioddefwyr a thystion. Bydd y grŵp yn adolygu adborth i adeiladu ar gyfarwyddyd a hyfforddiant GEG, yn ogystal â monitro achosion a derfynwyd i sicrhau bod gwersi wedi eu dysgu ac arferion gorau yn cael eu rhannu.

## Crynodeb o weithgarwch GEG ar yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' a phriodasau dan orfod

- Cyflwynwyd dosbarth meistr HBV ac FM i holl Arweinwyr HBV a FM Ardaloedd GEG yn Rhagfyr 2017 ac mae'n cael ei rannu'n lleol yn 2018–19. Defnyddiodd astudiaethau achos i ymchwilio i gyd-destun troseddu, gweithio gyda phartneriaid, monitro a chydymffurfiaeth.

[87] Roedd ychydig dros 13% o ddiffynyddion heb ddatgan eu hethnigrwydd wrth gael eu harestio (cynnydd ers 2016–17 o 0.5 ppt) ac ethnigrwydd ychydig dros 10% o ddiffynyddion heb ei ddarparu ar gyfer GEG gan yr heddlu (cynnydd ers 2016–17 o 2.1 ppt).
[88] Cofnodwyd oedran 99.9% o ddiffynyddion yn 2017–18 – sy'n debyg i 99.7% yn 2016–17.
[89] Mae achosion FM a HBV wedi'u fflagio.

- Datblygwyd y dosbarth meistr yn fideo hyfforddi HBV, FM ac FGM ac mae ar gael ar y coleg erlyniad. Amlygwyd pwysigrwydd gwaith partneriaeth ac roedd y fideo wedi cynnwys yr heddlu, GEG, y trydydd sector a'r Uned Priodasau dan Orfod (FMU).

- Diweddarwyd protocol HBV ac FM a chyfarwyddyd cyfreithiol. Cafodd profiadau dioddefwyr gwrywaidd eu cynnwys yn y cyfarwyddyd cyfreithiol a'r hyfforddiant, i helpu herio'r mythau a'r stereoteipiau a darparu manylion unrhyw wasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

- Mae nifer o fentrau lleol wedi eu nodi fel arfer da trwy gydol 2017–18, er enghraifft:

    - Mae GEG Gogledd Llundain[90] wedi cyflwyno hyfforddiant ar DA, gan gynnwys HBV ac FM i holl gyfreithwyr Llysoedd y Goron; yn ogystal, mae erlynwyr wedi eu hyfforddi ar faterion tueddfryd ac amrywiaeth a chynhaliwyd LSIP ar faterion HBV.
    - Yn Ngogledd-Ddwyrain Lloegr, cefnogir Prosiect Halo GEG lleol gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.
    - Mae GEG Gogledd Orllewin Lloegr yn gweithio gyda chynghorydd arbenigol ar HBV ac FM ac mae dau IDVA arbenigol wedi eu cyllido gan Swyddfa'r Maer; maent hefyd wedi darparu hyfforddiant i weithwyr cymdeithasol ar reolaeth cymhellol a HBV.
    - Mae GEG Tafwys a Chiltern yn rhan o is-grŵp HBV, yn darparu hyfforddiant i atgyfnerthu ymatebion rheng flaen pan gaiff gweithwyr meddygol proffesiynol weld anafiadau.
    - Mae GEG Swydd Efrog a Glannau Humber yn cysylltu gyda Phrifysgol Manceinion sydd yn gwneud ymchwil yng Ngorllewin Swydd Efrog i nodi ac ymdrin ag achosion o HBV yn gynnar.

## Y camau nesaf

- Mae Grŵp Ffocws heddlu, GEG HBV, FM a FGM yn monitro'r adborth oddi wrth y Dosbarthiadau Meistr HBV ac FM cenedlaethol a lleol i adeiladu ar yr hyfforddiant hwn a dynodi anghenion hyfforddiant y dyfodol.

- Bydd y Grŵp Ffocws HBV, FM ac FGM ar y cyd yn adolygu data chwarterol oddi wrth Arweinwyr Ardal GEG HBV ac FM er mwyn monitro perfformiad yn rheolaidd, gan ddynodi unrhyw gyfleoedd hyfforddiant neu addysgu a chadw fyny gyda thueddiadau newydd a datblygol.

- Bydd cronfa ddata genedlaethol o ddogfennau HBV ac FM yn cael ei chreu i gynorthwyo erlynwyr.

- Cynhelir adolygiad ffeil achos euogfarnau a nodwyd dan y drosedd benodol o FM[91] yn ystod 2018–19. Bydd yr adolygiad yn canfod pam y cafwyd euogfarn yn yr achosion hyn ac yn rhannu arferion gorau ar draws y gwasanaeth. Y bwriad yw cynhyrchu adroddiad penodol fydd yn ffurfio sail pecyn cymorth/cyfarwyddyd arfer gorau i erlynwyr.

## Data ar drais yr hyn a elwir 'ar sail anrhydedd'

[90] Yn 2017, roedd GEG Llundain wedi ei rannu'n Gogledd Llundain a De Llundain
[91] Cafwyd dwy euogfarn yn ystod 2018–19, ar ôl cyfnod yr adroddiad hwn.

Ardaloedd GEG oedd wedi erlyn y nifer uchaf o erlyniadau HBV ac FM oedd Llundain, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr, Gorllewin Canolbarth Lloegr a swydd Efrog a Glannau Humber.

Mae'r data isod yn berthnasol i'r holl achosion a fflagiwyd fel HBV. Mae'n berthnasol i'r *holl* ddiffynyddion ac achwynwyr, waeth beth eu rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle mae ar gael. Mae'r nifer fechan o achosion yn dangos yr angen i fod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn mewn perthynas â'r troseddau hyn.

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu a fflagiwyd fel troseddau perthnasol i HBV o 200 yn 2016–17 i 145 yn 2017–18. Cyhuddwyd 79 (54.5% o bob atgyfeiriad), gostyngiad o 136 (68.0% o bob atgyfeiriad)[92] yn 2016–17.

## Tabl 9: Erlyniadau HBV a fflagiwyd ac a gwblhawyd fesul canlyniad, 2012–13 i 2017–18

| | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 123 | 59.7 | 129 | 57.3% | 91 | 50.0 | 90 | 52.6% | 71 | 55.9% | 126 | 63.0 |
| Achosion heb euogfarn | 83 | 40.3 | 96 | 42.7% | 91 | 50.0 | 81 | 47.4% | 56 | 44.1% | 74 | 37.0 |
| **Cyfanswm** | **200** | | **206** | | **225** | | **182** | | **171** | | **127** | |

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd o 171 yn 2016–17 i 127 yn 2017–18. O'r 127 diffynnydd a erlynwyd, roedd 115 yn wrywaidd  (90.6%) a 12 o'r diffynyddion yn fenywaidd (9.4%). Roedd 89.0% wedi eu fflagio hefyd fel DA.

- Cofnodwyd 122 achwynydd yn y System Rheoli Tystion. O'r holl achwynwyr, roedd 61 yn fenywaidd, 27 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 34 achwynydd. Cofnodwyd rhyw 72.1% o achwynwyr yn 2017–18 – gostyngiad ers y flwyddyn flaenorol o 75.4%. Lle cafodd rhyw'r achwynydd ei gofnodi, roedd 69.3% yn fenywaidd a 30.7% yn wrywaidd.

- Gostyngodd nifer yr euogfarnau o 90 yn 2016–17 i 71 yn 2017–18. Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 52.6% i 55.9%.[93]

- Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gollwyd o 61 yn 2016–17 i 45 yn 2017–18.

- Bu gostyngiad yn y nifer o ganlyniadau heb euogfarn oherwydd materion achwynwyr (41 yn 2016–17 i 26 yn 2017–18).

---

[92] Yn 2017–18 bu cynnydd mewn atgyfeiriadau a gafodd eu 'terfynu'n weinyddol' o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (17.2% o atgyfeiriadau o'i gymharu â 3.5% y flwyddyn flaenorol; fodd bynnag, roedd y niferoedd yn isel – 25 o'i gymharu â saith). Bydd achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am sawl rheswm. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle mae'r heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil gyfan ar gyfer penderfyniad cyhuddo, caiff y rhain eu 'terfynu'n weinyddol' oherwydd ni fu penderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Cafodd y cynnydd yn y nifer o achosion gafodd eu 'terfynu'n weinyddol' yn 2017–18 effaith ar y gyfradd o ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd gyhuddo').

[93] Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn gan fod y niferoedd yn isel.

# Data priodasau dan orfod

Mae'r data isod yn cynnwys yr holl achosion a fflagiwyd fel 'Priodas dan Orfod', nid yn unig y rhai hynny oedd yn berthnasol i ddeddfwriaeth Priodas dan Orfod a gyflwynwyd yn 2014.

Mae'r data isod yn berthnasol i'r *holl* ddiffynyddion ac achwynwyr, waeth beth fo'u rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle mae ar gael. Mae'r nifer fechan o achosion yn dangos yr angen i fod yn ofalus wrth ddehongli'r data hwn mewn perthynas â'r troseddau a nodir isod.

- Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau FM a fflagiwyd gan yr heddlu o 56 yn 2016–17 i 71 yn 2017–18, gyda chynnydd cyfatebol yn y nifer o'r rhai dan amheuaeth a gyhuddwyd o 36 i 45.
- Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau a gwblhawyd o 44 yn 2016–17 i 50 yn 2017–18. Cafodd 49 o'r achosion o FM a fflagiwyd eu fflagio hefyd fel DA yn 2017–18.[94]
- Roedd 44 diffynnydd yn wrywaidd a chwech yn fenywaidd; roedd 23 achwynydd benywaidd a thri gwrywaidd (gyda rhyw nas cofnodwyd ar gyfer 12 o'r achwynwyr).
- Cynyddodd nifer yr euogfarnau[95] o 32 yn 2016–17 i 37 yn 2017–18. Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 72.7% yn 2016–17 i 74.0% yn 2017–18.

**Tabl 10: Erlyniadau FM a fflagiwyd ac a gwblhawyd fesul canlyniad, 2012–13 i 2017–18**

| | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 29 | 70.7% | 32 | 71.1% | 29 | 63.0% | 32 | 60.4% | 32 | 72.7% | 37 | 74.0% |
| Achosion heb euogfarn | 12 | 29.3% | 13 | 28.9% | 17 | 37.0% | 21 | 39.6% | 12 | 27.3% | 13 | 26.0% |
| **Cyfanswm** | **41** | | **45** | | **46** | | **53** | | **44** | | **50** | |

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a ollyngwyd o ddeg yn 2016–17 i saith yn 2017–18.
- O'r holl ganlyniadau heb euogfarn, gostyngodd y rhai o ganlyniad i faterion achwynwyr o chwe achos yn 2016–17 i bump yn 2017–18.
- Cyhuddwyd pum trosedd benodol FM dan a.121 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlismona 2014.
- Cyhuddwyd chwe throsedd o dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod (FMPO).

[94] Caiff achosion Priodas dan Orfod eu fflagio fel FM a DA pan yw'r diffynnydd yn aelod o'r teulu, yn ôl diffiniad y DA. Os yw'r achosion ond yn cynnwys diffynyddion o'r tu allan i'r teulu, byddant ond yn cael eu fflagio fel FM.
[95] Ar hyn o bryd nid yw data ar ganlyniadau euogfarnau am FM yn cael eu dynodi yn ôl rhyw'r diffynyddion.

# Anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM)

## Crynodeb o weithgarwch GEG ar FGM

- Cynhaliwyd Telegynadledda misol gydag Arweinwyr FGM Ardal GEG i dynnu sylw'r Pencadlys at unrhyw achosion, i rannu arferion gorau a thrafod unrhyw wersi a ddysgwyd.

- Diweddarwyd protocol ar y cyd yr heddlu â GEG ynghylch FGM yn 2017–18 i ystyried:

  — Hysbysu am a monitro trefniadau;
  — Mesurau amddiffyn dioddefwyr, gan gynnwys diogelu ac anhysbysedd;
  — Angen am archwiliad arbenigol a thystiolaeth; a
  — Gorchmynion Amddiffyn FGM.

- Datblygwyd fideo hyfforddiant HBV, FM ac FGM ac mae ar gael ar y coleg erlyniad. Amlygodd yr adnodd hwn bwysigrwydd gwaith partneriaeth ac roedd y fideo wedi cynnwys yr heddlu, GEG, y trydydd sector a'r FMU.

- Cafodd templed arferion gorau ei greu a'i ddosbarthu i Arweinwyr FGM Ardal GEG i'w harwain pan yn crynhoi cyngor ar gyhuddo ar gyfer y Cyfarwyddwr. Mae'n crynhoi'r achos a'r dystiolaeth, y fframwaith gyfreithiol a'r camau tystiolaethol a buddiant y cyhoedd yn yr achos.

- Ehangwyd y Gweithgor HBV ac FM i ystyried materion perthnasol i FGM.

- Mae nifer o fentrau lleol wedi eu nodi fel enghreifftiau o arfer da gydol 2017–18, er enghraifft:

  — Roedd GEG Cymru wedi cefnogi sefydlu clinig peilot cyntaf arbenigol FGM Cymru.
  — Roedd GEG Swydd Efrog a Glannau Humber wedi ymwneud â digwyddiad FGM yn 2018.
  — Roedd Arweinydd FGM GEG Tafwys a Chiltern wedi cyflwyno sesiwn hyfforddiant i'r heddlu ar eu diwrnod hyfforddiant FGM.

## Y camau nesaf

- Mae cyfarwyddyd cyfreithiol a pholisi ar yr ymagwedd i'w defnyddio mewn achosion o lawdriniaeth cosmetig organau cenhedlu benywod yn cael eu datblygu.

- Bydd cronfa ddata genedlaethol o ddogfennau FGM yn cael ei chreu i gynorthwyo erlynwyr.

- Bydd y Grŵp Ffocws HBV, FM ac FGM ar y cyd yn adolygu data chwarterol oddi wrth Arweinwyr Ardal GEG HBV a FM er mwyn monitro perfformiad yn rheolaidd, gan ddynodi unrhyw gyfleoedd hyfforddiant neu addysgu a chadw fyny gyda thueddiadau newydd a datblygol.

## Data FGM

- Nid yw GEG yn coladu ystadegau ffurfiol mewn perthynas â FGM. Rydym yn cadw cofnod llaw ynghylch gwybodaeth FGM. Mae'r cofnod llaw yn dangos bod nifer yr atgyfeiriadau yn 36 ers i ni ddechrau cofnodi yn 2010.

- O’r rhain, mae’r cofnod llaw yn dangos nad oedd 33 o’r atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan GEG wedi mynd ymlaen i gael eu cyhuddo gan nad oedd digon o dystiolaeth i ddarparu rhagolwg realistig o euogfarn.

- O’r tri achos oedd yn weddill, mae’r cofnod llaw yn dangos:

    — Bod dau achos wedi eu cyhuddo o FGM (un yn 2017–18) a’u rhyddfarnu yn y treial; a
    — Bod un achos wedi ei gyhuddo o greulondeb i blentyn (yn 2017–18) a gorchmynnodd y barnwr ryddfarn.

- Ni chafwyd yr un erlyniad o ganlyniad i dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn FGM (FGM PO).

# Cam-drin plant

## Cyflwyniad

Yn 2017–18 bu GEG yn gweithio gyda phartneriaid CJS i fynd i'r afael ag erlyniad mewn achosion o gam-drin plant, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol (CSA).

Mae'r nifer o achosion o gam-drin plant a fflagiwyd, wedi'u hatgyfeirio gan yr heddlu a'u herlyn gan GEG wedi gostwng; gyda chynnydd mewn cyfraddau euogfarn ar gyfer cam-drin plant a CSA.

## Crynodeb o weithgarwch GEG

- Roedd GEG wedi parhau i chwarae rôl ganolog yn y strategaeth trawslywodraethol, dan arweiniad y Swyddfa Gartref, i ymateb i drais rhywiol yn erbyn plant. Roedd hyn yn cynnwys:
  - Cefnogi menter tystion ifanc i gyflymu achosion yn cynnwys plant dan 10 oed sydd yn dystion;
  - Gweithio gyda phartneriaid gan ddefnyddio tystiolaeth plant a recordiwyd rhag blaen mewn tair ardal Llys y Goron, yn ôl amlinelliad adran Troseddau Rhywiol yr adroddiad.

- Diweddarwyd Protocol Tystion Ifanc, sy'n cyflwyno canllawiau ar sut i drin plant dan 10 oed pan fyddant yn rhoi tystiolaeth mewn achosion troseddol, yn 2018, yn dilyn gweithredu deddfwriaeth Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 ynghylch recordio rhag blaen ac ail-holi tystion.

- Rydym wedi diweddaru ein cyfarwyddyd cyfreithiol i gwmpasu 'Vigilantes on the Internet-cases of Child Sexual Abuse' a'r drosedd newydd o Gyfathrebu Rhywiol gyda Phlentyn.

- Derbyniodd Eiriolwyr y Goron GEG Hyfforddiant Eiriolaeth a'r Pobl Agored i Niwed, oedd yn canolbwyntio ar dystion ifanc a thystion agored i niwed ac yn paratoi ar gyfer gwrandawiadau Egwyddorion Sylfaenol.

- Ar y cyd â'r heddlu, rydym wedi cyflwyno system syml ar gyfer delio â throseddwyr sy'n gwylio delweddau anweddus o blant.

- Menter ar y cyd rhwng yr heddlu a GEG yw'r Panel Cenedlaethol sy'n Adolygu Cam-drin Plant yn Rhywiol. Mae'r panel yn cyfarfod yn chwarterol ac yn ystyried a ddylai honiad o CSA gael ei ail-archwilio gan yr Heddlu, neu a ddylai GEG adolygu'r penderfyniad i erlyn. Rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, derbyniwyd 21 atgyfeiriad.

- Mae'r GEG yn gyfranogwr craidd yn chwe llinyn yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin plant yn Rhywiol. Rydym wedi cyflwyno deunydd a datganiadau tystion ac yn ymwneud ag ef yn rheolaidd. Yn 2017–18 roedd GEG wedi darparu tystiolaeth fyw yn y gwrandawiad cyhoeddus mewn perthynas â llinyn Cambridge House, Knowl View a Rochdale o'r ymchwiliad.

- Rydym wedi ymgymryd ag ymchwilwyr:
  - Cynnal ein cysylltiadau gyda'r Ganolfan Arbenigol ar Gam-drin a Chamfanteisio ar Blant yn Rhywiol; a

— Yn dilyn adroddiad yr NSPCC a Sefydliad Nuffield 2009, 'Measuring Up', archwilio profiad plentyn sy'n dyst mewn achosion troseddol.

- Roeddem wedi cyfrannu i'r ymgynghoriad 'Working Together to Safeguard Children'.

- Mae nifer o fentrau lleol wedi eu nodi fel enghreifftiau o arfer da gydol 2017–18, er enghraifft:

  — Mae GEG Tafwys a Chiltern wedi sefydlu 'llwybr ISVA' – siart lif a gytunwyd gyda phartneriaid ar y defnydd cyson o ISVAs i gefnogi'r achwynydd yn y llys.
  — Mae GEG Gogledd Llundain yn ymwneud â datblygu'r *Children's House*[96], i'w agor yn 2018.

## Y camau nesaf

- Bydd y GEG yn datblygu cyfarwyddyd ar gyfer erlynwyr yn 2018–19:

  — Ar erlyn achosion yn ymwneud â theganau rhyw ar ffurf plant;
  — Ymwneud â threfniadau diogelu newydd yn dilyn amnewid Byrddau Lleol Diogelu Plant;
  — Ar achosion yn ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE), a'r cysylltiadau rhwng CSE, Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl; a
  — Bydd unrhyw ddiweddariadau i'r cyfarwyddyd cyfreithiol, hyfforddiant ac astudiaethau achos ar gyfer erlynwyr yn cynnwys manylion profiadau dioddefwyr gwrywaidd i helpu herio mythau a stereoteipiau a darparu manylion gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

- Bydd fforwm Rhanddeiliaid CSA chwarterol yn cael ei sefydlu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â bechgyn a merched fel ei gilydd.

- Bydd y GEG yn gweithio gyda Chanolfan Cydlynu Cenedlaethol Plismona'r Bregus i fynd i'r afael â gwelliannau pellach yn yr ymateb i CSA.

- Bydd GEG yn cyfrannu at adolygiad menter y tystion ifanc, sydd yn ceisio cyflymu achosion lle defnyddir tystion dan 10 oed.

- Yn 2018–19 byddwn yn rhoi tystiolaeth fyw yn llinyn yr Eglwys Anglicanaidd o'r Ymchwiliad Annibynnol i CSA. At hyn, byddwn yn cyfrannu i'r gwrandawiadau cyhoeddus sydd i'w cynnal yn llinyn Cyngor Swydd Nottingham a llinyn San Steffan o'r Ymchwiliad.

- Byddwn yn ymestyn Hyfforddiant Eiriolaeth a'r Bregus i erlynwyr GEG yn y llysoedd ynadon a diweddaru modylau e-ddysgu i erlynwyr ar seiberdroseddu, meithrin perthyn amhriodol ar-lein a delweddau gwaharddedig o blant.

- Byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu ar ddiwygio Cyfarwyddyd Dedfrydu *Cruelty to a Child and Causing or Allowing the Death* or *Serious Injury to a Child*.

- Bydd GEG yn parhau i weithio gyda GIG Llundain a phartneriaid eraill wrth ddatblygu *the Children's House*, sydd i agor yn 2018.

[96] Dan arweiniad GIG Lloegr, gan ddefnyddio cyllid gan Swyddfa'r Maer dros Blismona a Throseddu (MOPAC) o Gronfa Trawsnewid y Swyddfa Gartref.

- Byddwn yn gweithio gyda'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, yr heddlu ac adrannau eraill y llywodraeth wrth ddatblygu mentrau i darfu ar y rhai hynny sy'n gwylio delweddau anweddus o blant ar y rhyngrwyd.

- Byddwn yn parhau i weithio gyda'r heddlu yn y gweithgor cenedlaethol i wella ein dealltwriaeth a'n harbenigedd ymhellach ac erlyn rhai o'r materion astrus sy'n cwmpasu marwolaethau plant.

## Data cam-drin plant

Rhaid i erlynwyr fflagio pob achos o gam-drin plan, gydag achosion CSA yn cael eu dynodi yn unol ag unrhyw drosedd rywiol a fflagiwyd fel cam-drin plant. Mae adroddiadau diweddar o gamdriniaeth rywiol a ddigwyddodd yn y gorffennol, pan oedd y dioddefwr dan 18 oed, yn cael eu cofnodi fel CSA, waeth beth oedd oedran y dioddefwr pan wneir yr adroddiad.

Mae'r data a ddarperir isod yn berthnasol i *bob* diffynnydd ac achwynydd mewn achos o gam-drin plant a fflagiwyd, waeth beth yw eu rhyw, gyda manylion pellach ynghylch rhyw lle mae ar gael. Bydd data CSA a adroddir yma yn gorgyffwrdd â hynny yn yr adrannau Treisio a Throseddau Rhywiol.

- Gostyngodd nifer yr atgyfeiriadau gan yr heddlu o achosion o gam-drin plant a fflagiwyd o 13,310 yn 2016–17 i 11,986 yn 2017–18 – gostyngiad o 1,324 atgyfeiriad (9.9%).

- Cyhuddwyd 7,547 o'r atgyfeiriadau hyn, gostyngiad o 1,427 dan amheuaeth o 8,974 yn 2016–17. Cyhuddwyd 63.0% o atgyfeiriadau, gostyngiad o'r 67.4% yn y flwyddyn flaenorol.[97]

- Cynyddodd y nifer o ddiwrnodau i gyhuddo o gam-drin plant yn 2017–18 o 45.8 diwrnod yn 2016-17 i 51.2 diwrnod.[98] Y nifer o ddiwrnodau ar gyfartaledd o'r cyhuddiad i'r terfynu ar gyfer achosion o gam-drin plant yn 231.3 diwrnod o'i gymharu â 225.1 diwrnod. Cynyddodd y nifer o ddiwrnodau ar gyfartaledd o'r cyhuddiad i'r terfynu ar gyfer CSA i 252.3 diwrnod o 246.4 diwrnod yn 2016–17.

- Gostyngodd nifer yr erlyniadau a gwblhawyd mewn achosion o gam-drin plant a fflagiwyd o 11,793 yn 2016–17 i 10,704 yn 2017–18 – gostyngiad o 1,089 (9.2%).

- Gostyngodd nifer yr euogfarnau a gwblhawyd mewn achosion o gam-drin plant a fflagiwyd o 8,999 yn 2016–17 i 8,350 yn 2017–18 – gostyngiad o 649 (7.2%) o'r flwyddyn flaenorol. Canlyniad 78.0% o erlyniadau oedd euogfarn yn 2017–18, cynnydd o 1.7ppt o'r flwyddyn flaenorol a'r gyfradd uchaf a gofnodwyd. Cynyddodd euogfarnau ar ôl treial o 53.6% yn 2016–17 a 56.3% yn 2017–18;

- Roedd 31 dynladdiad a fflagiwyd fel cam-drin plant; derbyniodd pob un euogfarn; fflagiwyd 2,826 o droseddau yn erbyn y bobl fel cam-drin plant gyda chyfradd o 73.4% euogfarn.

- O ran troseddau o gam-drin plant a fflagiwyd roedd y rhain yn berthnasol i CSA yn benodol:

---

[97] Yn 2017–18 bu cynnydd yn yr atgyfeiriadau oedd wedi'u 'terfynu'n weinyddol' o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (13.2% o atgyfeiriadau o'i gymharu â 6.5% yn y flwyddyn flaenorol). Bydd achosion yn cael eu 'terfynu'n weinyddol' am sawl rheswm. Yn 2017¬–18 rydym wedi annog y defnydd o gyngor ymchwiliol cynnar (EIA) gan yr heddlu. Mewn achosion lle mae'r heddlu wedyn yn penderfynu peidio â chyflwyno ffeil gyfan ar gyfer penderfyniad cyhuddo, caiff y rhain eu 'terfynu'n weinyddol' oherwydd na fu penderfyniad cyhuddo Prawf Cod Llawn. Cafodd y cynnysdd yn y nifer o achosion gafodd eu 'terfynu'n weinyddol' yn 2017–18 effaith ar y gyfradd o ddiffynyddion a gyhuddwyd (y 'gyfradd gyhuddo').

[98] Nid oes data cyn-gyhuddo ar gael ar gyfer CSA.

- Gostyngodd erlyniadau troseddau CSA[99] a gwblhawyd yn 2016–17 o 7,181 i 6,378 – gostyngiad mewn nifer o 803 (11.2%). Gostyngodd euogfarnau o 5,374 i 4,878 – gostyngiad o 496 (9.2%), ochr yn ochr â chynnydd yn y gyfradd o euogfarnau i 76.5% yn 2017–18. Cynyddodd euogfarnau yn dilyn treial o 51.9% yn 2016–17 i 55.7% yn 2017–18.

- Fflagiwyd 1,759 (27.6%) o erlyniadau troseddau CSA fel cam-drin a threisio plant. O'r erlyniadau hyn, cafwyd euogfarn mewn 1,213 achos, sy'n cynrychioli cyfradd euogfarnu o 69.0%.

- O'r erlyniadau trosedd CSA lle na ddefnyddiwyd y fflag treisio, (4,619 neu 72.4%), cafwyd euogfarn mewn 3,665 achos, gan gynrychioli cyfradd o euogfarnau o 79.3%.

**Tabl 11a: Erlyniadau am gam-drin plant – cyfanswm cam-drin plant**

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 6,444 | 75.1% | 5,755 | 76.1% | 6,096 | 76.2% | 7,469 | 74.4% | 8,439 | 75.8% | 8,999 | 76.3% | 8,350 | 78.0% |
| Achosion heb euogfarn | 2,137 | 24.9% | 1,803 | 23.9% | 1,902 | 23.8% | 2,576 | 25.6% | 2,691 | 24.2% | 2,794 | 23.7% | 2,354 | 22.0% |
| **Cyfanswm** | **8,581** | | **7,558** | | **7,998** | | **10,045** | | **11,130** | | **11,793** | | **10,704** | |

**Tabl 11b: Erlyniadau am gam-drin plant – troseddau rhywiol**

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 3,530 | 75.8% | 3,070 | 75.8% | 3,344 | 76.5% | 3,975 | 73.8% | 4,643 | 74.7% | 5,374 | 74.8% | 4,878 | 76.5% |
| Achosion heb euogfarn | 1,125 | 24.2% | 981 | 24.2% | 1,027 | 23.5% | 1,412 | 26.2% | 1,574 | 25.3% | 1,807 | 25.2% | 1,500 | 23.5% |
| **Cyfanswm** | **4,655** | | **4,051** | | **4,371** | | **5,387** | | **6,217** | | **7,181** | | **6,378** | |

- Roedd y diffynnydd yn wrywaidd mewn:
  - 90.7% o erlyniadau cam-drin plant (ni chofnodwyd rhyw 0.2% o ddiffynyddion);
  - 67.7% o erlyniadau am ddynladdiad (21 allan o 31) – cofnodwyd rhyw pob un o'r diffynyddion;
  - 72.9% o droseddau yn erbyn y person (2,053 allan o 2,816 diffynnydd lle cofnodwyd y rhyw – cofnodwyd 99.6%); a
  - 98.1% o droseddau rhywiol (6,244 allan o 6,368 diffynnydd lle cofnodwyd y rhyw – cofnodwyd 99.8%).

[99] Mae gwybodaeth ar gael o'r System Reoli Achosion (CMS) i ddangos y nifer o diffynyddion a erlynwyd, a fflagiwyd fel cam-drin plant, a lle dynodwyd y drosedd bennaf fel trosedd rywiol.

- Cafodd 78.6% o ddiffynyddion gwrywaidd euogfarn am gam-drin plant (7,619) a 72.0% o ddiffynyddion benywaidd (715). Cafodd 76.7% o ddiffynyddion gwrywaidd euogfarn am CSA (4,791) a 66.1% o ddiffynyddion benywaidd (82).

- Dangosodd data achwynwyr[100] o'r System Reoli Tystion fod 10,986 o'r achwynwyr ynghylch cam-drin plant a gofnodwyd – 6,354 yn fenywaidd a 2,106 yn wrywaidd (ni chofnodwyd rhyw 2,526 o'r achwynwyr). Roedd cofnodion rhyw'r achwynwyr (ar 77.0%) yn debyg i 2016–17 (76.7%). Lle cafodd rhyw'r achwynydd ei gofnodi, roedd 75.1% yn fenywaidd a 24.9% yn wrywaidd.

[100] Mae rhyw'r achwynwyr ar gael mewn achosion o gam-drin plant yn unig ac nid yw wedi ei ddosbarthu yn ôl dynladdiad, troseddau yn erbyn y person a chamdriniaeth rywiol.

# Masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern

## Cyflwyniad

Yn Awst 2018, cyhoeddwyd adroddiad gan gorff annibynnol sef Adroddiad ar Gaethwasiaeth Fodern am y tro cyntaf. Mae'r adran hon o Adroddiad VAWG GEG, felly, yn cysylltu â'r adroddiad hwn ac yn darparu data penawdau isod yn unig, gan amlygu materion rhyw a chamfanteisio rhywiol perthnasol i'r adroddiad hwn.

## Data GEG ar fasnachu pobl a chaethwasiaeth fodern

- Caiff achosion o fasnachu pobl/caethwasiaeth fodern eu fflagio (gweler yr eirfa am y diffiniad). Mae'r nifer fechan o achosion yn dangos yr angen i fod yn ofalus wrth ddehongli'r data hyn mewn perthynas â'r troseddau hyn.

- Cynyddodd yr atgyfeiriadau a fflagiwyd gan yr heddlu ynghylch masnachu pobl o 271 yn 2016–17 i 355 – y nifer uchaf a gofnodwyd erioed, gyda chynnydd yn y nifer o rai dan amheuaeth a gyhuddwyd (o 188 i 239).

- Gostyngodd y nifer o euogfarnau a gwblhawyd ynghylch masnachu pobl yn 2017–18 o 295 i 284.

- O'r 284 diffynnydd a erlynwyd, roedd 231 yn wrywaidd, ac roedd 53 yn fenywaidd. Cofnodwyd rhyw'r diffynyddion i gyd. Roedd 81.3% yn wrywaidd a 18.7% yn fenywaidd. Roedd y rhan fwyaf o ddiffynyddion (76.1%) yn 25–59 oed.

- O'r data a gafwyd o'r SRT (WMS) cofnodwyd 223 achwynydd. O'r holl achwynwyr, roedd 118 yn fenywaidd, 41 yn wrywaidd ac ni chofnodwyd rhyw 64 ohonynt. Cofnodwyd rhyw 71.3% o'r achwynwyr, cynnydd o 59.5% yn 2016–17. Lle cofnodwyd rhyw'r achwynydd, roedd 74.2% yn fenywaidd a 25.8% yn wrywaidd. Darperir data o'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol isod i gyflwyno gwybodaeth bellach ar batrymau rhyw achwynwyr potensial.

- Cynyddodd euogfarnau'r nifer a fflagiwyd ynghylch masnachu pobl o 181 yn 2016–17 i 185. Cynyddodd cyfradd yr euogfarnau o 61.4% i 65.1%.

- Cynyddodd euogfarnau ar ôl herio (ac eithrio pleon cymysg) o 56.0% i 66.7%.

- Ni chafodd 74 achos (26.1%) eu heuogfarnu oherwydd i'r erlyniad gael ei ollwng. Bu gostyngiad mewn canlyniadau heb euogfarn o ganlyniad i faterion achwynwyr (o 43.9% yn 2016–17 i 22.2%).

- Oherwydd bod llawer o achosion yn cynnwys aml-diffynyddion ac achwynwyr niferus, gellid priodoli unrhyw gynnydd mewn tueddiadau gwaith achos i un neu ddau achos sylweddol yn cynnwys nifer arwyddocaol o ddiffynyddion/achwynwyr/dioddefwyr.

## Tabl 12: Erlyniadau masnachu pobl a gwblhawyd ac a fflagiwyd yn ôl canlyniad

| | 2011–12 | | 2012–13 | | 2013–14 | | 2014–15 | | 2015–16 | | 2016–17 | | 2017–18 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Euogfarnau | 94 | 66.2% | 99 | 71.2% | 155 | 68.6% | 130 | 69.5% | 192 | 65.1% | 181 | 61.4% | 185 | 65.1% |
| Achosion heb euogfarn | 48 | 33.8% | 40 | 28.8% | 71 | 31.4% | 57 | 30.5% | 103 | 34.9% | 114 | 38.6% | 99 | 34.9% |
| **Cyfanswm** | **142** | | **139** | | **226** | | **187** | | **295** | | **295** | | **284** | |

- Mae tabl 13 isod yn amlinellu troseddau masnachu pobl,[101] y dechreuwyd eu herlyn, o 2011–12 hyd 2017–18. Yn 2017–18, cafwyd cyfanswm o 102 trosedd o gamfanteisio ar weithwyr,[102] cynnydd o 46 ar y flwyddyn flaenorol a 61 trosedd o fasnachu er mwyn elwa yn rhywiol, au.57, 58, 59, 59a, Deddf Troseddau Rhywiol 2003, gostyngiad o 162 ar y flwyddyn flaenorol.[103] Fodd bynnag mae'r troseddau eraill yn y tabl wedi eu cysylltu naill ai â chamfanteisio ar weithwyr neu gamfanteisio rhywiol.[104] Mae mwy o droseddau'n cael eu herlyn dan a.2 Deddf Caethwasiaeth Fodern sy'n cwmpasu pob math o fasnachu pobl.

## Tabl 13: Troseddau masnachu pobl

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Lloches a Mewnfudo (Triniaeth Hawlwyr, ayb.) 2004 { 4 } Masnachu Pobl ar gyfer llafur ac ecsbloetio arall | 37 | 26 | 32 | 60 | 68 | 29 | 14 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 { 71 } I reoli person arall mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth neu mynnu bod y person yn cyflawni llafur gorfodol neu gymelledig | 15 | 20 | 18 | 31 | 40 | 23 | 17 |
| Deddf Caethwasiaeth Modern 2015 { 1 } Caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu gymelledig | 0 | 0 | 0 | 0 | 9 | 23 | 85 |
| Deddf Caethwasiaeth Modern 2015 { 2 } Masnachu Pobl | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 73 | 163 |
| Deddf Caethwasiaeth Modern 2015 { 4 } Cyflawni trosedd gyda bwriad i gyflawni trosedd masnachu pobl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 57 } Masnachu pobl i'r DU ar gyfer ecsbloetio rhywiol | 45 | 24 | 26 | 41 | 70 | 17 | 6 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 58 } Masnachu pobl o fewn y DU ar gyfer ecsbloetio rhywiol | 61 | 16 | 94 | 31 | 72 | 105 | 32 |

[101] Nid yw'r Tabl yn cynnwys cynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau.
[102] Dan a.71 Deddf y Crwner a Chyfiawnder 2009 ac a.1 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.
[103] A gostyngiad o 248 yn 2015–16.
[104] Gall cyflawnwr gael ei erlyn a'i euogfarnu hefyd am droseddau difrifol ar wahân i fasnachu a chaethwasiaeth, lle ceir cysylltiadau â masnachu, gan gynnwys, er enghraifft, cynllwynio i fasnachu, camgarcharu, rheoli puteindra er mwyn elwa a threisio. Gall troseddau amgen fod yn fwy cynrychioliadol o'r drosedd wirioneddol a chario cosbau mwy difrifol.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 59 }<br>Masnachu pobl allan o'r DU ar gyfer ecsbloetio rhywiol | 7 | 3 | 8 | 0 | 9 | 5 | 11 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 59A }<br>Masnachu pobl tu fewn a thu allan y DU ar gyfer ecsbloetio rhywiol[105] | 0 | 0 | 12 | 13 | 97 | 35 | 12 |
| **Cyfanswm o droseddau masnachu pobl** | **165** | **89** | **190** | **176** | **370** | **312** | **340** |

- Ar gyfer tueddiadau masnachu pobl, mae gan y GEG fynediad at ddata cyhoeddedig y Peirianwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM),[106] yn seiliedig ar ddioddefwr posibl[107] yn cael ei gyfeirio atyn nhw. Mae Data ar gael drwy'r wefan Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) . Mae'r data hwn hefyd yn caniatáu ymchwiliad am ryw dioddefwyr posibl.

- Derbyniodd y NRM yng Nghymru a Lloegr 35% atgyfeiriad yn fwy o achosion yn 2017 gyda 2,454 dioddefwyr benywaidd o gymharu â 2,688 dioddefwyr gwrywaidd. Dengys y data wahaniaethau mewn rhyw a thueddiadau o ran mathau gwahanol o ecsbloetio wedi'i hawlio o fasnachu pobl a chaethwasiaeth modern:

  — O 2016 i 2017, cododd yr ecsbloetio llafur o ddynion a bechgyn o 1,254 i 2,062 dioddefwr posibl (codiad o 64.4%).
  — O 2016 i 2017, cododd yr ecsbloetio rhywiol o fenywod a merched o 1,164 i 1,612 dioddefwr posibl (codiad o 38.5%); cododd y caethiwed domestig o fenywod a merched o 310 i 343 dioddefwr posibl (codiad o 10.5%).[108]
  — O'r 2,245 dioddefwyr benywaidd posibl, roedd 87.1% yn ddioddefwyr ecsbloetio rhywiol neu gaethiwed domestig.[109]
  — O'r 2,336 dioddefwyr gwrywaidd posibl, roedd 88.3% yn ddioddefwyr ecsbloetio llafur.[110]

- Mae'r newyddion diweddaraf am y niferoedd cynyddol o ddioddefwyr posibl yn cael eu hatgyfeirio at y NRM yn dangos nad yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu cynnydd yn y bygythiad a gyflwynir gan Gaethwasiaeth Modern i'r DU, ond mae adnabyddiaeth well ar gyfer y dioddefwyr a atgyfeirir. Mae nifer fawr o atgyfeiriadau masnachu pobl i'r NRM yn hawlio ecsbloetio tu allan y DU ac felly mae'n dod y tu allan i'n hawdurdodaeth ni i'w herlyn.

[105] A.59A Deddf Troseddau Rhywiol 2003 wedi disodli adrannau 57, 58, 59 SOA 2003 yn 2013–14.
[106] O 2017 newidiwyd system gofnodi data chwarter 2 (Q2) i adlewyrchu'r heddlu lle anfonwyd yr atgyfeiriad NRM ato ar gyfer dibenion cofnodi troseddau. Cyn hynny, roedd yn seiliedig ar leoliad yr ymatebydd cyntaf yn unig.
[107] Mae Data'r NRM yn cyfeirio at ddioddefwyr posibl, nid rhywun sydd wedi derbyn penderfyniad sail derfynol cadarnhaol ei fod/ei bod yn ddioddefwr masnachu pobl.
[108] Roedd codiad mwy yn y maint a'r cyfartaledd o ddioddefwyr gwrywaidd posibl yn 2017 o'i gymharu â 2016.
[109] O'r 2,245 dioddefwyr benywaidd posibl - hynny yw, 2,454 ac eithrio 209 achos o ecsbloetio anhysbys neu gasglu organau.
[110] O'r 2,336 dioddefwyr gwrywaidd posibl - hynny yw, 2,688 ac eithrio 352 achos o ecsbloetio anhysbys.

# Puteindra

## Cyflwyniad

Mae gan y GEG ymarfer cyhuddo ar gyfer mynd i'r afael â'r rhai sy'n recriwtio eraill i buteindra er budd eu hunain neu fudd rhywun arall, drwy gyhuddo troseddau ar gyfer achosi, ysgogi neu reoli puteindra er budd eu hunain, neu fasnachu pobl ar gyfer ecsbloetio rhywiol. Yn ogystal â dwyn dedfrydau sylweddol, mae'r troseddau hyn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer atafaelu asedion trwy orchmynion Deddf Elw Troseddau a gweithredu Gorchmynion Atal Masnachu Pobl.

Ar gyfer y troseddau sy'n ddiannod yn unig - stelcio a llithio, plagio pen ffordd, talu am wasanaeth rhywiol a hysbysebu puteindra - mae'r heddlu yn cadw'r disgresiwn a ddylent arestio neu hysbysu'r rhai dan amheuaeth o gyflawni trosedd ynteu peidio, neu gallent gyhuddo'r trosedd heb orfod atgyfeirio at erlynydd, heb ystyried os yw'r un dan amheuaeth yn bwriadu pledio'n euog neu yn ddieuog.

## Crynodeb o weithgarwch GEG

- Cyhoeddwyd cyfarwyddyd cyfreithiol diwygiedig am buteindra yn 2017-18, yn dilyn ymgynghoriad gyda Grŵp Ymgynghori Allanol VAWG.

- Menter leol a nodwyd yn arfer da yn 2017-18.

    — Mae GEG Gogledd-ddwyrain Lloegr yn gweithio gyda sefydliad o'r enw '*A Way Out*'. Mae'n sefydliad elusennol wedi'i ariannu i gynnal gweithdai i godi ymwybyddiaeth o'r rhwystrau a wynebir gan weithwyr rhyw wrth hysbysu am droseddau a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael ar eu cyfer. Mae'r sefydliad wedi mynegi diddordeb yn y gwaith LSIP VAWG y GEG lleol.

## Camau nesaf

- Bydd unrhyw gyfarwyddyd cyfreithiol pellach, hyfforddiant neu astudiaethau achosion ar gyfer erlynwyr yn cael trafodaeth i gynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd i helpu herio mythau a stereoteipiau a darparu manylion gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

## Data Puteindra[111]

- Yn 2017-18 cychwynnwyd 96 erlyniad ar gyfer reoli puteindra o'i gymharu â 99 y flwyddyn gynt. Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd am blagio pen ffordd o 148 i 106. Gostyngodd y nifer o droseddau cadw puteindy o 90 i 74. Gostyngodd yr erlyniadau am droseddau hysbysebu puteindra (trwy roi cardiau mewn mannau cyhoeddus) o 25 i 23.

- Cychwynnwyd 283 erlyniad yn gysylltiedig â throseddau penodol ecsbloetio plant yn rhywiol yn 2017-18;[112] sef gostyngiad o 383 yn y flwyddyn gynt. Er hynny, gall fod nifer fawr o

[111] Mae data puteindra y GEG ond ar gael o'r system data yn seiliedig ar droseddau ac felly nid yw'n cynnwys data am atgyfeiriadau heddlu, cyhuddo a chanlyniadau. Nid yw data yn seiliedig ar droseddau ar gael yn ôl rhyw y diffynnydd neu'r achwynydd.

droseddau eraill o ecsbloetio rhywiol plant a erlynir o dan adrannau eraill Deddf Troseddau Rhywiol 2003.

- Gostyngodd y nifer o erlyniadau a gychwynnwyd yn gysylltiedig â phuteindra strydoedd o 127 i 57.

**Tabl 14: erlyniadau VAWG: troseddau puteindra, 2011–12 hyd 2017–18**

| A) Rheoli puteindra | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {52} | 19 | 11 | 9 | 25 | 13 | 7 | 32 |
| Deddf Troseddau Rhywiol (2003) {53} | 61 | 39 | 49 | 58 | 87 | 92 | 64 |
| **Cyfanswm** | **80** | **50** | **58** | **83** | **100** | **99** | **96** |

| B) Cadw puteindy | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33} | 35 | 31 | 19 | 19 | 28 | 24 | 9 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {33A Atodiad 2} | 92 | 54 | 31 | 72 | 75 | 63 | 63 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1956 {34} | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {35(1)} | 3 | 1 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Deddf Troseddau Rhywiol {36} | 2 | 1 | 3 | 2 | 3 | 0 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {53A } | 7 | 8 | 0 | 3 | 2 | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **140** | **97** | **55** | **99** | **111** | **90** | **74** |

| C) Plagio pen ffordd | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(a)} | 7 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {1(1)(b)} | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 1985 {2(1)} | 2 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 {51A} | 305 | 230 | 237 | 227 | 152 | 148 | 106 |
| **Cyfanswm** | **314** | **233** | **237** | **227** | **153** | **148** | **106** |

[112] Talu am wasanaeth rhywiol plentyn (SOA 2003 adran.47); achosi ecsbloetio rhywiol plentyn (SOA 20013 adran.38); rheoli plentyn o ran ecsbloetio rhywiol (SOA 2003 adran. 49) a threfnu neu gynorthwyo ag ecsbloetio rhywiol plentyn (SOA 2003 adran. 50).

| D) Hysbysebu puteindra | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2001 {46} | 149 | 80 | 91 | 37 | 37 | 25 | 23 |

| E) Puteindra Strydoedd | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Strydoedd 1959 {1} | 484 | 396 | 553 | 456 | 163 | 127 | 57 |

| F) Camfanteisio'n rhywiol ar blant | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 47 } | 18 | 26 | 36 | 49 | 79 | 38 | 57 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 48 } | 57 | 90 | 89 | 198 | 277 | 263 | 191 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 49 } | 3 | 8 | 9 | 3 | 11 | 15 | 7 |
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 50 } | 17 | 10 | 39 | 31 | 11 | 67 | 28 |
| **Cyfanswm** | **95** | **134** | **173** | **281** | **378** | **383** | **283** |

# Pornograffi ac anweddustra

## Cyflwyniad

Mae'r broses ar gyfer troseddau o ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol wedi cael ei moderneiddio i wella effeithlonrwydd erlyniadau. Roedd cynnydd yn y nifer o droseddau anweddustra a erlynwyd, gyda chyfran uwch o erlyniadau anweddustra neu anwedduster garw yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

## Crynodeb o weithgarwch GEG

- Daeth Adran.67 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 (Cyfathrebiadau Rhywiol gyda Phlentyn) i rym ar 3 Ebrill 2017. Mae'n drosedd naill ffordd neu'r llall gydag uchafswm dedfryd o 2 flynedd mewn carchar. Ychwanegodd y Ddeddf adran newydd 15A (1) a (2) i'r Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'n rhaid bod y cyfathrebu, drwy e-bost, neges destun, nodyn ysgrifenedig neu ar lafar, yn rhywiol neu wedi'i fwriadu i annog y plentyn i gymryd rhan mewn cyfathrebu rhywiol. Mae'n rhaid bod amgylchiadau yn bodoli lle nad yw'r oedolyn yn credu o fewn rheswm bod y plentyn yn 16 oed neu'n hŷn.

## Camau nesaf

- Bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfarwyddyd cyfreithiol y Ddeddf Cyhoeddiadau Anweddus yn cael ei lansio yn 2018-19.

- Bydd unrhyw ddiweddariad o gyfarwyddyd cyfreithiol, hyfforddiant neu astudiaethau achosion ar gyfer erlynwyr yn cynnwys manylion am brofiadau dioddefwyr gwrywaidd i helpu herio mythau a stereoteipiau a darparu manylion unrhyw wasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd.

## Pornograffi a data anweddustra[113]

- Mae GEG, yr heddlu a llysoedd wedi mabwysiadu dull newydd ar gyfer erlyniad am ddelweddau anweddus mewn cyswllt â rhai troseddwyr. Mae'r heddlu yn defnyddio Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID) ac yn darparu Adroddiad Fforensig Syml (SFR) yn cynnwys enghreifftiau o ddelweddau o bob categori dedfrydu (tri fel arfer). Mae hyn dal yn gadael i'r llys gael pwerau dedfrydu a gwybodaeth ddigonol am y troseddu. Mae'n galluogi achosion i symud yn fwy cyflym, sy'n golygu y gall troseddwyr gael eu herlyn mewn llai o amser.

- Gall GEG ddefnyddio llai o droseddau yr erlyniad diffynnydd, yn dilyn y canllawiau diwygiedig ynglŷn â lliflinio delweddau mewn erlyniadau. Gostyngodd y nifer o droseddau o 20,803 yn 2016-17 i 15,055 yn 2017-18, gostyngiad o 27.6%, ond mae hyn oherwydd lliflinio ac nid dadflaenoriaethu o erlyn ar gyfer y troseddau hyn. Yn 2014-15 roedd cyfartaledd y nifer o droseddau ar gyfer pob achos yn 8; yn 2017-18 roedd yn 3.6.

[113] Mae data pornograffi ac anweddustra GEG ond ar gael o'r system data yn seiliedig ar droseddau ac felly nid yw'n cynnwys data am atgyfeiriadau'r heddlu, cyhuddo na chanlyniadau.

- Nid yw data yn seiliedig ar droseddau ar gael yn ôl rhyw y diffynnydd neu'r achwynydd.

### Tabl 15: Troseddau delweddau cam-drin plant, 2011-12 i 2017-18

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (160) Meddu ar ffotograff anweddus o blentyn | 3,885 | 3,849 | 4,265 | 4,820 | 5,248 | 5,141 | 2,357 |
| Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (62) Meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn[114] | 179 | 394 | 534 | 631 | 625 | 971 | 769 |
| **Camfanteisio'n rhywiol ar blant drwy ffotograffau o ba rai:** | **15,599** | **14,694** | **15,574** | **16,129** | **16,672** | **14,691** | **11,929** |
| Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(a)) Gwneud ffotograff anweddus o blentyn | 14,570 | 13,596 | 14,443 | 14,518 | 14,930 | 13,324 | 10,504 |
| Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(b)) Dosbarthu ffotograff anweddus o blentyn | 695 | 803 | 907 | 1,318 | 1,422 | 1,155 | 1,248 |
| Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1 (1)(c)) Dangos ffotograffau anweddus o blant | 333 | 294 | 224 | 292 | 319 | 209 | 176 |
| Deddf Amddiffyn Plant 1978 (1(1)(d)) Cyhoeddi hysbyseb sy'n debygol o awgrymu bod yr hysbysebwr yn dosbarthu neu yn dangos ffotograffau anweddus o blant | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | 3 | 1 |

Mae Tabl 16 isod yn amlinellu data GEG ar droseddau anweddustra. Roedd cynnydd bychan o 0.8% o droseddau anweddustra a erlynwyd o 8,049 yn 2016-17 i 8,112 yn 2017-18 .

### Tabl 16: Troseddau anweddustra, 2011-12 i 2017-18

| | 2011–12 | 2012–13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 Adrannau (1 (1)(a) ac (1)(b)) Deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn | 1,301 | 1,250 | 1,210 | 1,586 | 2,094 | 2,634 | 3,079 |
| Deddf Cyhoeddiadau Anllad 1959 (2 (1) ) Cyhoeddiadau anllad | 76 | 34 | 33 | 88 | 26 | 36 | 51 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (1)(a), (1)(b) a (3)) Cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn | 1,924 | 1,909 | 1,190 | 1,680 | 2,026 | 2,227 | 2,290 |
| Deddf Cyfathrebiadau 2003 (127 (2)(a), (2)(b), (2)(c) a (3)) Achosi aflonyddwch, anghyfleustra neu bryder diangen i rywun arall | 1,181 | 1,003 | 936 | 864 | 848 | 734 | 660 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63) Meddu ar ddelweddau pornograffig eithafol[115] | 1,319 | 1,312 | 1,395 | 1,564 | 1,737 | 1,929 | 1,542 |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (63(1), (7A)) Meddu ar ddelwedd bornograffig eithafol yn | | | | | 3 | 24 | 26 |

[114] adran.62 Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 ('y Ddeddf') crëwyd trosedd newydd, sef meddu ar ddelwedd waharddedig o blentyn, un y mae modd ei chosbi gyda hyd at dair blynedd o garchar. Daeth y drosedd hon i rym ar 6 Ebrill 2010.

[115] Dim ond isadran o ddata adran.63 a adroddwyd mewn Adroddiadau Troseddau VAWG blaenorol 2007-08 i 2010-11 - newidiwyd data ers hynny i gynnwys pob trosedd dan adran.63.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| darlunio cyfathrach heb gydsyniad/treisio | | | | | | | |
| Deddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 { 33(1) a (9) } Datgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol personol gyda'r bwriad o achosi gofid | | | | | 206 | 465 | 464 |

- Roedd y rhan fwyaf o droseddau dan Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988 (deunydd anweddus neu dramgwyddus iawn) a Deddf Cyfathrebu 2003 (cyfathrebiadau tramgwyddus neu anweddus iawn) yn achosion DA (54.2% a 67.7% yn eu tro).

**Tabl 17: Voyeuriaeth, 2011–12 i 2017–18**

| | 2011–12 | 2012 – 13 | 2013–14 | 2014–15 | 2015–16 | 2016–17 | 2017–18 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Deddf Troseddau Rhywiol 2003 { 67 } Voyeuriaeth | 453 | 533 | 639 | 734 | 647 | 798 | 667 |

- Erlynwyd 667 achos o voyeuriaeth yn 2017–18.
- Mae Bil Voyeuriaeth (Troseddau) (Rhif 2) wedi'i gyflwyno yn 2018 i ystyried ychwanegu adran newydd 67A i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, a fyddai'n cyflwyno dau drosedd voyeuriaeth newydd gyda'r bwriad o fynd i'r afael â 'gwneud ffotograff anawdurdodedig yn cynnwys delwedd i fyny sgert'. Mae hyn yn weithred o dynnu, yn ddirgel, delweddau dan ddillad rhywun heb ganiatâd. Mae'n aml yn digwydd mewn lleoedd cyhoeddus gorlawn, er enghraifft ar drafnidiaeth gyhoeddus neu mewn gwyliau cerddoriaeth, gall hyn ei wneud yn anodd i sylwi ar y tramgwyddwr.

## Datgelu Delweddau Rhywiol Personol heb Ganiatâd

- Cychwynnwyd 464 trosedd am erlyniad yn 2017-18 am y drosedd o ddatgelu ffotograffau a ffilmiau rhywiol personol heb ganiatâd yr unigolyn sy'n ymddangos ynddynt, gyda'r bwriad o achosi gofid i'r unigolyn hwnnw. Roedd hyn yn debyg i 2016–17 (465 trosedd). Mae'r achosion hyn sy'n cynnwys 'pornograffi dial' yn cael eu hystyried dan ganllawiau cyfreithiol cyfryngau cymdeithasol.[116] Mae gan y drosedd hon uchafswm dedfryd carchar o ddwy flynedd wrth gael euogfarn.

## Meddu ar ddelwedd bornograffig eithafol yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad/treisio

- Cychwynnwyd 26 erlyniad yn gysylltiedig â Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 {63(1), (7A), trosedd o feddu ar ddelwedd bornograffig eithafol yn darlunio cyfathrach heb gydsyniad/treisio yn 2017-18, yn debyg i'r flwyddyn 2016-17 (24 erlyniad). Gweithredwyd y drosedd hon yn Ebrill 2015.

[116] Mae'r drosedd sy'n groes i adran.33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Llysoedd 2015 yn gorgyffwrdd ag adran.1 o Ddeddf Cyfathrebiadau Maleisus 1988, adran.127 Deddf Cyfathrebiadau 2003 ac adran.2 ac adran.4 o Ddeddf Aflonyddu 1997.

## Llawlyfr pedoffilydd

- O Fai 2015 creodd adran.69 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015 drosedd newydd o fod â llawlyfr pedoffilydd yn eich meddiant, sydd yn unrhyw eitem sy'n cynnwys cyngor neu gyfarwyddyd am gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys meithrin perthynas amhriodol. Cychwynnwyd 18 trosedd am erlyniad yn 2017-18, yn debyg i'r flwyddyn gynt pan gychwynnwyd 14.

# Atodiadau a geirfa

## Atodiad 1 Erlyniadau yn ôl Ardal

Mae Atodiad 1 yn darparu data manwl yn ôl Ardal GEG ac ardaloedd lluoedd heddlu am gam-drin domestig wedi'i fflagio, treisio a throseddau rhywiol wedi'u fflagio.

## Atodiad 2 Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae Atodiad 2 yn darparu data'r WG am stelcio, aflonyddu, gorchmynion atal ac Ystadegau Treisio Cenedlaethol er mwyn rhoi cyd-destun i ddata GEG.

## Geirfa

Mae'r eirfa yn darparu diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r acronymau.

# Atodiad 1: Erlyniadau yn ôl Ardal

Ni fydd y data ar gyfer yr 14 Ardal GEG yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP.

**Erlyniadau VAWG yn ôl Ardal GEG:**

| | 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| Cymru/Wales | 5,814 | 76.5% | 1,786 | 23.5% | **7,600** |
| Dwyrain Lloegr | 5,183 | 79.6% | 1,326 | 20.4% | **6,509** |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 6,468 | 78.1% | 1,812 | 21.9% | **8,280** |
| Gogledd Llundain | 5,633 | 66.6% | 2,822 | 33.4% | **8,455** |
| De Llundain | 4,743 | 68.2% | 2,208 | 31.8% | **6,951** |
| Glannau Mersi-Swydd Gaer | 4,645 | 79.6% | 1,192 | 20.4% | **5,837** |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 4,372 | 74.3% | 1,510 | 25.7% | **5,882** |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 8,315 | 79.9% | 2,089 | 20.1% | **10,404** |
| De-dwyrain Lloegr | 5,538 | 76.1% | 1,743 | 23.9% | **7,281** |
| De-orllewin Lloegr | 4,261 | 79.3% | 1,114 | 20.7% | **5,375** |
| Tafwys a Chiltern | 4,220 | 75.2% | 1,388 | 24.8% | **5,608** |
| Wessex | 4,229 | 81.9% | 932 | 18.1% | **5,161** |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 8,432 | 74.7% | 2,858 | 25.3% | **11,290** |
| Swydd Efrog a Glannau Humber | 8,534 | 77.7% | 2,446 | 22.3% | **10,980** |
| **Cyfanswm** | **80,387** | **76.1%** | **25,226** | **23.9%** | **105,613** |

| | Erlyniadau VAWG yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Avon a Gwlad yr Haf** | 2,113 | 77.5% | 615 | 22.5% | **2,728** |
| **Bedfordshire** | 696 | 74.1% | 243 | 25.9% | **939** |
| **Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig** | 284 | 76.5% | 87 | 23.5% | **371** |
| **Swydd Gaergrawnt** | 933 | 78.5% | 255 | 21.5% | **1,188** |
| **Swydd Gaer** | 1,981 | 79.2% | 521 | 20.8% | **2,502** |
| **Cleveland** | 1,001 | 75.6% | 323 | 24.4% | **1,324** |
| **Cymbria** | 825 | 84.1% | 156 | 15.9% | **981** |
| **Derbyshire** | 1,438 | 78.9% | 384 | 21.1% | **1,822** |
| **Dyfnaint a Chernyw** | 1,551 | 82.1% | 339 | 17.9% | **1,890** |
| **Dorset** | 1,074 | 83.0% | 220 | 17.0% | **1,294** |
| **Dyrham** | 950 | 80.0% | 238 | 20.0% | **1,188** |
| **Dyfed-Powys** | 660 | 78.9% | 177 | 21.1% | **837** |
| **Essex** | 2,169 | 77.8% | 618 | 22.2% | **2,787** |
| **Swydd Gaerloyw** | 605 | 79.7% | 154 | 20.3% | **759** |
| **Manceinion Fwyaf** | 4,933 | 79.7% | 1,256 | 20.3% | **6,189** |
| **Gwent** | 761 | 78.4% | 210 | 21.6% | **971** |
| **Hampshire** | 2,430 | 80.5% | 589 | 19.5% | **3,019** |
| **Swydd Hertford** | 1,139 | 75.8% | 364 | 24.2% | **1,503** |
| **Glannau Humber** | 1,467 | 81.4% | 336 | 18.6% | **1,803** |
| **Caint** | 2,581 | 76.1% | 811 | 23.9% | **3,392** |
| **Sir Gaerhirfryn** | 2,559 | 79.0% | 682 | 21.0% | **3,241** |
| **Swydd Gaerlŷr** | 1,286 | 77.1% | 382 | 22.9% | **1,668** |
| **Swydd Lincoln** | 979 | 82.1% | 214 | 17.9% | **1,193** |
| **Heddlu Llundain** | 10,373 | 67.4% | 5,025 | 32.6% | **15,398** |
| **Glannau Mersi** | 2,664 | 80.0% | 668 | 20.0% | **3,332** |
| **Norfolk** | 1,207 | 81.7% | 270 | 18.3% | **1,477** |
| **Swydd Northampton** | 897 | 74.9% | 300 | 25.1% | **1,197** |
| **Northymbria** | 2,414 | 71.8% | 949 | 28.2% | **3,363** |
| **Gogledd Cymru** | 1,349 | 80.2% | 332 | 19.8% | **1,681** |
| **Gogledd Sir Efrog** | 903 | 79.3% | 235 | 20.7% | **1,138** |
| **Nottinghamshire** | 1,870 | 77.9% | 530 | 22.1% | **2,400** |
| **De Cymru** | 3,034 | 74.0% | 1,067 | 26.0% | **4,101** |
| **De Sir Efrog** | 1,930 | 74.3% | 669 | 25.7% | **2,599** |
| **Swydd Stafford** | 1,539 | 72.9% | 573 | 27.1% | **2,112** |
| **Suffolk** | 879 | 82.7% | 184 | 17.3% | **1,063** |
| **Surrey** | 1,157 | 77.9% | 328 | 22.1% | **1,485** |
| **Sussex** | 1,808 | 74.7% | 611 | 25.3% | **2,419** |
| **Glannau Tafwys** | 2,380 | 75.3% | 781 | 24.7% | **3,161** |
| **Swydd Warwig** | 526 | 76.2% | 164 | 23.8% | **690** |
| **Gorllewin Mersia** | 1,640 | 77.0% | 491 | 23.0% | **2,131** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 4,435 | 74.2% | 1,544 | 25.8% | **5,979** |
| **Gorllewin Sir Efrog** | 4,226 | 77.8% | 1,206 | 22.2% | **5,432** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Wiltshire** | 734 | 85.7% | 122 | 14.3% | **856** |
| **Cyfanswm** | **80,380** | **76.1%** | **25,223** | **23.9%** | **105,603** |

## Erlyniadau DA yn ôl Ardal GEG:

| | 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 5,111 | 76.9% | 1,532 | 23.1% | **6,643** |
| **Dwyrain Lloegr** | 4,408 | 79.9% | 1,112 | 20.1% | **5,520** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 5,407 | 78.2% | 1,507 | 21.8% | **6,914** |
| **Gogledd Llundain** | 4,699 | 66.2% | 2,398 | 33.8% | **7,097** |
| **De Llundain** | 3,929 | 68.7% | 1,790 | 31.3% | **5,719** |
| **Glannau Mersi-Swydd Gaer** | 4,043 | 80.3% | 993 | 19.7% | **5,036** |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 3,674 | 74.2% | 1,275 | 25.8% | **4,949** |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 7,135 | 80.9% | 1,688 | 19.1% | **8,823** |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 4,704 | 76.5% | 1,447 | 23.5% | **6,151** |
| **De-orllewin Lloegr** | 3,504 | 79.5% | 903 | 20.5% | **4,407** |
| **Tafwys a Chiltern** | 3,518 | 74.7% | 1,189 | 25.3% | **4,707** |
| **Wessex** | 3,628 | 81.8% | 807 | 18.2% | **4,435** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 7,020 | 75.3% | 2,308 | 24.7% | **9,328** |
| **Sir Efrog a Glannau Humber** | 7,318 | 78.2% | 2,044 | 21.8% | **9,362** |
| **Cyfanswm** | **68,098** | **76.4%** | **20,993** | **23.6%** | **89,091** |

| | Erlyniadau DA yn ôl ardal llu heddlu 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Avon a Gwlad yr Haf** | 1,739 | 77.4% | 509 | 22.6% | **2,248** |
| **Bedfordshire** | 586 | 73.2% | 215 | 26.8% | **801** |
| **Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig** | 150 | 85.2% | 26 | 14.8% | **176** |
| **Swydd Gaergrawnt** | 769 | 78.2% | 214 | 21.8% | **983** |
| **Swydd Gaer** | 1,714 | 80.5% | 416 | 19.5% | **2,130** |
| **Cleveland** | 834 | 75.0% | 278 | 25.0% | **1,112** |
| **Cymbria** | 697 | 86.3% | 111 | 13.7% | **808** |
| **Derbyshire** | 1,192 | 78.9% | 318 | 21.1% | **1,510** |
| **Dyfnaint a Chernyw** | 1,261 | 82.9% | 260 | 17.1% | **1,521** |
| **Dorset** | 922 | 83.6% | 181 | 16.4% | **1,103** |
| **Dyrham** | 798 | 80.9% | 188 | 19.1% | **986** |
| **Dyfed-Powys** | 570 | 80.2% | 141 | 19.8% | **711** |
| **Essex** | 1,907 | 78.0% | 537 | 22.0% | **2,444** |
| **Swydd Gaerloyw** | 513 | 79.8% | 130 | 20.2% | **643** |
| **Manceinion Fwyaf** | 4,222 | 81.0% | 991 | 19.0% | **5,213** |
| **Gwent** | 670 | 79.5% | 173 | 20.5% | **843** |
| **Hampshire** | 2,088 | 80.1% | 519 | 19.9% | **2,607** |
| **Swydd Hertford** | 960 | 74.7% | 326 | 25.3% | **1,286** |
| **Glannau Humber** | 1,261 | 83.5% | 250 | 16.5% | **1,511** |
| **Caint** | 2,276 | 76.2% | 709 | 23.8% | **2,985** |
| **Sir Gaerhirfryn** | 2,220 | 79.0% | 591 | 21.0% | **2,811** |
| **Swydd Gaerlŷr** | 1,060 | 77.9% | 300 | 22.1% | **1,360** |
| **Swydd Lincoln** | 828 | 81.3% | 191 | 18.7% | **1,019** |
| **Heddlu Llundain** | 8,625 | 67.3% | 4,182 | 32.7% | **12,807** |
| **Glannau Mersi** | 2,329 | 80.3% | 573 | 19.7% | **2,902** |
| **Norfolk** | 1,005 | 82.3% | 216 | 17.7% | **1,221** |
| **Swydd Northampton** | 750 | 75.2% | 248 | 24.8% | **998** |
| **Northymbria** | 2,037 | 71.5% | 810 | 28.5% | **2,847** |
| **Gogledd Cymru** | 1,179 | 80.9% | 278 | 19.1% | **1,457** |
| **Gogledd Sir Efrog** | 741 | 79.6% | 190 | 20.4% | **931** |
| **Nottinghamshire** | 1,577 | 77.8% | 449 | 22.2% | **2,026** |
| **De Cymru** | 2,685 | 74.0% | 941 | 26.0% | **3,626** |
| **De Sir Efrog** | 1,625 | 74.1% | 567 | 25.9% | **2,192** |
| **Swydd Stafford** | 1,262 | 72.5% | 479 | 27.5% | **1,741** |
| **Suffolk** | 736 | 83.4% | 147 | 16.6% | **883** |
| **Surrey** | 942 | 77.7% | 270 | 22.3% | **1,212** |
| **Sussex** | 1,499 | 76.1% | 472 | 23.9% | **1,971** |
| **Glannau Tafwys** | 1,966 | 75.2% | 649 | 24.8% | **2,615** |
| **Swydd Warwig** | 419 | 78.9% | 112 | 21.1% | **531** |
| **Gorllewin Mersia** | 1,385 | 78.6% | 376 | 21.4% | **1,761** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 3,789 | 74.2% | 1,316 | 25.8% | **5,105** |
| **Gorllewin Sir Efrog** | 3,688 | 78.1% | 1,037 | 21.9% | **4,725** |
| **Wiltshire** | 622 | 85.4% | 106 | 14.6% | **728** |
| **Cyfanswm** | **68,098** | **76.4%** | **20,992** | **23.6%** | **89,090** |

## Erlyniadau treisio yn ôl Ardal GEG:

| | 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 140 | 60.9% | 90 | 39.1% | **230** |
| **Dwyrain Lloegr** | 142 | 62.8% | 84 | 37.2% | **226** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 231 | 60.3% | 152 | 39.7% | **383** |
| **Gogledd Llundain** | 187 | 51.2% | 178 | 48.8% | **365** |
| **De Llundain** | 177 | 49.6% | 180 | 50.4% | **357** |
| **Glannau Mersi-Swydd Gaer** | 114 | 56.4% | 88 | 43.6% | **202** |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 167 | 57.8% | 122 | 42.2% | **289** |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 266 | 56.7% | 203 | 43.3% | **469** |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 159 | 55.2% | 129 | 44.8% | **288** |
| **De-orllewin Lloegr** | 213 | 68.7% | 97 | 31.3% | **310** |
| **Tafwys a Chiltern** | 111 | 59.4% | 76 | 40.6% | **187** |
| **Wessex** | 78 | 66.1% | 40 | 33.9% | **118** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 311 | 56.2% | 242 | 43.8% | **553** |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 339 | 62.8% | 201 | 37.2% | **540** |
| **Cyfanswm** | **2,635** | **58.3%** | **1,882** | **41.7%** | **4,517** |

| | Erlyniadau treisio yn ôl ardaloedd lluoedd heddlu 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Avon a Gwlad yr Haf** | 92 | 61.7% | 57 | 38.3% | **149** |
| **Bedfordshire** | 16 | 57.1% | 12 | 42.9% | **28** |
| **Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig** | 2 | 40.0% | 3 | 60.0% | **5** |
| **Swydd Gaergrawnt** | 34 | 68.0% | 16 | 32.0% | **50** |
| **Swydd Gaer** | 49 | 50.5% | 48 | 49.5% | **97** |
| **Cleveland** | 35 | 74.5% | 12 | 25.5% | **47** |
| **Cymbria** | 27 | 57.4% | 20 | 42.6% | **47** |
| **Derbyshire** | 54 | 63.5% | 31 | 36.5% | **85** |
| **Dyfnaint a Chernyw** | 89 | 73.0% | 33 | 27.0% | **122** |
| **Dorset** | 17 | 58.6% | 12 | 41.4% | **29** |
| **Dyrham** | 34 | 54.8% | 28 | 45.2% | **62** |
| **Dyfed-Powys** | 21 | 77.8% | 6 | 22.2% | **27** |
| **Essex** | 39 | 60.9% | 25 | 39.1% | **64** |
| **Swydd Gaerloyw** | 32 | 84.2% | 6 | 15.8% | **38** |
| **Manceinion Fwyaf** | 162 | 52.9% | 144 | 47.1% | **306** |
| **Gwent** | 14 | 51.9% | 13 | 48.1% | **27** |
| **Hampshire** | 45 | 65.2% | 24 | 34.8% | **69** |
| **Swydd Hertford** | 28 | 77.8% | 8 | 22.2% | **36** |
| **Glannau Humber** | 66 | 57.4% | 49 | 42.6% | **115** |
| **Caint** | 58 | 56.3% | 45 | 43.7% | **103** |
| **Sir Gaerhirfryn** | 77 | 66.4% | 39 | 33.6% | **116** |
| **Swydd Gaerlŷr** | 36 | 46.8% | 41 | 53.2% | **77** |
| **Swydd Lincoln** | 27 | 69.2% | 12 | 30.8% | **39** |
| **Heddlu Llundain** | 364 | 50.3% | 359 | 49.7% | **723** |
| **Glannau Mersi** | 66 | 61.7% | 41 | 38.3% | **107** |
| **Norfolk** | | 65.6% | 21 | 34.4% | **61** |
| **Swydd Northampton** | | 57.1% | 30 | 42.9% | **70** |
| **Northymbria** | 98 | 54.4% | 82 | 45.6% | **180** |
| **Gogledd Cymru** | | 66.7% | 20 | 33.3% | **60** |
| **Gogledd Sir Efrog** | 31 | 63.3% | 18 | 36.7% | **49** |
| **Nottinghamshire** | 75 | 66.4% | 38 | 33.6% | **113** |
| **De Cymru** | 64 | 56.1% | 50 | 43.9% | **114** |
| **De Swydd Efrog** | 79 | 60.8% | 51 | 39.2% | **130** |
| **Swydd Stafford** | 53 | 50.5% | 52 | 49.5% | **105** |
| **Suffolk** | 29 | 56.9% | 22 | 43.1% | **51** |
| **Surrey** | 27 | 56.3% | 21 | 43.8% | **48** |
| **Sussex** | 74 | 53.2% | 65 | 46.8% | **139** |
| **Glannau Tafwys** | 67 | 54.9% | 55 | 45.1% | **122** |
| **Swydd Warwig** | 22 | 44.0% | 28 | 56.0% | **50** |
| **Gorllewin Mersia** | 62 | 57.9% | 45 | 42.1% | **107** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 172 | 60.1% | 114 | 39.9% | **286** |
| **Gorllewin Swydd Efrog** | 160 | 65.8% | 83 | 34.2% | **243** |
| **Wiltshire** | 18 | 85.7% | 3 | 14.3% | **21** |
| **Cyfanswm** | **2,635** | **58.3%** | **1,882** | **41.7%** | **4,517** |

## Erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn ôl Ardal GEG:

Ni fydd y data ar gyfer yr 14 Ardal GEG yn cyd-fynd yn llwyr â'r data ar gyfer y lluoedd heddlu perthnasol gan y bydd nifer fechan o erlyniadau ar draws ffiniau rhwng Ardaloedd yn ogystal â data o'r BTP.

| | 2017–18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Cymru** | 563 | 77.4% | 164 | 22.6% | **727** |
| **Dwyrain Lloegr** | 633 | 83.0% | 130 | 17.0% | **763** |
| **Dwyrain Canolbarth Lloegr** | 830 | 84.4% | 153 | 15.6% | **983** |
| **Gogledd Llundain** | 747 | 75.2% | 246 | 24.8% | **993** |
| **De Llundain** | 637 | 72.8% | 238 | 27.2% | **875** |
| **Glannau Mersi-Swydd Gaer** | 488 | 81.5% | 111 | 18.5% | **599** |
| **Gogledd-ddwyrain Lloegr** | 531 | 82.5% | 113 | 17.5% | **644** |
| **Gogledd-orllewin Lloegr** | 914 | 82.2% | 198 | 17.8% | **1,112** |
| **De-dwyrain Lloegr** | 675 | 80.2% | 167 | 19.8% | **842** |
| **De-orllewin Lloegr** | 544 | 82.7% | 114 | 17.3% | **658** |
| **Tafwys a Chiltern** | 591 | 82.8% | 123 | 17.2% | **714** |
| **Wessex** | 523 | 86.0% | 85 | 14.0% | **608** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 1,101 | 78.1% | 308 | 21.9% | **1,409** |
| **Swydd Efrog a Glannau Humber** | 877 | 81.4% | 201 | 18.6% | **1,078** |
| **Cyfanswm** | **9,654** | **80.4%** | **2,351** | **19.6%** | **12,005** |

| | Erlyniadau troseddau rhywiol (ac eithrio treisio) yn ôl ardal llu heddlu 2017-18 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Euogfarnau | | Achosion heb euogfarn | | Cyfanswm |
| | Nifer | % | Nifer | % | |
| **Avon a Gwlad yr Haf** | 282 | 85.2% | 49 | 14.8% | **331** |
| **Swydd Bedford** | 94 | 85.5% | 16 | 14.5% | **110** |
| **Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig** | 132 | 69.5% | 58 | 30.5% | **190** |
| **Swydd Gaergrawnt** | 130 | 83.9% | 25 | 16.1% | **155** |
| **Swydd Gaer** | 218 | 79.3% | 57 | 20.7% | **275** |
| **Cleveland** | 132 | 80.0% | 33 | 20.0% | **165** |
| **Cymbria** | 101 | 80.2% | 25 | 19.8% | **126** |
| **Derbyshire** | 192 | 84.6% | 35 | 15.4% | **227** |
| **Dyfnaint a Chernyw** | 201 | 81.4% | 46 | 18.6% | **247** |
| **Dorset** | 135 | 83.3% | 27 | 16.7% | **162** |
| **Dyrham** | 118 | 84.3% | 22 | 15.7% | **140** |
| **Dyfed-Powys** | 69 | 69.7% | 30 | 30.3% | **99** |
| **Essex** | 223 | 79.9% | 56 | 20.1% | **279** |
| **Swydd Gaerloyw** | 60 | 76.9% | 18 | 23.1% | **78** |
| **Manceinion Fwyaf** | 549 | 81.9% | 121 | 18.1% | **670** |
| **Gwent** | 77 | 76.2% | 24 | 23.8% | **101** |
| **Hampshire** | 297 | 86.6% | 46 | 13.4% | **343** |
| **Swydd Hertford** | 151 | 83.4% | 30 | 16.6% | **181** |
| **Glannau Humber** | 140 | 79.1% | 37 | 20.9% | **177** |
| **Caint** | 247 | 81.3% | 57 | 18.8% | **304** |
| **Sir Gaerhirfryn** | 262 | 83.4% | 52 | 16.6% | **314** |
| **Swydd Gaerlŷr** | 190 | 82.3% | 41 | 17.7% | **231** |
| **Swydd Lincoln** | 124 | 91.9% | 11 | 8.1% | **135** |
| **Heddlu Llundain** | 1,384 | 74.1% | 484 | 25.9% | **1,868** |
| **Glannau Mersi** | 269 | 83.3% | 54 | 16.7% | **323** |
| **Norfolk** | 162 | 83.1% | 33 | 16.9% | **195** |
| **Swydd Northampton** | 107 | 82.9% | 22 | 17.1% | **129** |
| **Northymbria** | 279 | 83.0% | 57 | 17.0% | **336** |
| **Gogledd Cymru** | 130 | 79.3% | 34 | 20.7% | **164** |
| **Gogledd Swydd Efrog** | 131 | 82.9% | 27 | 17.1% | **158** |
| **Nottinghamshire** | 218 | 83.5% | 43 | 16.5% | **261** |
| **De Cymru** | 285 | 78.9% | 76 | 21.1% | **361** |
| **De Swydd Efrog** | 226 | 81.6% | 51 | 18.4% | **277** |
| **Swydd Stafford** | 224 | 84.2% | 42 | 15.8% | **266** |
| **Suffolk** | 114 | 88.4% | 15 | 11.6% | **129** |
| **Surrey** | 188 | 83.6% | 37 | 16.4% | **225** |
| **Sussex** | 235 | 76.1% | 74 | 23.9% | **309** |
| **Glannau Tafwys** | 347 | 81.8% | 77 | 18.2% | **424** |
| **Swydd Warwig** | 85 | 78.0% | 24 | 22.0% | **109** |
| **Gorllewin Mersia** | 193 | 73.4% | 70 | 26.6% | **263** |
| **Gorllewin Canolbarth Lloegr** | 474 | 80.6% | 114 | 19.4% | **588** |
| **Gorllewin Swydd Efrog** | 378 | 81.5% | 86 | 18.5% | **464** |
| **Wiltshire** | 94 | 87.9% | 13 | 12.1% | **107** |
| **Cyfanswm** | **9,647** | **80.4%** | **2,349** | **19.6%** | **11,996** |

# Atodiad 2: Data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder

## Stelcio ac aflonyddu, gorchmynion atal a thoriadau

Nodwch: Mae data'r GEG yn wahanol i ddata'r WG o ran:

- Mae data'r GEG yn trafod y flwyddyn ariannol; mae data WG yn trafod y flwyddyn galendr.
- Mae data'r GEG yn cynnwys *yr holl* droseddau *a oedd wedi cychwyn* erlyniad yn hytrach nag wedi eu cwblhau. Mae'r data yn ôl trosedd ac nid yw'n darparu data yn ôl diffynnydd. Gall pob diffynnydd fod wedi cyflawni nifer o droseddau. Mae data'r WG yn ymdrin â'r prif drosedd a erlynwyd ac mae'n cael ei gyfrif ar sail diffynnydd.
- Mae ystadegau'r WG am orchmynion atal yn ymdrin â phan cyhoeddwyd gorchmynion atal yn unig i ddiffynyddion yn ymwneud â'u prif drosedd.
- Mae ystadegau'r WG am dorri gorchmynion atal yn ymdrin â diffynyddion a erlynwyd yn unig am dorri gorchymyn o'r fath fel eu prif drosedd. Mae data'r GEG yn cynnwys yr holl droseddau a oedd wedi cychwyn erlyniad, ac nid y rhai pan fo'r gorchymyn atal neu'r toriad yn ymwneud â phrif drosedd yn unig.
- Mae data'r WG am droseddwyr a erlynwyd yn ymwneud ag achosion a oedd wedi eu cwblhau yn y llys ynadon yn 2017, ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron.
- Mae data'r WG am droseddwyr a gollfarnwyd yn ymwneud â'r rhai a euogfarnwyd yn 2017, gallai'r rhai hyn wedi cael eu herlyn yn y blynyddoedd diwethaf.
- Cymhareb euogfarnu WG yw'r nifer o ddiffynyddion a euogfarnwyd wedi ei rannu â'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd (gall fod rhai euogfarnau yn 2017 am achosion a erlynwyd cyn 2017; a bydd rhai erlyniadau yn y data hyn nad ydynt wedi eu cwblhau eto yn Llys y Goron).

## Stelcio ac aflonyddu

Yn 2017, dengys ystadegau'r WG[1] [2] [3] ar gyfer Cymru a Lloegr i 6,109 o ddiffynyddion gael eu herlyn am droseddau adran.2 Deddf Atal Aflonyddu 1997 (adran.2 PHA) o droseddau aflonyddu heb drais, o gymharu â 6,678 yn 2016. Mae'r gymhareb euogfarnu wedi gostwng ychydig ers 2016, o 80% i 79% yn 2017.

[1] Mae'r ffigurau a roddir yn ymwneud â diffynyddion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol - er nad yw hyn yn berthnasol i'r nifer o orchmynion atal a gyhoeddwyd gan fod hyn yn ystyried y rhai a roddwyd fel cosbau eilaidd neu drydyddol am y prif drosedd.

[2] Gwneir pob ymgais i sicrhau bod y ffigurau a gyflwynir yn gywir a chyflawn. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y data hwn wedi ei dynnu o systemau data gweinyddol mawr a grëwyd gan y llysoedd a lluoedd heddlu. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus bod prosesau casglu data a'u cyfyngiadau anochel yn cael eu hystyried wrth ddefnyddio'r data hwnnw.

[3] Oherwydd diweddariadau yn dilyn sicrwydd ansawdd yn y flwyddyn ddiweddaraf, gan gynnwys ailddosbarthu rhai troseddau, efallai na fydd canlyniadau cyn 2016 yn cyfateb â'r rhai a gyhoeddwyd o'r blaen.

Erlynwyd 711 o ddiffynyddion am droseddau aflonyddu PHA adran.4 - codi ofn trais ar bobl yn 2017, o gymharu â 912 yn 2016; gyda 550 wedi eu heuogfarnu, o gymharu â 669 wedi eu heuogfarnu yn 2016. Er i'r nifer o erlyniadau ac euogfarnau ostwng ers y flwyddyn gynt, arhosodd y gymhareb euogfarnu yn 77%.

Erlynwyd 555 diffynnydd am droseddau PHA adran.2A yn dilyn llwybr sy'n arwain at stelcio sy'n achosi ofn/dychryn/gofid yn 2017, o gymharu â 348 yn 2016. Euogfarnwyd 423, o gymharu â 239 euogfarn yn 2016. Cynyddodd y gymhareb euogfarnu, o 69% i 76%.

Erlynwyd 81 diffynnydd yn 2017 am droseddau o stelcio dan a.4A PHA yn ymwneud ag ofn o drais, o gymharu â 38 yn 2016; gyda 48 wedi eu heuogfarnu, o gymharu â 25 yn 2016. Roedd gostyngiad yn y gymhareb euogfarnu o 59% o gymharu â 66% yn y flwyddyn flaenorol.

Erlynwyd 305 diffynnydd yn 2017 am droseddau o stelcio dan a.4A yn ymwneud ag achosi dychryn neu ofid difrifol o gymharu â 212 yn 2016; gyda 168 wedi eu heuogfarnu, o gymharu â 148 yn 2016. Roedd gostyngiad yn y gymhareb euogfarnu o 55% o'i gymharu â 70% yn y flwyddyn flaenorol.

## Gorchmynion atal a thoriadau

Dengys ystadegau'r WG,[4] yn 2017, y cyhoeddwyd 19,216 o orchmynion atal ar euogfarn yng Nghymru a Lloegr (o gymharu â 23,132 yn 2016) a chodwyd 1,932 ar ryddfarn (o gymharu â 2,117 yn 2016).

Yn ystod 2017, erlynwyd 10,091 diffynnydd am dorri gorchmynion atal a gyflwynwyd ar euogfarn, gyda 9,149 wedi eu heuogfarnu. Roedd hyn yn gynnydd o 9,921 o erlyniadau ac 8,953 o euogfarnau yn 2016.

Hefyd, erlynwyd 529 o ddiffynyddion am dorri gorchmynion atal a gyhoeddwyd yn dilyn rhyddfarn y diffynnydd, gyda 430 wedi'u heuogfarnu. Roedd hyn yn gynnydd o 358 o erlyniadau a 277 o euogfarnau yn 2016.

Roedd cymhareb euogfarnu o 90% ar draws pob erlyniad am dorri gorchymyn atal eleni, yn aros yn sefydlog dros amser.

[4] Mae nifer fach o ddiffynyddion gyda rhyw anhysbys wedi 2010, felly nid yw'r cyfanswm o ddiffynyddion yn llwyr cyfateb â'r rhif diffynyddion gwrywaidd â'r rhif diffynyddion menywod yn dilyn y dyddiad hwn.

# Ystadegau Treisio Cenedlaethol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Nodwch: mae data GEG yn wahanol i ddata'r WG o ran:

- Mae data GEG yn trafod y flwyddyn ariannol; mae cyhoeddiadau Ystadegau Cenedlaethol y WG yn cyflwyno data ar gyfer y flwyddyn galendr.
- Mae data GEG am erlyniadau a gwblhawyd yn 2017-18; mae data erlyn y WG yn ymwneud ag achosion a oedd wedi eu cwblhau yn y Llys Ynadon yn 2017, ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron.
- Mae euogfarnau GEG am achosion o dreisio wedi'i fflagio sy'n cael euogfarn am dreisio, neu am drosedd arall neu lai; mae euogfarnau'r WG yn cynnwys y rhai a euogfarnwyd am dreisio yn unig yn 2017, gallai'r rhai hyn wedi cael eu herlyn yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gwahaniaeth hwn o ran cofnodi yn golygu bod GEG wedi adrodd nifer uwch o erlyniadau na'r rhai a gofnodwyd mewn data'r WG.
- Cyfradd euogfarnu GEG yw'r gyfran o euogfarnau allan o erlyniadau o dreisio wedi'i fflagio a gwblhawyd yn 2016-17; cyfradd euogfarnu'r WG yw'r nifer o droseddwyr a euogfarnwyd am dreisio yn 2017 (heb ystyried y flwyddyn a erlynwyd hwy yn gyntaf) wedi ei rannu gyda'r nifer o ddiffynyddion a erlynwyd am dreisio yn 2017 (fel a welir yn nhroednodyn 7).

Mae Ystadegau Cenedlaethol y WG yn cynnwys ystadegau swyddogol am ddiffynyddion a erlynwyd am dreisio. Mae'r ffigurau hyn yn dangos, ym mlwyddyn galendr 2017, bod 3,141 o ddiffynyddion, ar sail prif drosedd,[5] [6] wedi cael eu herlyn am dreisio mewn llysoedd ynadon yng Nghymru a Lloegr, gyda 2,988 o achosion yn cael eu hanfon i'r Llys y Goron i'w profi. Mae hyn yn is na'r nifer o erlyniadau yn 2016, pan erlynwyd 3,716 o ddiffynyddion. Yn 2017 euogfarnwyd 1,127 o droseddwyr o dreisio yng Nghymru a Lloegr, gyda chymhareb euogfarnu o 36% . Mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na'r rhai yn 2016, pan euogfarnwyd 1,352 o droseddwyr; er hynny, arhosodd y gymhareb gollfarnu yr un peth yn 36%. Mae'r gymhareb hon ond yn cymharu niferoedd a erlynwyd am brif drosedd o dreisio gyda'r niferoedd a euogfarnwyd am brif drosedd o dreisio; gallai'r rhai a erlynwyd am dreisio fynd ymlaen i'w euogfarnu am droseddau eraill yn Llys y Goron.[7] Mae data'r WG yn adlewyrchu'r diffynyddion a gafodd eu herlyniadau wedi'u cwblhau yn y Llys Ynadon yn 2017 (a gallai'r achos wedi cael ei anfon i'r Llys y Goron), ac felly mae'n cynnwys achosion sydd wedi eu cwblhau ac achosion sy'n dal yn fyw yn Llys y Goron. Roedd bron 100% o'r diffynyddion a erlynwyd a'r troseddwyr a euogfarnwyd am dreisio yn wrywaidd.[8]

---

[5] Mae'r ffigurau a roddir yn ymwneud â diffynyddion yr oedd y troseddau hyn yn brif droseddau yr oeddynt yn cael eu cyhuddo ohonynt. Pan fydd diffynnydd wedi ei gael yn euog o ddwy drosedd neu fwy, defnyddir y drosedd y cyflwynir y gosb drymaf ar ei chyfer. Pan weithredir yr un gosb am ddwy drosedd neu fwy, y drosedd a ddewisir yw'r un gyda'r uchafswm cosb statudol mwyaf difrifol.

[6] Mae ffigurau treisio yma yn cynnwys troseddau o dreisio ac ymgais i dreisio, yn erbyn dynion a menywod, i gael cysondeb gyda gweddill yr adroddiad hwn.

[7] I'w rhoi mewn cyd-destun y gwahaniaeth mewn cymarebau/ffigurau euogfarnu rhwng y WG a GEG, mae'n werthfawr i gymharu ffigurau GEG gyda dadansoddiad y WG o 2013, a werthusodd y nifer o ddiffynyddion a erlynwyd am droseddau treisio yn 2009 a euogfarnwyd o unrhyw drosedd rhwng 2009 a 2011. Dangosodd y dadansoddiad hwn, o'r rhai a erlynwyd yn gyntaf am dreisio, fod 56% wedi'u heuogfarnu am unrhyw drosedd, gan gynnwys 33% a euogfarnwyd am dreisio. Roedd y nifer a euogfarnwyd am unrhyw drosedd yn fwy cyfartal â ffigurau euogfarnu GEG yn 2008-09 o 57.7%; 59.4% yn 2009-10 a 58.6% yn 2010-11.

[8] Mae'r ffigurau ar gyfer y diffynyddion â rhyw wedi'i gofnodi yn dod i gyfanswm bron o 100%, yn nodi bod nifer fach iawn o'r diffynyddion yn fenywod.

# Yr amser a gymerir rhwng cyhuddo a mynd i'r llys

Mae'r data terfynol am yr amser a gymerir rhwng cyhuddo a chwblhau'r achos yn y llys am achosion treisio, ledled Cymru a Lloegr, wedi cael ei ddarparu gan y WG o 2010-17. Mae'r data diwygiedig hyn yn cynnwys achosion dros ddeng mlynedd ac felly mae wedi cael ei ddiweddaru ers adroddiad VAWG 2015-16 GEG.

Wrth edrych ar ddata'r WG, mae'r amser a gymerir rhwng cyhuddo a chwblhau achos i'w gweld yn cynyddu ychydig dros y blynyddoedd diwethaf.

| | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Data'r WG - Yr amser canolog[9] mewn dyddiau o'r cyhuddiad i'r cwblhad [10] | 213 | 226 | 225 | 225 | 238 | 258 | 259 | 265 |

[9] Y canolrifol yw'r nifer ar ganol y dosbarthiad data; mae hanner o'r ystodau cofnodedig yn y cyfnod amser yn hirach na'r canolrifol, ac mae hanner o'r ystodau yn fyrrach. Mae'r canolrifol yn weddol nad effeithir arno gan niferoedd eithafol ac mae'n fwy addas fel mesur 'cyfartaledd' ar gyfer data camarweiniol.

[10] Mae'r ffigurau yn y tabl hwn wedi cael eu diwygio i gynnwys methodoleg newydd a ddaeth i rym yn 2016, ac felly ddim yn cyd-fynd â fersiynau blaenorol cyn eleni. Mae'r fethodoleg newydd bellach yn cynnwys achosion sy'n cymryd mwy na 10 mlynedd, o amser y drosedd i'r amser a gwblheir yr achos, a oedd heb gael eu cynnwys o'r blaen.

# Geirfa

## Trais yn erbyn menywod a merched

**Mae pob adran yn nhrefn yr wyddor oni nodir yn wahanol.**

Cam-drin plant:

Unrhyw drosedd sy'n bodloni'r meini prawf a welir yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant ac sy'n ymwneud â dioddefwr dan 18 oed.[1]

Mae cam-drin plant yn cynnwys troseddau corfforol, emosiynol a rhywiol, yn ogystal ag esgeulustod, a chamfanteisio ar blentyn. Byddai achosion o'r fath fel arfer yn cynnwys, er enghraifft:

- ymosodiad gan riant pan na fydd cerydd resymol yn amddiffyniad;
- troseddau rhywiol;
- dynladdiad plant;
- creulondeb yn erbyn plentyn, gan gynnwys esgeulustod;
- puteindra plant;
- aflonyddu;
- cefnu ar blentyn;
- priodas dan orfod yn cynnwys unigolyn dan 18 oed;
- pornograffi plant;
- plant sy'n cael eu masnachu;
- cipio teuluol; a
- cham-drin plant yn y gorffennol lle mae'r dioddefwr bellach yn oedolyn.

Mae achosion na chaent, fel arfer, eu fflagio yn cynnwys:

- troseddau moduro pan fo'r plentyn wedi ei anafu neu wedi'i ladd;
- esgeulustod meddygol; a
- throseddau eiddo.

Cam-drin domestig:

O Ebrill 2013:
unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad, trais neu gam-drin sy’n rheoli, gorfodi, neu’n bygwth rhwng y rhai sy’n 16 mlwydd oed neu drosodd sy’n bartneriaid agos neu’n aelodau o’r teulu neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu’n aelodau teulu, waeth beth fo’u rhyw neu rywioldeb. Gall hyn ymgorffori’r mathau canlynol

[1] Llywodraeth EM, *Working Together to Safeguard Children: A guide to interagency working to safeguard and promote the welfare of children (2018)* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/729914/Working_Together_to_Safeguard_Children-2018.pdf

o gam-drin ond nid yw'n gyfyngedig iddynt: seicolegol; corfforol; rhywiol; ariannol; emosiynol.

*Mae ymddygiad sy'n rheoli yn: amrywiaeth o weithredoedd a ddyluniwyd i wneud rhywun yn israddol ac/neu yn ddibynnol trwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, camfanteisio ar eu hadnoddau a'u gallu er elw personol, eu hamddifadu o'r moddion angenrheidiol ar gyfer annibyniaeth, gwrthwynebiad a ffoi ac yn rheoli eu hymddygiad o ddydd i ddydd.*

*Ymddygiad gorfodol yw: gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio ac aflonyddu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi, neu ddychryn y dioddefwr.*

*Diffinnir aelodau o'r teulu fel mam, tad, mab, merch, brawd, chwaer a neiniau a theidiau boed yn perthyn yn uniongyrchol, yn deulu yng nghyfraith neu lysdeulu. Serch hynny, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gallai gael ei hymestyn i gynnwys ewythrod, modrybedd, cefnderoedd, ayyb.*

*Mae'r diffiniad hwn, nad yw'n ddiffiniad cyfreithiol, yn cynnwys yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd', FGM (FGM) a phriodas dan orfod, ac mae'n glir nad yw'r dioddefwyr yn cael eu cyfyngu i un rhyw neu grŵp ethnig.*

Rydym yn defnyddio fflag DA i bob achos heb ystyried oedran yr achwynydd neu'r un dan amheuaeth.

| | |
|---|---|
| Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod | Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) yn derm cyfunol ar gyfer unrhyw driniaeth sy'n tynnu organau cenhedlu allanol menywod yn llwyr neu'n rhannol at ddibenion nad ydynt yn rhai meddygol.<br><br>Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), mae FGM wedi cael ei ddosbarthu i bedwar prif fath, a gallai unrhyw un o'r rhai hyn fod yn berthnasol i'r troseddau a godir dan Deddf FGM 2003. |
| Priodas dan orfod: | Y diffiniad o briodas dan orfod yw: "Priodas heb gydsyniad un neu ddau o'r partïon pan fydd gorfodaeth yn ffactor". Gorfodaeth yw: "a yw meddwl yr ymgeisydd wedi'i lethu, sut bynnag yr achoswyd hynny". Pan fydd priodas dan orfod o fewn y teulu, a/neu yn cynnwys cam-drin plant, a/neu droseddwr ifanc, yna rhaid rhoi pob fflag berthnasol.<br><br>Dylai'r fflag gael ei defnyddio gydag unrhyw achos pan: |

- fydd troseddau dan adran.121 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 yn cael eu hystyried wrth benderfynu cyn cyhuddo neu eu cyhuddo; a
- fydd Gorchymyn Amddiffyn Priodas dan Orfod yn cael ei dorri dan adran.120 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (adran.63CA Deddf Cyfraith Teulu 1996).

Dylai'r fflag gael ei rhoi o ddechrau'r achos, a bydd yn aros yn ei lle hyd yn oed os bydd y cyhuddiadau hynny yn cael eu diwygio neu eu gollwng yn ddiweddarach. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o briodas dan orfod dylid gosod fflag ar y cam hwnnw.

Yn ychwanegol, dylai'r fflag gael ei defnyddio hefyd pan fydd unrhyw drosedd o ymddygiad bygythiol, trais neu gamdriniaeth (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a ddigwyddodd yng nghyd-destun priodas dan orfod, naill ai:

- i orfodi parti/partïon i briodi heb eu caniatâd, a fuasai'n cael ei erlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. aflonyddu, cipio, bygwth lladd; *neu*
- ar ôl priodas dan orfod heb ganiatâd un neu'r ddau barti a lle mae gorfodaeth yn ffactor, a fuasai yn cael ei erlyn am y drosedd benodol e.e. treisio, ymosodiad rhywiol.

Trais 'ar sail anrhydedd':

Y diffiniad o drais 'ar sail anrhydedd' i'w ddefnyddio yw'r diffiniad a fabwysiadwyd gan yr Uned Priodas dan Orfod yn y Swyddfa Gartref: "Mae'r hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd' yn drosedd neu ddigwyddiad, sydd wedi neu a allai fod wedi ei gyflawni i ddiogelu neu amddiffyn urddas y teulu ac/neu gymuned".

Bydd unrhyw drosedd ymddygiad bygythiol, trais neu gam-drin (seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol neu emosiynol) a gyflawnwyd felly ac a elwir yn 'drosedd anrhydedd' yn cael ei fflagio fel trais 'ar sail anrhydedd'. Byddai achosion yn cael eu herlyn am y drosedd benodol a gyflawnwyd, e.e. ymosodiad cyffredin, GBH, aflonyddu, herwgipio, treisio, bygythiad i ladd, llofruddiaeth.

Arferion niweidiol:

Mae arferion niweidiol yn fathau o drais a gyflawnir yn bennaf yn erbyn menywod a merched, mewn rhai cymunedau a chymdeithasau, heb eu 'caniatâd', er mwyn cadw menywod nes iddynt ymostwng, yn ôl normau eu cymunedau. Fel y mae yn achos pob math o drais yn erbyn menywod a merched, mae arferion traddodiadol niweidiol yn ymyrraeth ddifrifol ar hawliau dynol.

| | |
|---|---|
| Masnachu pobl: | Defnyddir y fflag masnachu pobl yn achos:<br><br>• Troseddau sydd wedi'u fflagio yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 (adrannau.57, 58, 59 a 59A),<br>• Deddf Lloches a Mewnfudo [Triniaeth Hawlwyr] 2004 adrannau. 4(1), (2) a (3); a<br>• Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 adran.71<br>• Deddf Caethwasiaeth Modern 2015 adran.1 ac adran.2<br><br>Gosodir y fflag ar gychwyn yr achos a bydd y fflag hon yn aros yn ei lle hyd yn oed os yw'r cyhuddiadau hynny'n cael eu diwygio neu eu gollwng yn dilyn hynny. Os bydd achos yn cychwyn dan drosedd wahanol ond yna'n cael ei newid i gyhuddiad o fasnachu, dylai'r achos gael ei fflagio ar y cam hwnnw.<br><br>O Ebrill 2013:<br>Disodlwyd Adrannau.57, 58 a 59 Deddf Troseddau Rhywiol 2003 gan adran.59A SOA; a<br>diddymwyd adrannau.4(1), (2) a (3) Deddf Lloches a Mewnfudo [Trin Hawlwyr] 2004; a chymerodd adran.4(1A) (1B) (1C) A ac IA ei lle. |
| Treisio: | Unrhyw ddiffynnydd sy'n cael ei gyhuddo o un neu fwy o'r troseddau canlynol:<br><br>• adran.1 Deddf Troseddau Rhywiol 1956<br>• adran.5 Deddf Troseddau Rhywiol 1956<br>Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981<br>• adran.1 Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>• adran.5 Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>• adran.30(3) Deddf Troseddau Rhywiol 2003<br>Ymgais i gyflawni un o'r troseddau uchod dan Ddeddf Ymgeisiau Troseddol 1981<br><br>Ysgogi neu gynllwynio i gyflawni unrhyw un o'r troseddau uchod |
| Troseddau rhywiol ac eithrio treisio: | Unrhyw ddiffynnydd y mae categori ei brif drosedd, ar adeg ei chwblhau, yn drosedd rhywiol ac eithrio treisio. |

**Termau rheoli perfformiad**

| | |
|---|---|
| Fflagiau monitro: | Mae mathau sensitif o achosion wedi'u dynodi gan nifer o fflagiau monitro, a'u defnyddio gydag achosion priodol yn ystod y cam cyn cyhuddo. Mae'r fflagiau yn caniatáu i reolwyr fonitro gweithrediadau yn ystod oes yr erlyniad, ac |

yn galluogi adrodd ar ddeilliannau yn dilyn cwblhau'r achos. Mae'r data yn gywir yn unig i'r graddau y mae'r fflag wedi cael ei defnyddio yn gywir; efallai bod nifer fechan o achosion pan nad yw'r fflag wedi cael ei defnyddio.

Prif droseddau: Categori prif drosedd: bydd troseddau a gyhuddir yn cael eu dyrannu i un o ddeuddeg categori trosedd er mwyn dangos y math o drosedd a difrifoldeb y cyhuddiadau a ddwynir yn erbyn y diffynnydd. Mae'r Categori Prif Drosedd yn dangos y drosedd fwyaf difrifol y cyhuddwyd y diffynnydd ohoni **ar yr adeg cwblhau.** Pan fo natur y cyhuddiadau yn newid yn ystod oes yr achos, efallai y bydd y Brif Drosedd ar yr adeg cwblhau yn wahanol i'r hyn a ymddangosai'n briodol ar adeg flaenorol yr achos. Yn yr holl achosion o'r fath, y categori Prif Drosedd a gofnodir yw'r un sy'n berthnasol **ar yr adeg gwblhau**, boed yn fwy difrifol, neu'n llai difrifol, na'r hyn oedd yn berthnasol ynghynt yn oes yr achos.

Pan fo diffynnydd yn wynebu nifer o gyhuddiadau dan wahanol Gategorïau Prif Drosedd, dewisir yr un fwyaf difrifol **yn ôl y drefn flaenoriaeth a ganlyn:**

Laddiad: Mae 'Lladdiad' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, dynladdiad, mabanladdiad, difa plentyn, cynllwynio neu gymell i gyflawni llofruddiaeth ac achosi marwolaeth trwy yrru'n beryglus.

Troseddau yn erbyn yr unigolyn: Mae 'Troseddau yn erbyn yr unigolyn' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys – niwed corfforol difrifol, ymosodiad gan achosi niwed corfforol gwirioneddol, ymosodiad cyffredin, meddiannu dryll gyda'r bwriad o achosi ofn trais a chipio plentyn.

Troseddau rhywiol: Mae 'Troseddau Rhywiol' yn cynnwys nifer o droseddau gan gynnwys - treisio, sodomiaeth, ymosodiad rhywiol, bigamedd, caffael ac anweddustra difrifol gyda phlentyn.

Difrod troseddol: Mae 'difrod troseddol' yn cynnwys troseddau megis llosgi bwriadol, difrod troseddol neu faleisus, a llosgi bwriadol neu ddifrod troseddol sy'n peryglu bywyd.

Troseddau trefn gyhoeddus: Mae 'Troseddau Trefn Gyhoeddus' yn cynnwys troseddau terfysg, anhrefn treisgar neu achosi ffrwgwd.

**Canlyniadau achosion**

Penderfyniadau cyn cyhuddo: Mae Canllaw'r Cyfarwyddwr ar gyhuddo (5ed Rhifyn) yn datgan y gall yr heddlu gyhuddo unrhyw drosedd Ddiannod yn unig (un y gellir delio â hi yn y llys ynadon) waeth beth yw'r ple ac unrhyw drosedd y naill ffordd neu'r llall (y gellir ei phrofi naill ai yn y llys ynadon neu Lys y Goron) pan

ragwelir ple euog a'i fod yn addas i gael dedfryd yn y llys ynadon yn amodol ar eithriadau penodol fel trais domestig (DA), troseddau casineb ac achos yn ymwneud â marwolaeth. Mae rhaid i erlynyddion GEG wneud y penderfyniadau cyhuddo ym mhob achos ditiadwy yn unig (yr achosion hynny na ellir eu profi ond yn Llys y Goron), troseddau naill ffordd neu'r llall nad ydynt yn addas ar gyfer y llys ynadon a phan ragwelir ple ddieuog.

| | |
|---|---|
| Wedi'i gyhuddo: | Achosion pan benderfynodd GEG y dylid cyhuddo.<br><br>Mae GEG yn ceisio gwella ansawdd y data a ddefnyddir mewn adroddiadau mewnol ac allanol ar bob cyfle. Yn ystod 2013-14, datblygwyd dull diwygiedig o adrodd ar ganlyniadau penderfyniadau cyhuddo. Defnyddiwyd y dull diwygiedig yn yr adroddiad hwn sy'n rhoi ffigwr mwy cywir ar gyfer y ganran o achosion diffynyddion a aeth ymlaen i'w herlyn. O ganlyniad, bydd y data yn wahanol i'r hyn a adroddwyd mewn blynyddoedd cyn 2013-14. |
| Dim erlyniad: | Achosion pan fydd GEG yn penderfynu na ddylid erlyn, am resymau tystiolaethol neu am resymau budd y cyhoedd. |
| Ymdrin ag achosion tu allan i'r llys: | Pan fydd rhybudd, rhybudd amodol, cerydd neu rybudd terfynol wedi cael ei roi neu pan mae'r drosedd wedi ei hystyried yn ymwneud â chyhuddiadau eraill. |
| Terfynu'n Weinyddol: | Nid yw'r sawl a amheuir wedi ateb mechnïaeth ac mae'r gwarant yn aros neu mae'r achos wedi ei derfynu yn weinyddol am nifer o resymau. |
| Arall: | Nid yw canlyniad y penderfyniad cyhuddo wedi ei gofnodi neu nid yw wedi ei ddiffinio. |
| Erlyniadau: | Yr holl ddiffynyddion a gyhuddwyd neu a dderbyniodd wŷs neu sy'n mynychu oherwydd gofyniad drwy'r post ac y cwblhawyd yr achos yn llys yr ynadon neu Lys y Goron yn ystod y cyfnod, gan gynnwys y rhai a aeth ymlaen i dreial neu bledio'n euog, y rhai na chwblhawyd a'r rhai na ellid bwrw ymlaen â nhw. |
| Achosion a ddadleuwyd yn cynnwys pleon cymysg Cymysg Euog/Dieuog a Dadl: | (a) Mae'r Diffynnydd yn rhoi o leiaf un ble euog i set o gyhuddiadau, a<br>(b) ple ddieuog i un neu fwy o gyhuddiadau, ac<br>(c) nid yw'r pleon hyn yn dderbyniol i GEG, ac<br>(d) mae'r mater yn symud ymlaen i'r llys |
| Achosion a ddadleuwyd ac eithrio pleon cymysg Dieuog a Dadl: | (a) Mae'r Diffynnydd yn rhoi pleon dieuog yn unig, AC<br>(b) mae achos llys yn digwydd |

| | |
|---|---|
| Achosion heb euogfarn: | Yr holl erlyniadau a gwblhawyd pan na chafwyd y diffynnydd yn euog, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Terfynu'n weinyddol: | Pan na all erlyniad fynd yn ei flaen oherwydd bod y diffynnydd wedi methu ymddangos yn y llys ac mae Gwarant gan y Fainc wedi'i chyflwyno i'w arestio ef neu hi; neu fod y diffynnydd wedi marw, neu nad yw'n ffit i bledio: neu pan fydd achosion yn cael eu gohirio yn amhenodol. Os bydd Gwarant gan y Fainc yn cael ei chyflawni mae'n bosib ail agor yr achos. |
| Traddodebau a ryddhawyd: | Achosion traddodi pan fo'r diffynnydd yn cael ei ryddhau. Yn dilyn rhyddhau, gellir ailgychwyn achos. |
| Terfynu a thynnu'n ôl: | Gall ystyried y dystiolaeth a budd y cyhoedd arwain GEG i benderfynu terfynu achosion ar unrhyw adeg cyn dechrau'r treial. Yn gynwysedig yma mae achosion a derfynwyd yn ffurfiol cyn y gwrandawiad, y rheiny na chynigiwyd unrhyw dystiolaeth ynddynt, a'r rheiny a dynnwyd yn ôl yn ystod yr achos llys. Yma hefyd cynhwysir achosion pan gafodd y diffynnydd ei rwymo i gadw'r heddwch. |
| Gwrthod ar ôl treial llawn: | Achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y bydd yr ynadon yn gwrthod yr achos ar ôl gwrando achos y diffynnydd. |
| Barnwr yn rhoi cyfarwyddyd i ryddfarnu: | Achosion pan, ar ddiwedd achos yr erlyniad yn erbyn y diffynnydd, y gwneir argymhelliad llwyddiannus o 'ddim achos' neu 'anniogel' ar ran y diffynnydd, ac y bydd y barnwr yn cyfarwyddo rhyddfarn yn hytrach na chaniatáu i'r achos gael ei benderfynu gan y rheithgor. |
| Rhyddfarnu gan reithgor: | Pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac, yn dilyn treial, yn cael rhyddfarn gan y rheithgor. |
| Dim achos i'w ateb: | Achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog ac y gwrandewir ar dystiolaeth yr erlyniad, ond y gwrthodir yr achos gan yr ynadon heb wrando ar achos y diffynnydd. |
| Pob achos arall heb euogfarn: | Yn cynnwys terfyniadau gweinyddol, canlyniadau traddodebau a dim achos i'w ateb. |
| Euogfarnau**:** | Achosion pan euogfarnir y diffynnydd yn dilyn erlyniad, sy'n cynnwys y canlynol: |
| Euogfarn yn dilyn treial: | Achosion pan fydd y diffynnydd yn pledio'n ddieuog, ond yn cael ei ddyfarnu'n euog ar ôl gwrando ar y dystiolaeth. |
| Ple euog: | Pan fydd y diffynnydd yn pledio'n euog. |

Prawf am absenoldeb: Mae'r rhain yn droseddau llai a glywir gan y llys yn absenoldeb y diffynnydd.

**Rhesymau am beidio ag euogfarnu**

Rhyddfarnau ar ôl yr achos: Mae’r diffynnydd yn cael ei farnu yn ddieuog gan yr ynadon neu'r reithgor ar ôl gwrandawiad sy’n cael ei herio pan fo’r amddiffyniad yn cael ei alw i gyflwyno ei achos. (Ni chynhwysir achosion wedi eu gwrthod, dim achos i’w ateb neu’r barnwr wedi cyfarwyddo rhyddfarn).

Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi'r achos: Nid yw tystiolaeth y dioddefwr am y drosedd yn cefnogi'r achos ac erlyn y diffynnydd, yn arwain at ganlyniad heb euogfarn, ond, er hynny, nid yw'r dioddefwr wedi datgyffesu.
(Diwygiwyd y ‘teitl rheswm’ yn Ebrill 2013 i: Nid yw tystiolaeth y dioddefwr yn cyrraedd safon prawf, ond nid oes datgyffes).

Dioddefwr ddim yn mynychu: Gelwir y dioddefwr yn dyst mewn achos, ond nid yw’n mynychu’r llys.

Dioddefwr yn datgyffesu: Pan fydd tystiolaeth y dioddefwr yn cefnogi achos yr erlyniad, y dioddefwr yn gwrthod cael ei alw i dystio, neu’n datgyffesu, neu’n tynnu’r gŵyn yn ôl.

Gwrthdaro tystiolaeth: Gwrthdaro yn nhystiolaeth yr erlyniad (o Ebrill 2013, addaswyd yr arweiniad i egluro na ddylid defnyddio’r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn datgyffesu, neu os nad yw’n mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).

Elfen Gyfreithiol Allweddol ar Goll: Elfen gyfreithiol allweddol ar goll (addaswyd y ‘teitl rheswm’ yn Ebrill 2013 i ‘Penderfyniad cyhuddo anghywir – elfen gyfreithiol ar goll’; roedd yr arweiniad diwygiedig yn egluro na ddylid defnyddio’r rheswm hwn pan fydd y dioddefwr yn datgyffesu, ddim yn mynychu neu os nad yw ei dystiolaeth yn cyrraedd safon prawf).

Tyst annibynadwy: Tyst neu dystion annibynadwy (Addaswyd y ‘teitl rheswm’ yn Ebrill 2013 i: ‘Tyst allweddol (nid dioddefwr) yn gwrthod rhoi tystiolaeth/datgyffesu/ddim yn cyrraedd safon prawf’ i ddarparu eglurder).

**Termau cyfreithiol**

Achlust: Adran 116 (1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Mewn camau troseddol, datganiad na wnaed mewn tystiolaeth lafar yn y camau cyfreithiol yn dderbyniol fel tystiolaeth unrhyw fater a nodir os:

(a) byddai tystiolaeth lafar a roddwyd yn yr achos gan yr unigolyn a wnaeth y datganiad yn dderbyniol fel tystiolaeth o'r mater hwnnw,
(b) yw'r unigolyn a wnaeth y datganiad (yr unigolyn perthnasol) yn cael ei ddynodi i fodloni'r llys, a
(c) bydd unrhyw un o'r pum amod a grybwyllir yn is-adran (2) yn cael eu bodloni.

Gofyniad drwy'r post: Mae gofyniad drwy'r post yn ddogfen gyfreithiol sy'n hysbysu'r sawl sydd dan amheuaeth bod penderfyniad wedi'i wneud i gyhuddo ac erlyn trosedd yn y llys. Bydd yn nodi'r dyddiad y mae'n rhaid i'r sawl sydd dan amheuaeth fynychu'r llys. Yn ogystal â'r gofyniad drwy'r post, gall y sawl sydd dan amheuaeth hefyd gael tystiolaeth sy'n amlinellu'r drosedd naill ai ar ffurf datganiadau neu ddatganiad o ffeithiau.

Res gestae: Unrhyw reol cyfraith y bydd datganiad yn dderbyniol mewn camau troseddol fel tystiolaeth unrhyw fater a ddatgenir os:

(a) gwnaed y datganiad gan unigolyn y mae emosiwn digwyddiad wedi ei drechu fel y gellid diystyru'r posibilrwydd o greu neu ysgiwio,
(b) yw'r datganiad ynghlwm â gweithred y gellir ei gwerthuso yn briodol fel tystiolaeth os caiff ei hystyried ar y cyd â'r datganiad yn unig, neu
(c) yw'r datganiad yn ymwneud â theimlad corfforol neu gyflwr meddyliol (fel bwriad neu emosiwn).

# Geirfa byrfoddau

| | |
|---|---|
| CAID | Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant |
| CJS | System Cyfiawnder Troseddol |
| COE | Canolfan Arbenigol |
| CMS | System Rheoli Achosion |
| GEG | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| GEGD | Gwasanaeth Erlyn y Goron Uniongyrchol |
| CQS | Safonau Ansawdd Craidd |
| CSA | Cam-drin Plant yn Rhywiol |
| CRhP | Ecsbloetio Rhywiol Plant |
| DCCP | Dirprwy Brif Erlynydd y Goron |
| DPP | Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus |
| DA | Cam-drin Domestig |
| DVPO | Gorchmynion Amddiffyn Trais Domestig |
| ECG | Grŵp Ymgynghori Allanol |
| EIA | Cyngor Ymchwiliadol Cynnar |
| FM | Priodas dan Orfod |
| FMU | Uned Priodas dan Orfod |
| FGM | Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod |
| HBV | Trais 'Ar Sail Anrhydedd' |
| HMGEGI | Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi |
| HMICFRS | Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, Gwasanaethau Tân ac Achub |
| HO | Swyddfa Gartref |
| ICEM | Rheolwyr Cynhwysiant ac Ymgysylltiad Gymunedol |
| IDVA | Cynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol |
| IQA | Asesiad Ansawdd Unigol |
| ISVA | Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol |
| LSIP | Paneli Craffu ac Ymgysylltiad Lleol |
| MIS | System Rheoli Gwybodaeth |
| WG | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCJB | Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol |
| NOMS | Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu |
| NRM | Peirianwaith Cyfeirio Cenedlaethol |
| OOCD | Ymdrin ag achosion tu allan i'r llys |
| PHA | Deddf Atal Aflonyddu |
| PPT (ppt) | Pwynt Canrannol |
| RASSO | Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol |
| SDAC | Llys Arbenigol Cam-drin Domestig |
| SFR | Adroddiad Fforensig Syml |
| SOA | Deddf Troseddau Rhywiol |
| SOP | Trefn Weithredu Safonol |
| SO | Troseddau Rhywiol |
| SPOC | Un Man Cyswllt |
| WCU | Uned Gofal Tystion |
| WMS | System Rheoli Tystion |
| VAWG | Trais yn erbyn Menywod a Merched |
| VLU | Uned Gysylltu Dioddefwyr |